

Cydymaith i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia

Eirionedd A. Baskerville

Cymdeithas Cymru–Ariannin

2014

Hawlfraint © Eirionedd A. Baskerville, 2014

Rhagair

Nod y *Cydymaith* hwn yw casglu ynghyd mewn un lleoliad wybodaeth sydd ar gael mewn gwahanol ffynonellau am fywyd a gwaith rhai o arloeswyr y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Gadawodd y rhain eu hól ar bob agwedd ar fywyd y sefydliad a gwelir nifer o'u disgynyddion yn dal i gynnal egwyddorion y sefydlu.

Prif ffynhonnell y deunydd yw'r erthyglau a ymddangosodd yn *Y Drafod*, papur newydd y Wladfa a gychwynwyd yn 1891 ac sy'n dal i gael ei gyhoeddi heddiw. Ceir gwybodaeth bwysig am yr arloeswyr mewn gwahanol lyfrau ar hanes y Wladfa, ac ar gyfer manylion personol am y teuluoedd mae fy nyled yn fawr i lyfrau Albina Jones de Zampini. Yn ogystal â chofnodion cyfrifiad Cymru a Lloegr, 1841-1911, sydd yn werthfawr ar gyfer lleoli gwreiddiau yr unigolion cyn iddynt ymfudo, daethpwyd o hyd i sawl gwefan oedd yn cynnwys hanesion teuluol a gyfrannwyd gan ddisgynyddion yr ymfudwyr.

Gwaith a gomisiynwyd gan CyMAL, yr adran o Lywodraeth Cymru sy'n cynghori a chefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, yw sail nifer o'r cofnodau a gynhwysir yn y *Cydymaith*, a diolchir am ganiatâd i gyhoeddi fersiynau diwygiedig o'r cofnodau hynny yn y fan hon.

Trwy gyhoeddi'r *Cydymaith* ar y we bydd modd ychwanegu at yr wybodaeth a'i diwygio. Croesewir sylwadau ar gyfer cywiriadau neu ychwanegiadau. Bwriedir hefyd ychwanegu cofnodau eraill o bryd i'w gilydd ar unigolion, sefydliadau a phynciau yn ymwneud â'r Wladfa, a chroesewir awgrymiadau am gofnodau ychwanegol.

Eirionedd A. Baskerville
nonbaskerville@btinternet.com

Ffynonellau

Seiliwyd y cofnodau hyn yn bennaf ar wybodaeth yn *Y Drafod* (papur newydd y Wladfa), deunydd yng nghasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r ffynonellau a ganlyn:

Deunydd printiedig:

R. Bryn Williams, *Y Wladfa* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1962).

Elvey MacDonald, *Yr Hirdaith* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1999).

Edwin Cynrig Roberts, *Hanes Dechreuad y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia* (Bethesda: J. F. Williams, 1893).

Albina Jones de Zampini, *Cien atuendos y un sombrero: moda y familia en Chubut desde 1859 a 1939* ([Gaiman, Chubut]: Yr Awdur, 1991).

Albina Jones de Zampini, *Reunión des familias en el Sur, llegadas al Chubut entre 1865 y 1922* ([Gaiman, Chubut]: Yr Awdur, 1995).

Cathrin Williams a May Williams de Hughes, *Er Serchog Gof: Casgliad o Arysgrifau o Fynwentydd y Wladfa* (Dinbych: Gwasg Gee, 1997).

Osian Hughes, *Los Poetas del Eisteddfod* (Rawson, Chubut: El Regional, [1993]).

Matthew Henry Jones, *Trelew* (Rawson, Chubut: El Regional, 1997-98)

Kenneth Skinner, *Railway in the Desert* (Wolverhampton: Beechen Green Books, 1984).

David Williams, *El Valle Prometido* (Gaiman, Chubut: Del Cedro, 2008).

Guido Abel Tourn Pavillon, *Los Galeses de Santa Fe* (Alejandra, Provincia de Santa Fe, 2011).

Clemente L. Dumrauf, *El ferrocarril Central del Chubut*, 'Chubut: Documentos de su historia, 2' (Puerto Madryn: Centro de Estudios Historicos y Sociales, 1993).

Ffynonellau di-brint:

Manylion o gyfrifiad Chubut ar ffis Michelle Langfield a Peta Roberts, 'The Welsh Patagonian Genealogical Index 1865 to 1900': <http://welshofpatagonia.com/>

Cyfrifiad Cymru a Lloegr, 1841–1911: www.ukcensusonline.com

Gwefan 'Ancestry' am gofnodion cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, 1837–2007: www.ancestry.co.uk/

Gwefan Jeremy Howat, 'British Settlers in Argentina and Uruguay – Studies in 19th & 20th Century Emigration': www.argbrit.org

Y Mynegai Achyddol Rhyngwladol ('International Genealogical Index'): <https://familysearch.org/search/collection/igi>

Cynhwysir ffynonellau ychwanegol ar waelod rhai o'r cyfraniadau.

Cynnwys

AP IWAN, Llwyd (1862–1909)	7
BERWYN, Richard Jones (1837–1917)	10
BOWEN, David Tres Casas ((1844–1920)	14
BRUNT, Benjamin (1837–1925)	16
DAVIES de JONES, Ada (1846–1909)	19
DAVIES, Thomas (1834–1907)	21
ELLIS, Richard (g. 1838), a'i wraig, Frances (1838–1888)	24
ELLIS, David (1835–1875)	27
ELLIS, John (1827–1874)	28
ELLIS, Thomas (1829–1900)	29
EVANS, David, Maen Gwyn (1858–1948)	32
EVANS, Esau (1848–1921)	35
EVANS, John Caerenig (1837–1913)	38
EVANS, John Daniel (1862–1943)	42
EVANS, Thomas Dalar (1847–1926)	45
EVANS, Tudur (1877–1959)	48
EVANS, William, Maes yr Haf (1851–1931)	50
FOOTMAN de MORRIS, Elizabeth (1863–1915)	52
FREEMAN, William J. (1851–1914)	55
GREEN, Frederick (1913–2002)	58
HUGHES, Hugh ('Cadfan Gwynedd'; 1824–98)	63
HUMPHREYS, Lewis (1838–1910)	65
HUNT, Edmund Freeman (1858–1938)	67
JONES, Lewis (1837–1904)	70
JONES, Robert (1840–1912)	72
MALIPHANT, William (1854–1920)	74
MATTHEWS, Abraham (1832–99)	75
MORGAN, John (1834–1914)	78
MORGAN, David (1849–1933)	80
MORGAN, Richard (1850–1911)	81
PHILLIPS, Thomas Benbow (1829–1915)	82
PRITCHARD, Thomas Gwilym ('Glan Tywi'; 1846–1924)	86

ROBERTS, Edwin Cynrig (1838–93)	88
ROGERS, William J. (1827–1909)	91
RHYS, William Casnodyn (1851–1943)	95
THOMAS, David Coslett (1836–1923)	98
THOMAS, Evan (1917–52)	100
THOMAS, John Murray (1848–1924)	102
WILLIAMS, David Beynon (1852–1935)	104
WILLIAMS, Edward Jones (1857–1932)	105
WILLIAMS, Josiah (1831–1923)	108
WILLIAMS, William ('Prysor' 1889–1945)	110

AP IWAN, Llwyd (1862–1909)

Ganed Llwyd ap Iwan, mab hynaf y Parch. Michael D. Jones ac Anne (gynt Lloyd), ar 20 Chwefror 1862 yn y Bala. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Tan Domen, ac yna mewn prifysgolion ym Mhrydain a'r Almaen, gan ennill trwyddedau fel tîrfesurydd a pheiriannydd. Cyrhaeddodd y Wladfa ar 15 Mawrth 1886 ar fwrdd y *Mozart* i ymgymryd â gwaith fel peiriannydd i'r rheilffordd o Borth Madryn i'r Dyffryn. Dywed R. Bryn Williams yn ei gyfrol *Y Wladfa* fod Llwyd ap Iwan wedi cyfarfod ag Azahel P. Bell ym mis Ionawr 1866. Peiriannydd o Sais oedd hwnnw a ddigwyddodd gwrdd â Lewis Jones, un o brif arloeswyr y Wladfa Cymreig, a'i ferch Eluned pan oeddent yn teithio ar drên yn Lloegr, a chynnig ei wasanaeth fel peiriannydd ar gyfer y rheilffordd arfaethedig a'i gymorth i sefydlu cwmni ar ei chyfer. O ganlyniad i'r cyfarfod rhwng Llwyd a Bell dywed R. Bryn Williams fod 'cytundeb rhyngddynt ar air; un yn addo cynorthwyo gyda'r rheilffordd yn y Wladfa am naw mis, a'r llall yn rhoi swm o arian ar law ac addewid cynhaliaeth am y cyfnod hwnnw'. Ar 12 Mai 1886, aeth Llwyd ar neges i orynys Valdez a dechrau cael blas ar anturio, ac er i'w gydymaith John Howell Jones ac yntau golli'r ffordd a gorfod cysgu dan lwyn, cyraeddasant ben eu taith yn ddiogel y diwrnod canlynol.

Wedi iddo orffen ei dymor gyda'r rheilffordd, bu'n ail-fesur ffermydd y Dyffryn ar gais Cyngor y Gaiman a threfnu llinellau'r ffyrdd. Rhoes gymorth hefyd ynglŷn â'r cynllun dyfrhau ac yn arbennig gyda'r argaeau, a chynlluniodd gamlesi dŵr yn Rio Negro yn ogystal. Teithiodd lawer ar beithiau eang y diriogaeth i chwilio am leoedd newydd i'w gwladychu, ac yn 1887 ymunodd â thaith ymchwil a drefnwyd gan bennaeth y rheilffordd, Azahel P. Bell, i ogledd-orllewin Dyffryn Camwy i chwilio am ffordd i estyn y rheilffordd i'r Andes ac i ganfod bwlech trwy'r mynyddoedd i Chile. Y flwyddyn ganlynol, ymunodd â thaith arall, y tro hwn yng nghwmni'r Rhaglaw Fontana a John Daniel Evans, i'r ardaloedd gorllewinol i geisio lleoliad ar gyfer sefydlu gwladychfa newydd yn yr Andes. Yno, bu'n mesur y tiroedd yng Nghwm Hyfryd. Marciodd hanner can llain, a chafodd llain rhif 17 am ei waith.

Fel daearyddwr, lluniodd fap o dalaiith Chubut yn 1888 sy'n dangos, gyda manylder, y teithiau ymchwiliadol a wnaed hyd hynny ganddo ef a gwladfawyr Cymreig eraill yn ogystal â manylion am lwybrau'r brodorion a oedd heb eu fforio. Mae ei fap o Ranbarthau Gogleddol a Deheuol Patagonia ar gadw ymysg archifau'r *Royal Geographical Society* ym Mhrydain. Ar ddiwedd 1893 ffurfiwyd y *Phoenix Patagonian Mining Company* gyda'r bwriad o chwilio am dir mwynol neu dir âr ym

mynydd-dir yr Andes. Cwmni a ffurfiwyd gan y gwladfawyr eu hunain oedd hyn, gydag Edward Owen, Maes Llaned, yn Gadeirydd ac Edwin Owen yn Ysgrifennydd. Cyflogwyd Llwyd ap Iwan fel y mesurydd tir, John Davies, mwynwr profiadol, a Thomas G. Davies, gŵr cyfarwydd â'r paith, i chwilio am fwynau a thiroedd, trosglwyddo pob gwybodaeth newydd i'r cwmni a chadw'r cwbl yn gyfrinachol. Rhoddwyd cyflog o \$360 y mis i Llwyd a \$150 ychwanegol iddo gyflogi gwas. Gadawsant am yr Andes ym mis Chwefror ac fe gymerodd y daith o 1,900 milltir ddeuddeng mis. Flwyddyn union yn ddiweddarach arweiniodd Llwyd ap Iwan dri Chymro a Gregorio Retamal ar ymchwildaith arall i chwilio'r ardal rhwng Cwm Hyfryd a Rio Senguerr ac i geisio agor bwlch rhwng yr Andes i Aisen ar y Môr Tawel.

Yn ystod ei dair ymgyrch yng nogledd Santa Cruz (rhwng 1893 a 1897) cafodd Llwyd ei gynorthwyo gan dywyswyr Tehuelche i fforio ardaloedd a llwybrau na fesurwyd cyn hynny. Yr oedd Cwmni'r Ffenics yn argymhell ei ymchwilwyr i gadw'r enwau brodorol lle'r oedd hynny yn bosibl; nododd Llwyd ap Iwan hwynt yn ofalus, a cheisio atgynhyrchu'r synau a glywodd gan y tywyswyr Tehuelche mor gywir ag y gallai mewn seineg Gymraeg, Sbaeneg neu Saesneg. Y mae ei ddyddiaduron yn rhai o'r dogfennau pwysicaf am y cyfnod hwn yn y dalaith. Ysgrifennai hanes manwl am ei deithiau ymchwil yn y llyfrynnau hyn, ac yna fe'u hanfonai at ei dad a fyddai'n cyhoeddi eu cynnwys yn y *Celt*. Yn ddiweddarach, lluniodd gyfres o ysgrifau wedi eu seilio ar gynnwys y dyddiaduron, ac maent yn cofnodi hanes ac arferion y cyfnod ac yn cyfleu awyrgylch y wlad a natur ei phobl.

Agorodd Cwmni Masnachol y Camwy gangen i'w fasnach yn 1906 yn Nant-y-pysgod gyda Llwyd yn Arolygwr arni. Ar brynhawn 29 Rhagfyr 1909 cafodd ei saethu'n farw yn y siop gan wylliaid o Ogledd America, Wilson ac Evans. Yn rhyfedd iawn, roedd wedi anfon llythyr at ei frawd, Dr Mihangel ap Iwan, ar 22 Rhagfyr 1909 yn cwyno am y diffyg diogelwch yn ardal Cwm Hyfryd a'r cynnydd mewn anhrefn yn y parthau hynny. Soniodd am gyflwr gwael ei ddwylo – yr oedd wedi eu llosgi wrth geisio diffodd tân yn ei gartref fis ynghynt ac ar y pryd roedd yn methu cau ei ddwylo'n ddigon tyn i gadw gafael ar laso fel nad oedd yn llithro trwyddynt. Gofynnodd i'w frawd a oedd ei ddwylo'n debygol o barhau yn y cyflwr hwnnw neu a fyddent, yn y pen draw, yn adennill eu hystwythder. Cymerodd y lladron nwyddau yn cynnwys cyfrwyau a ffrwyni newydd a channoedd o fwledi. Yn rhifyn 11 Ionawr 1909 o'r *Drafod*, cyhoeddwyd llythyr a arwyddwyd gan W. Evans, Cofnodydd, ar ran

Cwmni Masnachol y Camwy, Trelew: 'Ein bod yn cyfrannu 4000 o ddoleri tuag at dreuliau yr ymlidiad ar ôl llofruddion Llwyd ap Iwan ac yn addo 4000 arall i unrhyw fintai, unrhyw bersonau neu unrhyw un a lwyddant i'w dal.' Pwyswyd ar i'r Llywodraeth adfer trefn yn y diriogaeth ac o ganlyniad crëwyd y *Policia Fronteriza*.

Roedd Llwyd ap Iwan yn briod â Myfanwy Ruffudd, un o ferched Lewis Jones, ac roedd ganddynt chwech o blant: Mihangel Griffith, Alan, Mair, Llewelyn Huw, Mwyni a Tegid Llwyd.

'Llythyr y diweddar Llwyd ap Iwan', *Y Drafod*, 4 Mawrth 1910

Llythyr apêl am gyfraniadau tuag at dreuliau'r ymlidiad, *Y Drafod*, 11 Ionawr 1910

Ann Parry Owen, *Llofruddiaeth Llwyd ap Iwan: Adroddiad llygad-dyst*, (Dinbych, Gwasg Gee, d.d.

Ad-argraffwyd o *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1989)

BERWYN, Richard Jones (1837–1917)

Ganed Richard Jones Berwyn ar nos Galan Gaeaf 1837 mewn tŷ o'r enw Brynhyfryd ger tafarn y Sun Inn, tua hanner ffordd rhwng Llangollen a Chorwen, yr hynaf o 11 o blant David a Mary Jones. 'Sun Cottage' yn ardal Mwstwr, Llanycil, yw enw'r cartref ar gyfrifiad 1841; yr oedd David Jones yn grydd 34 mlwydd oed, Mary yn 28 a Richard yn 3 blwydd oed. Erbyn cyfnod cyfrifiad 1851 roeddynt yn byw yn Nantswrn, Rhiwlas Uwchfoel, David Jones yn ffermwr ar 60 erw ac wedi ei eni ym mhlwyf Corwen tua 1807, a Mary yn 38 ac wedi ei geni ym mhlwyf Bryneglwys tua 1813. Gyda hwy yr oedd eu plant Richard (13), David (9), Ann (6), Sarah (4) ac Edward (2) – y pump ohonynt wedi eu geni ym mhlwyf Corwen – ac erbyn cyfrifiad 1861 ychwanegwyd at y teulu gyda genedigaeth Mary, oedd yn 9 mlwydd oed a William, 4, y ddau wedi eu geni ym mhlwyf Llansilin. Erbyn cyfrifiad 1871, Pontymeibion a enwir fel cartref y teulu. Yr oedd cysylltiad hir gan y teulu â Phontymeibion, a gellid olrhain achau David a Mary ill dau i Robert Morys Pontymeibion, brawd hynaf Huw Morys y bardd (1622-1709). David brawd Richard oedd yn ffermio yno yn 1911.

Pan oedd Richard tua phum mlwydd oed aeth i Ysgol Frutanaidd yng Nglyndyfrdwy ac wedyn i Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog lle cafodd ei wneud yn ddisgybl athro pan oedd yn bymtheg mlwydd oed. Yn yr anerchiad a roddodd adeg gosod carreg sylfaen Ysgol Ganolraddol y Camwy, 20 Rhagfyr 1906, dywedodd Berwyn: 'Mae dros drigain mlynedd er pan oeddwn yn blentyn rhwng wyth a naw mlwydd oed, yn un o fwy na dau gant o blant y lle yn gorymdeithio hyd heolydd y dref, ac ynghyd a thyrfa fawr o bobl yn llygad-dystion o osod carreg sylfaen Ysgol Frutanaidd gyntaf Llangollen gan Ebenezer Cooper, Ysw.'

Aeth Berwyn i Lundain yn ei ardegau a chael ei hyfforddi yn athro yn Athrofa Borough Road, Llundain, a gwelir ei enw yng nghofrestr yr athrofa ar gyfer y flwyddyn 1852. Bu'n athro ysgol ym Mhentrecilgwyn am flwyddyn ac yna yn ysgol Garth Trefor ger Llangollen, hefyd am flwyddyn, cyn dychwelyd i Lundain oherwydd afiechyd. Gweithiodd mewn siop am gyfnod, ac mae'n bosibl mai ef yw'r Richard Jones a aned ym mhlwyf Corwen y daethpwyd o hyd iddo yng nghyfrifiad 1861:

4 Liverpool Street, St Botolphs Bishopsgate

Richard Jones Un[married] 23 Silk Warehouse Man born Wales Corwen
Merioneth

Yna bu'n gweithio mewn swyddfeydd yn cadw cyfrifon, a chyda'r nos rhoddai wersi i ryw hanner dwsin o bobl a oedd yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Ysgrifennai i'r wasg yn rheolaidd ar destun ymfudiaeth i Batagonia – ef oedd awdur y golofn 'Gwladfa Gymreig' yn y *Faner* a bu'n ohebydd i'r *Herald* a'r *Ddraig Goch*.

Yn ogystal, bu'n trefnu cyngherddau cerddorol yn Llundain, ac yn rhifyn 1 Rhagfyr 1862 o'r *Cerddor Cymreig*, ceir hanes un o'r cyngherddau hynny:

'Llundain - *Cyngerdd Berwyn*. Yn yr Albion Hall, nos Wener, Hydref 31, 1861, ymgynullodd lliaws mawr o Gymru [*sic*] y Brifddinas i fwynhau y wledd gerddorol a ddarparwyd ar ein cyfer gan Mr R. B. Jones (*Berwyn*). Llwyddodd Berwyn i gael gwasanaeth Llew Llwyfo a'i ferch fechan Miss Mary Ellen 11eg oed, Mr Thomas Jones, gynt o Gaerdydd, ynghyd a'r Cambrian Quartett Union; a chafwyd cyfarfod difyr a da.'

Mae'n debyg fod Richard Jones wedi ychwanegu 'Berwyn' fel enw canol ar ôl mynd i Lundain ac yn y Wladfa fe'i mabwysiadodd fel ei gyfenw.

Cynghorwyd Berwyn gan y meddygon i fynd ar fordaith er mwyn ei iechyd, ac yn 1863 hwyliodd i'r Unol Daleithiau. Yn ystod y fordaith daeth yn gyfeillgar â'r capten a rhoddodd hwnnw wersi i Berwyn 'ar gyfeirio a llywio llong'. Mae'n ymddangos na chafodd ei blesio gan Efrog Newydd ac nid oedd yn hoffi gweld ymfudwyr o Gymru yn chwalu i wahanol ardaloedd yn yr Unol Daleithiau. Ymunodd â'r ymgyrch dros y Wladfa Gymreig gan gyfrannu ysgrifau i'r *Drych*. Diolch i'w hyfforddiant morwrol, gweithiodd ei gludiad yn ôl i Gymru ac ymunodd â menter Michael D. Jones. Gweithiodd fel cyfrifydd i dalu ei gludiad ar y *Mimosa*.

Fe'i disgrifiwyd fel un o'r gwŷr galluocaf a fu yn y Wladfa. Roedd yn ŵr amryddawn, bonheddig a chymwynasgar. Llanwodd nifer o swyddi yn y Wladfa. Bu'n Ysgrifennydd y Cyngor a'r Llys Rhaith, cofrestrydd genedigaethau, priodasau a marwolaethau, trengolydd, ceidwad y porthladd, prif weinyddwr y llythyrdy, rheolwr swyddfa'r tywydd, golygydd *Y Brut* ('newyddur' cyntaf Patagonia), a melinydd. Bu'n athro ysgol yn Rawson, ac ef oedd awdur *Gwerslyvr cyntaf i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladfa*.

Berwyn oedd llyfrwerthwr cyntaf y Wladfa, ac roedd ganddo siop yn Nhrerawson yn gwerthu detholiad da o lyfrau. Yn hynafiaethydd a llenor, ysgrifennai i gylchgronau a phapurau newydd Cymreig a Seisnig ac i bapur newydd ym Muenos Aires dan y ffugenw 'Monteblanchi', cyfieithiad i'r Eidaleg o 'Berwyn'. Ymddangosodd ei ysgrif, 'Gwib i Chili', yn *Cymru* O. M. Edwards yn 1905.

Cyhoeddodd almanaciau yn flynyddol o 1884 hyd 1905 a chasglodd gronfa o eiriau gwladfaol, ond collwyd ei gofnodion a'i ysgrifau hanesyddol yn llifogydd 1899.

Yn 1880 fe'i hanfonwyd i Buenos Aires ar neges swyddogol dros y Wladfa a dychwelodd ddechrau 1881 gyda 104 o weithredoedd ar dyddynnod y Wladfa, y rhai cyntaf a luniwyd ar gyfer y rhan honno o'r Weriniaeth. Carcharwyd ef ynghyd â Lewis Jones am ddeng niwrnod yn Rhagfyr 1882 o ganlyniad i anghydfod rhwng y gwladfawyr a swyddog lleol y Wladwriaeth. O 1865 hyd ychydig cyn ei farw yn 1917 gwasanaethodd fel cyfieithydd yn Swyddfeydd Gweinyddol y Wladwriaeth a'r Llysoedd Rhaith, yn ogystal â rhwng pobl o wahanol genhedloedd.

Yn rhifyn 8 Tachwedd 1907 o'r *Drafod* adroddir am fwriad Berwyn i fynychu'r Eisteddfod a oedd i'w chynnal yn Llangollen yn 1908, ac i gydnabod ei fod wedi 'gwasanaethu'r Wladfa yn ffyddlon mewn amrywiol gylchoedd', agorwyd tysteb iddo. Tra bu yng Nghymru bwriadai gyflwyno cyfres o ddarlithoedd ar y Wladfa Gymreig ac ymddangosodd copi o'r cyfweiliad a wnaeth gyda gohebydd o'r *Eryr* yn rhifyn 28 Awst 1908 o'r *Drafod*, ac yn rhifyn 9 Hydref 1908 cafwyd cofnod o gyfweiliad a ymddangosodd yn y *South Wales Daily News*.

Yn rhifyn 28 Gorffennaf 1965 o'r *Drafod* ceir adroddiad am deyrnged i Berwyn a gynhaliwyd ar Ddydd y Newyddiadurwyr, sef 7 Mehefin, pan ddadorchuddiwyd darlun o'r 'Patriarch Berwyn' gan Raglaw y Dalaith yn swyddfa *Jornada*, papur dyddiol Trelew. Yn bresennol yr oedd cynrychiolwyr o'r gwahanol adrannau o'r Llywodraeth a chynrychiolwyr o'r papurau newyddion, y radio a'r teledu, a darlledwyd y cyfan ar y radio a'r teledu. Yr oedd Mrs Fest Berwyn de Jones, un o ferched Berwyn, ac eraill o'i ddisgynyddion yn bresennol, ond yr oedd ei ferch Mrs Gwenonwy Berwyn de Jones ar ymweliad â Chymru ar y pryd. Cafwyd darlith fer ar R. J. Berwyn gan Dr Luis Feldman Josin, golygydd *Jornada*, a gosododd y Rhaglaw dorch o flodau 'fel arwydd o barch a chlod y llywodraeth i'r gŵr a anrhydeddid'.

Priododd Richard Jones Berwyn ag Elizabeth Pritchard, gweddw Thomas Pennant Evans ('Twm Dimol') a mam Arthur Llewelyn Dimol a Gwladys Dimol, ar 25 Rhagfyr 1868 yn Nhrerawson. Cawsant 13 o blant, wedi eu henwi yn nhrefn yr wyddor, gyda'r llafariaid yn gyntaf – Alwen (24 Ebrill 1870), Einion (24 Ionawr 1872), Ithel (19 Hydref 1873), Owain (1875), Urien (1877), Wyn (1879), Ynver (1881), Bronwen (1883), Ceinwen (1885), Dilys (1887), Fest (1889), Gwenonwy (1890) a Helen a aned ar 16 Ionawr 1893 ac a fu'n farw'n blentyn. Bu farw Richard

Jones Berwyn fore Nadolig 1917 yn 80 mlwydd oed. Roedd ganddo frawd, William Lloyd Jones, Glyn, a chwaer, Mary, gwraig Thomas Williams, Tal y llyn, Bro Hydref, yn byw yn y Wladfa hefyd.

‘Y Bonwr Berwyn’ gan E. J. Williams [Edward Jones Williams] yn rhifyn Gŵyl Ddewi 1919 o’r *Geninen*, tt.52-3

‘Tysteb i Berwyn’, *Y Drafod*, 8 Tachwedd 1907

Cyfweliad Berwyn â gohebydd o’r *Eryr* yn *Y Drafod*, 28 Awst 1908

Cyfweliad Berwyn â gohebydd o’r *South Wales Daily News* yn *Y Drafod*, 9 Hydref 1908

‘Teyrnged i Berwyn’, *Y Drafod*, 28 Gorffennaf 1965

Y Cerddor Cymreig, 1 Rhagfyr 1862

Erthygl ar Richard Jones Berwyn yn y gyfres ‘Atgofion Marwolion. Anfarwol y Wladfa’, *Y Drafod*, 16 a 23 Tachwedd 1934

Llythyr R. J. Berwyn, Llsg LIGC 12525B

Kenneth E. Skinner Papers, 1911-1979, Llyfrgell Genedlaethol Cymru: ‘Recollections and Memories of R. J. Berwyn’; cyfieithiad i’r Saesneg [gan Tegai Roberts] o lawysgrif a gedwir yn Amgueddfa’r Gaiman.

BOWEN, David, Tres Casas (1844–1920)

Dywedir fod David Bowen wedi ei eni yn ardal Tre-lech, sir Gaerfyrddin, yn 1844, ac er nad yw enwau ei rieni yn hysbys, cofnodir mewn ysgrif goffa iddo a gyhoeddwyd yn rhifyn 3 Rhagfyr 1920 o'r *Drafod* fod ganddo frawd o'r enw John a sawl chwaer. Dywedir iddo adael ei fro enedigol tua 1864 a mynd i weithio yng ngwaith glo'r Pentre yng Nghwm Rhondda. Disgrifir ef fel un o'r gweithwyr gorau a mwyaf deheuig ym mhwl y Pentre a nodir mai ei bartner yn y gwaith oedd Thomas Bowen, tad y bardd Ben Bowen (1878–1903). Dywed Albina Jones de Zampini i David Bowen briodi Mary Ann Williams yn 1867 ac fe geir cofnod o briodas gŵr o'r enw David Bowen a gwraig o'r enw Mary Anne Williams yn ystod chwarter Mehefin 1867 yn ardal cofrestru Pontypridd, Morgannwg. Mae'r dystysgrif yn cofnodi bod y briodas wedi cael ei gweinyddu yng Nghapel Libanus, Treherbert. Cyfeiriad David Bowen oedd Pentre, Rhondda; roedd yn löwr 23 mlwydd oed ac roedd ei dad, David Bowen, yn was ffarm. Roedd Mary Ann Williams yn byw yn Nhreorci adeg y briodas ac roedd ei thad, David Williams, yn labrwr. Yn ôl yr ysgrif goffa, ganed iddynt dri o blant – David, Mary Jane (Polly, 1874) a Margaret (neu Marged) Ann – ond nid yw David yn ymddangos yn rhestr Albina Jones de Zampini; y plentyn cyntaf a nodir ganddi yw Thomas a aned yn 1870. Ar 7 Medi 1875 ymfudodd David, Mary Anne a'u plant i'r Wladfa ar yr *Olbers* a glanio yn aber y Camwy ar 31 Hydref. Yn y Wladfa ychwanegwyd at y teulu gyda geni Benjamin yn 1880, Elizabeth yn 1882, Hannah yn 1883, a Sarah yn 1885

Symudodd y teulu yn fuan o Drerawson i Drofa Fresych lle buont am yn agos i dair blynedd. Yn gynnar yn 1878 aethant i'r Gaiman lle adeiladodd David Bowen dŷ cerrig wrth droed y bryniau. Tua dechrau gaeaf 1879 symudodd y teulu eto, i dyddyn yn y Dyffryn Uchaf, ardal a enwyd wedi hynny yn Drebowen, lle treuliodd David Bowen weddill ei oes.

Nid oedd capel gan yr Annibynwyr yn y Dyffryn Uchaf pan ymsefydlodd y teulu yno, ond wrth i boblogaeth gynyddu, adeiladwyd capel yn Nhrofa Gwen Ellis a bu David Bowen yn aelod ohono ac yn un o'r swyddogion. Ymhen tipyn, symudodd y gynulleidfa i gapel newydd a adeiladwyd ar dyddyn yn perthyn i'r Gweinidog, y Parch. William Morris, a rhoddwyd yr enw Bethesda arno. Llanwodd David Bowen swyddi pwysig fel diacon ac Ysgrifennydd Eglwys Bethesda.

Yr oedd David Bowen yn un o'r fintai fechan aeth i'r creigiau ym mhen Dyffryn Uchaf yn Nhachwedd 1881 i edrych am le addas i adeiladu camlas. Bu ei

wybodaeth o diroedd y Dyffryn Uchaf yn fantais fawr i'r rhai oedd am leoli tyddynnod yn yr ardal honno, ac er ei fod yn dioddef o ddiffyg anadl, chwaraeodd ei ran ym mhob gweithgaredd a anelai at ddatblygu'r Wladfa.

Yn yr ysgrif goffa iddo a gyhoeddwyd yn rhifyn 26 Tachwedd 1920 o'r *Drafod*, dywedir bod David, mab hynaf David a Mary Ann, ac un o'u merched wedi marw o'r *typhoid* yn 1883. Priododd ei fab Thomas ag Elizabeth Knowles; ei ferch Marged Ann ag Alun Meirion Williams; Mary Jane ag Adrian Eusebio López; Benjamin â Margaret Jane Roberts; Elizabeth â William Henry Thomas; Hannah â William John Lloyd a Sarah â José Isabel Quiroga. Yn rhifyn Medi 1928 o'r *Drafod* cofnodir marw Alun Meirion Williams, 'neu Sami Alun fel yr oedd yn fwyaf adnabyddus dydd Mawrth diwethaf, mab i'r diweddar Alun Meirion Williams a'i fam yn ferch i David Bowen, Dyffryn Uchaf'.

Bu David Bowen farw ar 16 Tachwedd 1920 yn 76 mlwydd oed, a dywed W. H. Hughes yn ei erthygl goffa amdano, 'Gwnaeth ei orau i ddatblygu'r Wladfa yn dymhorol, moesol, a chrefyddol.... gwladgarwr a chymydog hynod gymwynasgar a pharod, cymeriad gwastad, tawel, serchog a hoffus'.

Bu Mary Ann Bowen farw ar 12 Awst 1900.

BRUNT, Benjamin (1837–1925)

Ganed Benjamin Brunt yn fab i Benjamin Brunt a'i ail wraig, Mary Corbett, ar 6 Chwefror 1837 yn Hughescot, Trefeglwys, sir Drefaldwyn. Yng nghofnod cyfrifiad 1851 yr oedd Benjamin y tad yn 63 mlwydd oed ac yn ffermio 16 erw, Mary'r fam yn 45 ac wedi ei geni ym mhlwyf Llanllugan, a'r plant – Sarah (15), Benjamin (14) ac Ann (12) – wedi eu geni ym mhlwyf Trefeglwys.

Ar 12 Mehefin 1857, ac yntau'n ugain mlwydd oed, priododd Benjamin ag Elizabeth Jones, Brynchrugog, yn Bethel, capel y Methodistiaid Calфинаidd, Ladywell Street, Y Drenewydd, a rhentu fferm fechan Pant-y-badell. Yno y ganed eu dau blentyn cyntaf, David (1858) ac Elizabeth, a fedyddiwyd ar 8 Ionawr 1860 ond a fu farw'n ifanc. Ar ôl saith mlynedd symudodd Benjamin a'i deulu i fferm fwy o faint, Maes-y-blawd, ac erbyn hynny roedd tri o blant eraill wedi eu geni: Benjamin (1862), Ann (1863) ac Elizabeth arall (1865). Ganed Richard yn 1867, John yn 1868 a Roger Edward yn 1870, ond ar 11 Awst 1871 bu farw'r fam o'r dwymyn goch ac fe'i claddwyd ym mynwent fechan Berth-las ger Pant-y-badell. Yn ystod ei salwch gofalwyd amdani gan Ann Jones, merch Richard a Mary Jones (gynt Bennett), Borfa Newydd, a deg wythnos wedi marwolaeth Elizabeth, priodwyd Benjamin ac Ann yng nghapel Bethel, Y Drenewydd.

Buont yn ffermio Maes-y-blawd gyda'i gilydd tan tua 1875, ac ychwanegwyd at eu teulu gyda genedigaeth Edward [?1873] a William ym mis Mawrth 1874. Erbyn i James gael ei eni yn 1875 roedd Benjamin ac Ann wedi symud i ffermio Argoed, fferm sylweddol o 133 erw. Ganed mab arall, Thomas, yno yn Awst 1877 a Margaret yn 1880. Mae traddodiad lleol yn awgrymu bod Benjamin yn ffermwr blaengar iawn a ddefnyddiai wrtaith naturiol cyn ei bod yn gyffredin i wneud hynny. Erbyn hyn, roedd David, y mab hynaf, wedi tyfu i oed i allu helpu ei dad ond roedd hi'n gyfnod anodd i ffermwyr mynydd yng Nghymru gyda sawl haf gwlyb.

Ar ôl ffermio yn ardal Trefeglwys am dros 20 mlynedd, ac er ei fod yn llwyddiannus ac yn trin un o'r ffermydd gorau yn yr ardal, ni allai Benjamin weld unrhyw obaith o berchen ar fferm sylweddol ei hun. Felly, ac yntau'n 44 mlwydd oed, penderfynodd Benjamin fynd i'r Wladfa gydag Ann ac wyth o'r plant. O'r plant a arhosodd ar ôl yng Nghymru aeth yr ail fab, Benjamin, i weithio mewn pwll glo yng Nghwm-parc yng Nghwm Rhondda yn 17 mlwydd oed. Priododd ferch leol, Hannah Williams, yn 1894 ac yng Nghwm-parc y ganed eu plant – Benjamin J. (1895), Ann

Elizabeth (1897), William R. (1899) a David S. (1900). Yn fuan wedyn symudodd y teulu i ardal Maesteg ac yno bu Benjamin farw yn 1924.

Yn y Wladfa ganed tri phlentyn arall i Benjamin ac Ann – Joseph (1882), Sarah (1884) a George (1887). Cawsant fferm mewn ardal a ddisgrifiodd Benjamin fel ‘diffeithwch enbyd’, ond ar y fferm, a enwyd yn Argoed, tyfodd Benjamin wenith o ansawdd eithriadol a enillodd wobrau mewn ffeiriau byd-eang. Yn yr Arddangosfa Ryngwladol ym Mharis yn 1889 enillodd y wobwr gyntaf a medal aur, ond ni chyrrhaeddodd y fedal y Wladfa gan i rywun ei dwyn yn y Dollfa. Anfonodd samplau o’i farlys a’i wenith i arddangosfa yn Chicago yn 1893 ac ennill, unwaith eto, y wobwr gyntaf ynghyd â medal. Er iddo dderbyn gwahoddiad i feirniadu mewn arddangosfa yn yr Unol Daleithiau y flwyddyn ganlynol, gwrthododd y cynnig. Bu llwyddiant ei gnydau yn fodd i godi delwedd a phrisiau gwenith Patagonia yn y farchnad ryngwladol. Mae’n debyg fod ganddo synnwyr busnes craff, a bu’n aelod blaenllaw o’r cwmni cydweithredol lleol a ddaeth yn hynod bwysig yn natblygiad economaidd y Wladfa.

Mae hanes lleol yn dweud i Benjamin dderbyn gan Alejandro Conesa, Llywodraethwr Chubut rhwng 1900 a 1903, yr hedyn alfalfa cyntaf o San Juan, lle’r oedd yr hinsawdd yn ffafrio tyfu alfalfa, er mwyn iddo ei blannu fel arbrawf yn y Dyffryn ac yna dosbarthu’r cnwd ymysg ffermwyr eraill. Sicrhaodd Benjamin ddosbarthiad teg i bawb, er i rai cynnig arian mawr iddo am fwy na’u siâr.

Yn ei henaint ysgrifennodd lythyr a gyhoeddwyd yn rhifyn 17 Mai 1921 o’r *Montgomeryshire Express*, ac ynddo dywed ei fod yn byw o fewn 15 munud i’r rheilffordd a bod ei berllan yn rhoi balchder mawr iddo. Roedd wedi parhau i ddangos diddordeb brwd yn Nhrefeglwys a’i phobl trwy lythyru am fwy na 40 mlynedd a thrwy danysgrifio’n gyson i’r papur newydd. Roedd ei gefnogaeth ddi-baid i ddiwylliant Cymreig ac i’r Eglwys Fethodistaidd Galfinaidd yn amlwg o hyd. Yn fwy na dim, ymfalchïai yn y ffaith bod ei hen ffrindiau a’u disgynyddion, hyd yn oed yn sir Drefaldwyn, yn gallu prynu a gweithio eu ffermydd eu hunain.

Bu Benjamin Brunt farw ddydd Llun 12 Mai 1925 yn 88 mlwydd oed ac fe’i claddwyd ym Mynwent Dolavon. Bu Ann ei wraig farw yn 1931.

Gwybodaeth gan Dr David Pugh, disgynnydd i Elizabeth chwaer Ann Jones
Llythyr Benjamin Brunt yn rhifyn 17 Mai 1921 o’r *Montgomeryshire Express*

Erthygl Ronald Morris, 'Benjamin Brunt: A Montgomeryshire emigrant to Patagonia', *Cofnod*,
Gwanwyn 2000, tt. 15-18

DAVIES de JONES, Ada (1846–1909)

Dywedir fod Ada Davies, gwraig William Jones y gof, yn hanu o Lwyn Gron, Pencader. Hyd 1883 yr oedd Pencader ym mhlwyf Llanfihangel-ar-arth ond nid yw Llyn Gron yn ymddangos yng nghofnodion y cyfrifiad am y plwyf hwnnw, ac er bod yna Lwyn Crwn, nid yw enw Ada yn ymddangos ymysg aelodau'r tŷ hwnnw. Serch hynny, mae yna dŷ o'r enw 'Llain' (Llain) yn y plwyf ac ar gyfrifiad 1851 mae yna Ada, 4 mlwydd oed, yn byw yno gyda'i rhieni - Thomas Davies, 30, a aned ym mhlwyf Llanfihangel-ar-arth, ei wraig Hannah, 28, a aned ym mhlwyf Llanllawddog, a'r plant Elinor 8, Anne 6, Ada 4 a Mary 1, wedi'u geni, meddir, ym mhlwyf Llanfihangel-ar-rth. Yr enw a roddir ar eu cartref ar gyfrifiad 1861 yw Llain y bryn a honnir i Mary, 11 mlwydd oed, a'r plant iau cael eu geni ym mhlwyf Llansteffan.

Priododd merch o'r enw Ada Davies â William Jones yn ardal cofrestru Merthyr Tudful yn chwarter Rhagfyr 1870, ac ar gofnod cyfrifiad 26 Brook Street, Fforchaman, Aberdâr yn 1871 mae yna William Jones, gof 22 mlwydd oed, wedi ei eni yn Llanllawddog, a'i wraig Ada sy'n 24 mlwydd oed ac wedi'i geni ym mhlwyf Llanpumsaint.

Ar gyfrifiad Chubut yn 1895 mae William Jones yn 45, yn gweithio fel gof ac Ada ei wraig yn 46; roeddent wedi bod yn briod am bum mlynedd ar hugain ac wedi magu chwech o blant. Enwau'r rheini oedd Thomas William 15, David 13, Mary 11, Ann 9, Eleanor 6 a Lottie 3, y chwech ohonynt wedi'u geni yn yr Ariannin.

Yn 1909 priododd Thomas William â Jane Hughes, merch William John Hughes o Lanuwchllyn a ymfudodd i'r Wladfa gyda'i rieni ar fwrdd y *Mimosa* yn 1865, a'i wraig Mary Ann Jones a ymfudodd yno o Bensylfania, Unol Daleithiau America yn 1874. Aethant i fyw i Drofa fach yn ardal Bryn Gwyn a chael pedwar ar ddeg o blant:

- (1) Neville, a briododd Catherine Roberts (ond bu honno farw yn 1938 yn 24 mlwydd oed)
- (2) Ada, a briododd gyntaf Murray Younger Thomas, mab John Younger Thomas a Margaret Jane Roberts, ac wŷr i John Murray Thomas a Harriet Underwood; ail wŷr Ada oedd Elfed Griffiths, mab William Gerlan Griffiths a Mary Jones
- (3) Hen lanc oedd Milton
- (4) Priododd Amy â William David Evans
- (5) Bu farw Albert yn faban

(6) Gwraig gyntaf Lloyd oedd Irene Bezunartea a'r ail wraig Mabel Williams

(7) Priododd Alwyn â Catherine Thomas

(8) Priododd Aled â Norma Roberts

(9) Gŵr cyntaf Melba oedd Euros Evans a briododd yn 1938, yr ail Hefin Evans a'r trydydd Emyr Williams

(10) Priododd Dennis â Winnie Roberts

(11) Priododd Delyth â Nicholas Kolev

(12) Priododd William ag Aurora Bezunartea

(13) Priododd Emyr â Yolande Quiroz

(12) Priododd Lottie â Lewis Morgan James, mab Iwan Madryn James a Hannah Elizabeth Morgan, a fu'n baffiwr poblogaidd a llwyddiannus.

O blant eraill William ac Ada, priododd Ann â Gwilym Evans a Mary â Cyrus Evans; bu David farw ar 23 Mai 1923 yn 42 mlwydd oed; priododd Ellen/Eleanor â Thomas Saunders ac aeth Lottie i Gymru, priodi yno ac ymfudo i Ganada.

Bu Ada Jones farw ar 10 Hydref 1909 yn 63 mlwydd oed, ac ar ei charreg fedd ym mynwent y Gaiman ceir pennill gan y Parch. John Caerenig Evans:

Does dyn i'w cael a wyr pa bryd

Na'r dull na'r modd yr â o'r byd;

Pa un ai hir, ai byr y boen,

Ai dwg i wyddfod Duw a'r Oen.

Bu William Jones farw ar 5 Mehefin 1931 yn 85 mlwydd oed.

DAVIES, Thomas (1834–1907)

Roedd Thomas Davies ‘Aberystwyth’, fel y’i gelwid yn y Wladfa, yn adeiladydd a gŵr busnes craff yn Aberystwyth, ei dref enedigol. Fe’i ganed yno ar 27 Rhagfyr 1834, yn fab i Thomas ac Ann Davies, a’i fedyddio yn y Tabernacl, capel y Methodistiaid Calфинаidd yn Aberystwyth, ar 25 Ionawr 1835. Roedd ei dad Thomas yn adeiladydd a saer maen ac ef a adeiladodd nifer o dai mwyaf sylweddol Aberystwyth.

Priododd Thomas Davies y mab ag Emma Dorothy Davies ar 1 Hydref 1866 a ganed iddynt bump o blant – Thomas Edmund (bedyddiwyd 8 Mawrth 1867), Ann Jane (bedyddiwyd 1 Ebrill 1868), William Charles (bedyddiwyd 15 Mai 1870), Emily Dorothy (ganed 1873; bu farw yn Llundain yn 1886) a Myfanwy Adelaide (ganed 1875). Yr oedd y mab hynaf wedi marw erbyn dyddiad cyfrifiad 1881 lle gwelir Thomas yn 46 mlwydd oed ac yn ‘Builder and Contractor’, Emma Dorothy yn 45 ac yn ‘Lodging House keeper’, Ann Jane yn 13, William Charles yn 10, Emily Dorothy yn 8 a Myfanwy Adelaide yn 6. Yr oedd John C. Davies, 33 mlwydd oed, brawd Thomas, gyda’r teulu yn Marine Terrace, Aberystwyth.

Ymfudodd Lewis Davies, un o frodyr eraill Thomas, i Batagonia ar y *Mimosa* gyda’i wraig Rachel Watkins a’u mab bychan, Thomas. Ceir llythyr ganddo dyddiedig Tachwedd 1865 at ei dad a’r teulu yn *Llythyrâu a ddaethant o’r Sefydlwyr yn y Wladfa Gymreig, Gweriniaeth Arianin, Deheudir America*, a llythyr arall, a gyhoeddwyd yn *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Chwefror 1876, at ei frawd Thomas, efallai i’w gymell i ymfudo yno. Aeth Thomas gyda’i fab William Charles i’r Wladfa yn 1883 a dyna pryd y daeth Thomas Davies i’r amlwg fel hyrwyddwr y rheilffordd. Gwelodd yn fuan bod angen am well cyfrwng i allforio’r cynnyrch ac i fewnforio’r nwyddau, gan awgrymu cael rheilffordd rhwng Porth Madryn a’r Dyffryn. Dywed Kenneth Skinner yn ei lyfr *Railway in the Desert* fod Lewis Jones ei hun wedi trafod, yn y 1860au cynnar, y syniad o gael rheilffordd ym Mhatagonia a fyddai’n cysylltu y ddau gefnfor mawr, a bod cofnod yn ei ddyddiadur am 1882 yn crybwyll yr angen i adeiladu rheilffordd i gysylltu’r Bae Newydd gyda’r anheddiad a alwyd maes o law yn Drelew.

Serch hynny, mae Thomas Davies yn haeddu ei gydnabod fel prif symbylydd y mudiad i gael rheilffordd yn ystod y cyfarfodydd niferus a gynhaliwyd yn y Dyffryn Uchaf ar ddiwedd 1883 a dechrau 1884 ac ef, hefyd, a alwodd gyfarfod cyhoeddus yn niwedd 1884 lle y cytunwyd i gefnogi’r fenter. Yn ogystal, chwaraeodd ran bwysig yn

y gwaith o fesur y tir a rhoddodd gyngor ymarferol a chall i'r 'cyngor o dri' – Lewis Jones, Edward Jones Williams ac yntau. Roedd Thomas Davies, gyda Lewis Jones, yn gyfrifol am godi'r cyfalaf a threfnu'r gwaith o adeiladu'r rheilffordd, ac aeth i Brydain tua diwedd 1884/dechrau 1885 i geisio codi arian ar gyfer y rheilffordd. Ar ddechrau 1886 bu farw Emily Dorothy, ei ferch bedair ar ddeg oed, yn Llundain ac anfonodd Lewis Jones lythyr o gydymdeimlad at Thomas Davies a'i deulu o Hotel Shaftesbury, Lerpwl, ar 27 Ionawr 1886.

Teithiodd Thomas Davies i'r Wladfa eilwaith, y tro hwn gyda'i wraig Emma Dorothy, eu plant William Charles, Ann Jane a Myfanwy Adelaide, ynghyd â'i frawd John, ar y *Mozart* ddechrau 1886. Cawn dipyn o hanes mordaith y *Mozart* yn erthygl Edward Cox Jones ym mhapur bro *Yr Arwydd* ym mis Mawrth 1995. Dywed fod yna deulu bach o Aberystwyth ymysg y teithwyr – tad, mam, dwy ferch a mab.

Darganfuwyd yn fuan fod y tad ac un o'r merched wedi cael eu cyfareddu gymaint gan ryfeddodau Lerpwl nes eu bod wedi colli'r cyfle i fynd ar y llong, ac roedd gweddill y teulu'n poeni'n arw. Pan oedd y llong ar fin codi'i hangor gwelwyd cwch bach yn cael ei rwyfo tuag at y llong a throdd pawb i edrych ar bwy oedd yn y cwch. 'Ah yes, they are Thomas and Vanwy', meddai Mrs Davies; 'I know them by their hats.' A chyn iddynt gyrraedd ochr y llong gwaeddodd ar dop ei llais, 'Thomas, did you bring a brandy bottle with you?' 'Don't bother girl', atebodd Thomas druan. 'Well what shall we do if Willie bach will be sea sick?' oedd cri ofidus Mrs Davies.

Adeiladodd Thomas Davies ei gartref, a oedd hefyd yn westy ac yn dŷ te, yn y Gaiman yn ogystal â nifer o dai cerrig. Bu Emma Dorothy Davies farw ar 2 Mai 1895 yn 62 mlwydd oed, a Thomas Davies ar 13 Ionawr 1907 yn 72 mlwydd oed.

Priododd William Charles Davies ei gyfnither Emma Ellen Davies, merch Lewis a Rachel Davies. Ganed wyth o blant i William Charles ac Emma Ellen: Ernest Wilmot (di-briod), Edward (a fu farw'n blentyn), Hilda Eliza (a briododd Felix Liendo), Norah Emma (a briododd Antonio Navarro), William Harold (a briododd Beryl Williams), Milton Arthur (a briododd Nilda Lucas), Thomas Russell (a briododd Guillermina Hilgenberg) ac Irene (di-briod).

Priododd Ann Jane (1868–1956) ag Edwin Owen, a'u plant oedd Caledfryn Llwyd (di-briod), Dorothy (a briododd Charles Wagner; ymfudodd i Ganada), ac Emily (a briododd Fernando Gaffet).

Priododd Myfanwy Adelaide (1874–1949) â Phillip John Rees (29 Ebrill 1873–1924) a chawsant Gweirydd (20 Rhagfyr 1902–22 Awst 1935; di-briod),

Gwyneth (ganed 2 Tachwedd 1904; yn 1939 priododd David Charles Denholm, 5 Tachwedd 1908-3 Mawrth 1968), Thomas Dewi (19 Ebrill 1906–mis Gorffennaf 1906), Tegwen (28 Awst 1908–1 Chwefror 1931; di-briod), Miriel (20 Awst 1910–25 Ebrill 1925), Elfael (1 Mai 1915–18 Mawrth 1936), Hywel (ganed 1 Mai 1915; di-briod), Eldeg (13 Tachwedd 1915–25 Awst 1932) a Myfanwy (ganed 22 Chwefror 1919), a briododd Juan Eduardo O' Connor a chael Eduardo Elfael, Ricardo Phillip a Sharon.

Cofrestr bedyddiadau capel Tabernacl, Aberystwyth

Edward Cox Jones, 'I Batagonia', yn *Yr Arwydd*, 135 (Mawrth 1995)

Pennod ar deulu Davies, Aberystwyth, yng nghyfrol David Williams, *El Valle Prometido* (Gaiman, Chubut: Del Cedro, 2008).

Cofion cyfrifiad Aberystwyth, 1841–1881

ELLIS, Richard (g. 1838), a'i wraig, Frances (1838–1888)

Ymfudodd Richard Ellis a'i wraig, Frances, i Batagonia ar y *Mimosa* ond ni fuont yno am yn hir. Serch hynny, roeddent yno yn ystod blynyddoedd cyntaf anodd y Wladychfa, a cheir hanes y cyfnod hwnnw mewn dyddiadur a dogfennau eraill a gadwodd Richard Ellis. Cyflwynwyd y defnyddiau hyn, sydd yn cynnwys manylion am fywyd teulu Richard Ellis a bywyd ei frodyr John, Thomas a David yn yr Ariannin ac yn Uruguay yn ogystal, i Amgueddfa'r Gaiman gan Ricardo Parry, Rosario, gorwyr i Richard a Frances, yn ôl pob tebyg.

Yn ôl cofnod ym Meibl y teulu, ganed Richard Ellis yn Llanfyllin yn sir Drefaldwyn ar 19 Ionawr 1838, ond roedd y teulu'n hanu o Bontrobert ym mhlwyf Meifod. Ganed ei dad, David, ar 15 Ionawr 1796 yn fab i John a Sarah Ellis, a'i fam Mary, merch John ac Ann Griffiths, ar 8 Hydref 1798. Yng nghofrestr Eglwys Meifod cofnodwyd 'Teirtref', trefgordd ym Meifod, fel cartref y teulu Griffiths adeg bedyddio Mary ar 10 Hydref 1798. Tybed a oedd Mary yn chwaer i Sara Griffiths, Dolobran Isaf, a oedd yn un o gyfeillesau agos yr emynyddes Ann Griffiths?

Gwelir y teulu o dan Nantymeichiad. Meifod, ar gyfrifiad 1841: David Ellis, 40, 'Agricultural Labourer', Mary Ellis, 40, John (14), Thomas (12), David (6) a Richard (3). Erbyn dyddiad cyfrifiad 1851 dim ond David Ellis, 55 mlwydd oed, Mary ei wraig, 52 mlwydd oed a Richard eu mab 13 mlwydd oed oedd yn byw yn Donkey [*sic*] ym mhlwyf Meifod. Cofnodir marwolaeth Mary Ellis ar 25 Mawrth 1857 ym Meibl y teulu, ac erbyn dyddiad cyfrifiad 1861 roedd David Ellis yn dal i fyw yn 'Dongey' ac wedi ailbriodi â gwraig o'r enw Margaret. Mae'n bur debyg mai ef yw'r David Ellis a aned yn Llangynyw yn 1796 ac a fu farw yn Llanfyllin yn ystod chwarter Medi 1874 yn 78 mlwydd oed.

Ar 13 Ebrill 1865 priododd Richard â Frances Cadwaladr, a aned ar 30 Ebrill 1838 i Thomas ac Ann Cadwaladr o Lansanffraid-ym-Mechain. Dywed R. J. Berwyn mai ffermwr oedd Richard. Ganed merch gyntaf Richard a Frances, Mary Anne, yn y Wladfa ar 10 Mawrth 1866, ond ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach gadawodd y teulu bach y Wladfa oherwydd afiechyd Frances a hwylio am Batagones ar eu ffordd i Buenos Aires. Ymhen tipyn aethant i Banda Oriental (yr hen enw ar Uruguay), ac ar 24 Chwefror 1868 ganed eu hail ferch, Frances Elined, a'i chofrestru yn Eglwys Saesneg Montevideo. Symudodd y teulu i Santa Fe yn 1870 ond ni chysylltodd Richard â'r gwladychwyr Cymreig yno. Mewn gwirionedd, collodd gysylltiad â'i gyd-wladwyr yn gyfan gwbl oddieithr ei frodyr. Erbyn 1871 roedd

Richard yn Roldán tua 18 km o Rosario, ac ar 28 Hydref y flwyddyn honno ganed ei fab, Richard Cadwaladr Ellis. Bu'r tad yn gweithio yn stordy'r Ferrocarril Central Argentino yn ogystal. Ar 4 Mehefin 1874 bu farw Mary Anne, y ferch a aned yn y Wladfa, yn wyth mlwydd oed, a dwy flynedd yn ddiweddarach, ar 10 Mehefin 1876, ganed merch arall, Edith, yn Villa Maria, Córdoba.

Gadawodd y teulu Villa Maria ar 26 Mai 1880 ar ymweliad â Chymru, ond arhosodd Richard yn Llansanffraid-ym-Mechain am gwta dau fis a deuddeng niwrnod cyn gadael ar ei ben ei hun ar yr SS *Thales*. Gwelir cofnod o Frances a'r plant ar gofnod cyfrifiad Llansanffraid yn 1881:

Post Office 4, Llansantffraid

Frances Ellis Wife 42 Engine driver's wife abode Llansantffraid birthplace
Mont[gomeryshire], Llansantffraid

Frances E. Ellis dr 13 born Rosario, Santa Fe, South America

Richard C. Ellis son 9 born Rosario, Santa Fe, South America

Edith Ellis dr 4 born Rosario, Santa Fe, South America

Dychwelodd Frances a'r merched i Villa Maria ar 2 Mehefin 1883 er mwyn cynorthwyo ym mhriodas Mary Jane Ellis, 19 mlwydd oed, merch David Ellis (brawd Richard) a'i wraig Sarah Griffiths. Cynhaliwyd priodas Mary Jane a'r Albanwr, Thomas Auchterlonie (36 mlwydd oed), ar 10 Medi 1883. Yr oedd Frances Elined Ellis, Thomas Ellis, Annas Ellis a Jemima Ellis ymysg y tystion i'r briodas. Bedyddiwyd Mary Ellen, merch Thomas a Mary Auchterlonie ar 18 Awst 1886 yn Eglwys San Bartolomé, Rosario, a bedyddiwyd Mabel Alice, a aned ym mis Ionawr 1892 yn El Socorro yn Nhalaith Buenos Aires, yn yr un eglwys ar 25 Mawrth 1892. Ganed Sarah Erica Auchterlonie yn Fisherton, Rosario, ar 27 Chwefror 1896 a'i bedyddio ar 28 Awst, eto yn Eglwys San Bartolomé, Rosario.

Teithiodd Richard Cadwaladr, mab Richard a Frances Ellis, adref o Lansantffraid i Villa Maria, Córdoba, ychydig ar ôl ei fam a'i chwiorydd, ond dychwelodd i Brydain yn 1886 i gwblhau ei addysg.

Bu Frances farw ar 25 Ionawr 1888 ac fe'i claddwyd ym mynwent Villa Maria, Córdoba. Daw dyddiadur Richard i ben gyda chofnod am 1916, ond mae dyddiad ei farw yn anhysbys.

Priododd Frances Elined Ellis â Sais o'r enw William Goodman Hardy, gorsaf feistr ar y rheilffordd, ar 13 Hydref 1887, a ganed eu merch Frances Jessie ar 12 Tachwedd 1891 a'i bedyddio ar 29 Ionawr 1892 yn Eglwys San Bartolomé, Rosario. Bedyddiwyd Julia Maud Hardy ar 3 Mawrth 1894, ac ar 12 Mehefin 1897 ganed Arthur Cornelius Hardy a'i fedyddio ar 23 Mawrth 1898.

Priododd Richard Cadwaladr Ellis ag Emilia Enriqueta Kroffte a ganed y cyntaf o'u chwe phlentyn, Emilia Enriqueta, ar 8 Awst 1899 yn nhalaith Gálvez a'i bedyddio yn Eglwys Fethodistaidd Esgobol Rosario ar 26 Awst 1900. Dilynwyd Emilia gan Emilio, Maria Elena, Amelia Névida, Margarita Violeta a aned 19 Awst 1901 yn Gálvez, talaith Santa Fe, a Hortensia Lili a aned ar 20 Mai 1911 yn Carcaraná, talaith Buenos Aires.

Yn Eglwys Fethodistaidd Esgobol Rosario ar 11 Gorffennaf 1899 priododd Edith Ellis (Irene Edith yn y gofrestr briodas yn ôl rhestr Jeremy Howat), a aned yn nhalaith Córdoba ar 10 Mehefin 1876 a'i bedyddio ar 20 Gorffennaf 1876 yn Eglwys Anglicanaidd Córdoba, â William Parry, mab William Parry a Catherine Jones a aned ar 14 Rhagfyr 1868. Ganed William Richard, mab William ac Edith, ar 28 Mai 1900 yn Rosario a'i fedyddio ar 30 Medi 1900. Mae'n bosibl mai 'William Richard', mab William ac Edith Parry oedd y 'Ricardo Parry' a roddodd dyddiadur Richard Ellis i Amgueddfa'r Gaiman.

Plant eraill William ac Edith Parry oedd Phoebe Edith (ganed 2 Hydref 1902 a'i bedyddio 28 Mai 1903), Henry Thomas (ganed 2 Gorffennaf 1906 a'i fedyddio 20 Rhagfyr 1913), Percy Owen (a fedyddiwyd hefyd ar 20 Rhagfyr 1913), a Doris Catharine a aned yn nhalaith Córdoba ar 2 Ebrill 1915 a'i bedyddio ar 19 Rhagfyr 1915.

Pennod ar 'Richard y Frances Ellis' yn David Williams, *El Valle Prometido* (Gaiman, Chubut: Del Cedro, 2008).

Cyfrifiad Llansanffraid-ym-Mechain 1881

Gwefan Jeremy Howat, 'British Settlers in Argentina and Uruguay – Studies in 19th & 20th Century Emigration': www.argbrit.org

ELLIS, David (1835–1875)

Ganed David Ellis, brawd Richard, Thomas a John, ar 9 Chwefror 1835, ac fe'i bedyddiwyd ar 15 Chwefror 1835 yng Nghapel Newydd y Methodistiaid Calфинаidd yn Llanfyllin. Mae'n bosibl mai ef yw'r David Ellis 16 mlwydd oed a aned ym mhlwyf Meifod a welir yn was yn Upper Hall, Trefedrid, Meifod, ar gyfrifiad 1851. Ymfudodd i Uruguay cyn i'w frodyr ymadael am Batagonia ar y *Mimosa* yn 1865. Yn ei lyfr *El Valle Prometido* mae David Williams yn dyfalu bod David Ellis wedi ymsefydlu yn Uruguay erbyn 1857 ar sail llythyr dyddiedig 10 Chwefror 1857 a anfonodd Mary Ellis o 'Dongay Cottage Farm' ger Llanfyllin at 'Fy annwyl Fab'. Mae hi'n cydnabod derbyn llythyr ganddo ac roedd hi'n falch o glywed ei fod wedi cyrraedd ei gartref yn iach.

Dywedir i Mary J. Ellis, merch David Ellis a'i wraig Sarah Griffiths, gael ei geni yn Uruguay tua 1864, ond ni ddaethpwyd o hyd i gofnod ei geni na'i bedydd. Er hynny, mae rhestr Jeremy Howat o fedyddiadau yn Eglwys Albanaidd Uruguay ac Entre Rios, 1866-1883, yn cofnodi bedydd Annas Ellis, mab David Ellis a Sarah Ann Griffiths. Fe'i ganed ar 4 Mawrth 1866 a'i fedyddio ar 10 Gorffennaf yn Carmelo, Banda Oriental (yr hen enw ar Uruguay). Bedyddiwyd Jemima Ellis ar 10 Rhagfyr 1867 a John, a aned ar 7 Mai 1869, ar 22 Mehefin 1869. Tua'r flwyddyn 1872 ymunodd David â'i frawd Richard yn Nhalaith Santa Fe, lle ganed Ellen, merch arall i David a Sarah. Bu farw David Ellis o dwymyn y teiffws ar 11 Chwefror 1875 yn Rosario ac fe'i claddwyd y diwrnod canlynol. Ceir cofnod marwolaeth gwraig briod 37 mlwydd oed o'r enw Sara Ann de Ellis yn Rosario ar 9 Medi 1878 ond ni ellir bod yn siŵr mai gwraig David Ellis oedd hi.

Ar 7 Rhagfyr 1891 priododd Ellen Ellis â James Anderson, 25 mlwydd oed, yn Eglwys San Bartolomé, Rosario.

ELLIS, John (1827–1874)

Ganed John Ellis, brawd Richard, Thomas a David Ellis, ar naill ai 13 neu 14 Chwefror 1827 ac mae'n bosibl mai ef yw'r John Ellis a fedyddiwyd yng nghapel Adwy'r Clawdd, capel y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bers, ar 3 Mawrth 1827. Dywed y Parch. Abraham Matthews fod gan John siop yn Lerpwl ac mai ei reswm dros deithio i Batagonia ar y *Mimosa* oedd er mwyn marchnata ffwr a phlu. Gwelir John ar gyfrifiad 1861 yn gweithio fel dilledydd cynorthwyol yn rhif 80 Lord Street, Lerpwl. Gyrodd lythyr adref o'r Wladfa at ei dad a'i lysfam ar 9 Tachwedd 1865 i'w sicrhau eu bod i gyd yn iach ac mae'n rhoi disgrifiad o'u bywyd newydd. 'Mae gennym bump o geffylau, dwy fuwch, ac yr y'm yn disgwyl chwaneg, a defaid cyn hir; 300 erw o dir i fod yn eiddo i ni, heb law faint a fynom o dir common i droi yr anifeiliaid iddo.' Mae'n ychwanegu nad oeddynt eto wedi gweld yr un Indiad.

Yn 1866, yn ystod yr anghydfod ynglŷn â symud o Ddyffryn Camwy neu aros yno, yr oedd John Ellis ymysg y garfan a oedd am aros yn y Wladfa. Ym mis Ebrill 1866 anfonodd amryw o'r gwladfawyr ddeiseb at Gaptin Charles MacKensie, Llywodraethwr Ynysoedd y Malfinas, yn gofyn am ymyrraeth y llywodraeth Brydeinig i'w symud o'r wladychfa. Cwynent iddynt gael eu twyllo gan y Pwyllgor Ymfudo yn Lerpwl, eu bod yn llwgu a'u dillad wedi treulio yn llwyr, ac anfonwyd y *Triton*, llong ryfel Brydeinig, i'r Wladfa yn sgil y ddeiseb. Lluniwyd ateb, gydag enw John Ellis ar ben rhestr o lofnodion 21 o bennau teuluoedd y Wladfa, mewn datganiad a yrrwyd at swyddogion y *Triton* yn gwrth-ddweud yr honiadau a roddwyd yn y ddeiseb a anfonwyd fis Ebrill. Mae'r lofnodwyr yn datgan bod y sibrydion cas a ledaenwyd amdanynt wedi eu gorliwio, a bod y ddeiseb a anfonwyd at Lywodraethwr y Malfinas wedi ei hysgrifennu gan ychydig o bobl anfodlon a ffugiodd bump o'r enwau ar y llythyr hwnnw ac ychwanegu enwau plant, hyd yn oed. Roeddent yn cael digon o fwyd i gadw'n iach, plannwyd mwy na digon o hadau ar gyfer eu hanghenion, ac roeddent yn edrych ymlaen at gynhaeaf da ym mis Ionawr 1867.

O'r tri brawd, John Ellis oedd yr un a arhosodd hwyaf yn y Wladfa, ond gadawodd yntau hefyd, ar y *Nueva Geronimo* ym mis Chwefror 1869, yn cludo nifer fawr o nwyddau'r Brodorion y bwriadai eu gwerthu ym Muenos Aires. Bu farw ar 2 Chwefror 1874 yn ei gartref, Bod Ellis, ym Mhenrhyndeudraeth.

ELLIS, Thomas (1829–1900)

Ganed Thomas, brawd Richard, David a John Ellis, ar 20 Chwefror 1829, a dywedir iddo fyw yn Lerpwl cyn ymfudo ar y *Mimosa*. Dioddefai'n ddrwg o ryw salweh gwynegol yn ôl llythyr a anfonodd ei frawd John adref o'r Wladfa yn 1865, ac mae'n ymddangos fod hinsawdd Patagonia yn llesol iddo. Yn ôl John Ellis, yr oedd Thomas 'yn gallu cerdded milldiroedd i saethu cyn boreufwyd, ac heb deimlo yn flinedig, a dim diffyg i dreulio y bwyd, dim poen yn y pen, dim dannodd, nac anwyd.' Mae'n debyg fod Thomas yn fferyllydd neu'n ddrygist a dyna paham y teithiodd yng nghwmni'r Dr Green ar y *Mimosa*. Gyda Rhydderch Huws a John Williams, bu Thomas yn un o 'feddygon' cyntaf y Wladfa. Ef oedd Ysgrifennydd cyntaf Cyngor y Wladfa ond colodd ei swydd ar y Cyngor i R. J. Berwyn yn etholiadau Gorffennaf 1867. Llofnod Thomas Ellis fel Trysorydd y Wladfa a welir o dan stamp 'Y Wladychfa Gymreig' ar bapur punt y Wladfa.

Bu ar nifer o deithiau archwiliadol i ganfod tiroedd gwell ac adroddodd hanes y teithiau hynny mewn cyfres o erthyglau a gyhoeddwyd yn *Y Drafod* rhwng Chwefror ac Ebrill 1897. Dywed mai bwriad rhai o'i gymdeithion ar y daith gyntaf oedd cyrchu'r ceffylau, rhai ohonynt yn perthyn i'r gwladfawyr, a adawyd gan y tîrfesurydd Julián Diaz pan fu'n dechrau mesur y Dyffryn Uchaf. Roedd eraill â'u bryd ar hela. Methwyd cyrraedd y ceffylau oherwydd gorlifiad yr afon ac ystyriwyd mynd ymlaen i archwilio'r tiroedd ymhellach i fyny, ond bwyd am ryw ddeuddydd neu dri yn unig oedd ganddynt ac felly penderfynodd y mwyafrif adael yr archwilio a mynd i hela. Roedd un o'r cwmni, James 'Iago' Jones, brodor o sir Gaerfyrddin, yn benderfynol o fynd ymlaen â'r ymchwilio os câi gwmi, a chytunodd Thomas Ellis i fynd gydag ef. Mae Thomas yn adrodd eu bod wedi gweld creigiau coch yn y bryniau a'r rheini'n ei atgoffa o'r creigiau *porphyry* y disgrifiodd yr Is-lyngesydd Robert Fitzroy RN yn ei lyfr *Narrative of the Surveying Voyages of His Majesty's Ships Adventure and Beagle between the years 1826 and 1836*. Yn ystod y daith darganfuwyd ffynnon wrth droed bryn gerllaw safle Dolavon heddiw ac fe'i henwyd yn Ffynnon Iago, a rhoddwyd enw Thomas Ellis ar fynydd – Mynydd Ellis. Mae'n sôn iddynt deithio 'heibio i amryw lynnoedd o ddwfr grisialaidd a nifer o bysgod ynddynt', ac o weld halen caled trwchus ar yr wyneb, dyma nhw'n torri darnau ohono i'w dangos i weddill y gwladfawyr.

Erbyn cyrraedd yn ôl i'r sefydliad ddechrau 1866 roedd anesmwythyd yn y Dyffryn, a sôn am ddiddymu'r Wladfa ar afon Camwy. Llwyddodd Edwin Cynrig

Roberts, Hugh Hughes Cadfan ac R. J. Berwyn i ohirio unrhyw benderfyniad ar y mater drwy gynnig bod cwmni bychan yn chwilio yn uwch i fyny'r afon am diroedd mwy ffrwythlon. Nid oedd yn adeg addawol i drefnu taith gan fod pawb ar hanner dogn o fwyd nes y clywyd canlyniad cais William Davies (ail Lywydd y Wladfa yn dilyn ymadawiad Lewis Jones) am ymborth gan Lywodraeth yr Ariannin. Teithiodd wyth ohonynt tua'r gorllewin, y tri brawd Lewis, Maurice a John Humphreys, Edward Price, John Morgan, Griffith Pryce, James Jones a Thomas Ellis, gan ddilyn yr afon er mwyn bod yn sicr o gyflenwad o ddŵr. Y siom cyntaf oedd canfod nad oedd y ffynnon ger Dolavon a ddarganfu Thomas Ellis a James 'Iago' Jones ar y daith gyntaf mor groyw ag y tybiwyd.

Dywed Thomas mai tlawd iawn oedd ffrwyth eu hymchwiliadau y tro hwnnw, er iddynt deithio can milltir a dysgu llawer gan y Brodorion a fu gyda'r gwladfawyr am ran o'r daith am y wlad dda a oedd yn uwch i fyny – tir porfog, coed anferth, a llawer o anifeiliaid. Mae Thomas, serch hynny, yn cyfaddef wrth olrhain hanes rhan olaf y daith, 'Yr oeddym yn myned i ddannedd y creigiau a'r ceulennydd, ac y bu y mor unwaith yn ei golchi, a phe cawsem olwg ar yr ochr gyferbyniol, cawsem syniad gwahanol i'r hyn a gawsom. Yr oeddym yn argyhoeddedig o hyn, trwy weled y gwahaniaeth oedd yn y naill ochr a'r llall o'r mynydd oeddym arno a'r brynau cyfagos, y rhai oeddynt yn lethrau glaswelltog ...'

Erbyn iddynt ddychwelyd i'r Sefydliad yr oedd y drafodaeth ynghylch symud y wladychfa wedi dechrau cynhyrfu'r gwladfawyr unwaith yn rhagor - rhai am aros ond y mwyafrif am fynd i rywle arall. Dywed Thomas Ellis nad oedd ganddo 'fawr frwdfrydedd dros y naill na'r llall', ond o dan yr amgylchiadau ar y pryd credai nad oedd modd gwireddu'r freuddwyd o greu Gwladfa Gymreig ar lannau afon Camwy, er y gallai ychydig o bobl fyw yno yn gysurus yn ei dyb ef. Y broblem fwyaf oedd sut i ddyfrhau'r dyffryn. Penderfynwyd y byddai William Davies yn teithio i Buenos Aires i osod sefyllfa'r gwladfawyr gerbron Llywodraeth yr Ariannin a theimlai Thomas Ellis 'pe gadewsid i Mr Davies gario allan yr hyn oedd yn ei fwriad, mai yn Chubut y buasem oll yn ôl'. Chwerwodd Thomas yn erbyn y modd rhagfarnllyd, yn ei dyb ef, y deliwyd â William Davies a'i amcanion, ac yn wyneb yr holl geceu penderfynodd 'ddatod pob cysylltiad a'r frawdoliaeth'. Gadawodd gyda William Davies ac ymsefydlu yn Santa Fe lle mae'n bosibl iddo briodi Sarah Ann Griffiths. Mae cofnod ar wefan Jeremy Howat o briodas gŵr 47 mlwydd oed o'r enw Thomas Ellis a gweddw 36 mlwydd oed o'r enw Sarah Ann Griffiths, a oedd yn enedigol o

Langollen, ar 22 Gorffennaf 1876 yn Eglwys Esgobol Fethodistaidd Rosario, ond nid oes prawf mai dyma'r Thomas Ellis dan sylw. Efallai mai dyma'r Sara Ann de Ellis, gwraig briod 37 mlwydd oed, a gladdwyd yn Rosario ar 9 Medi 1878. Ymhen rhai blynyddoedd, dychwelodd Thomas Ellis i'r Wladfa, ond ar ymweliad byr yn unig, a bu farw yn Villa Casilda yn nhalaith Santa Fe ar 12 Rhagfyr 1900.

Llythyr John Ellis a gyhoeddwyd yn *Llythyrau a ddaethant o'r Sefydlywyr yn y Wladva Gymreig, Gweriniaeth Arianin, Deheudir America* (Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladva Gymreig Cyfyngedig, 1866)

Cyfres o erthyglau gan Thomas Ellis yn dwyn y teitl, 'Nodion ar Sefydliad y Wladfa', a gyhoeddwyd yn *Y Drafod*, 19 Chwefror – 9 Ebrill 1897

Gwefan Jeremy Howat: bedyddiadau a phriodasau yn Eglwys Esgobol Fethodistaidd Rosario
Pennod ar y teulu Ellis yng nghyfrol David Williams, *El Valle Prometido* (Gaiman, Chubut: Del Cedro, 2008).

EVANS, David, Maen Gwyn (1858–1948)

Ganed David ar 24 Rhagfyr 1858, yn fab i James a Hannah Evans, Melin Glanduar, Llanybydder. Yr oedd James wedi ei eni tua'r flwyddyn 1809 ym mhlwyf Llanybydder, ac ar gofnod cyfrifiad Glanduar Mill yn 1851 fe'i disgrifir yn Swyddog Cymorth 42 mlwydd oed ac roedd ei wraig Hannah yn 35 mlwydd oed ac wedi'i geni yn Llanwenog, sir Aberteifi. Enwir eu plant yn Jane 18, Rachel 16, Sarah 14, Hannah, 12, Benjamin 10, Mary 8, Elisabeth 6, William 4, a Thomas 2. Erbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf yn 1861, roedd James yn felinydd a ffermwr ar 20 erw. Roedd Hannah yn 44, Hannah y ferch yn 22, Benjamin yn 21, William yn 14, Thomas yn 12, David yn 4, Catherine yn 9 ac Eliza yn 7.

Pan oedd o gwmpas un ar hugain mlwydd oed, priododd David Evans a Mary Davies, ac ymfudo ar fwrdd y Vesta yn 1866 gyda'u plant Benjamin (a aned tua 1880); Sarah (a aned tua 1882); ac Anne (a aned ar 28 Mawrth 1885). Gwnaethant eu cartref ym Maen Gwyn, Treorki, ac yno y ganed chwe phlentyn arall: Rachel 1887, James 1889, Rosana 30 Mehefin 1891, Daniel R. 1893, Mair 1896 a Martha 1898.

Bu David yn ffermio yng Nghymru ond aeth i'r Wladfa i osod y rheilffordd o Borth Madryn i Drelew, a bu'n llafurio'n galed ar y paith gyda'r gwaith hwnnw, yn cychwyn o'r Dyffryn gyda bwyd wythnos a'i ddillad gwely ar ei gefn ar dywydd annioddefol o boeth. Ar ôl gweithio ar y rheilffordd am dipyn penderfynodd droi at ffermio a symud i ardal Bryn Crwn am gyfnod byr ac oddi yno i ardal Tres Casas. Symud wedyn i dyddyn ar waelod Bryn Gwyn. Prynodd dyddyn o 100 hectar yn ardal Treorci ac ar ôl talu am hwnnw prynodd un arall. Dywedir ei fod yn un da am ffermio, ac enillodd enw iddo'i hun fel codwr gwenith. Roedd David a Mary yn cefnogi'r ysgol fach wledig ac yn aelodau yng Nghapel Bethlehem.

Priododd Benjamin, mab hynaf David a Mary â Carmen Curin a chawsant bedwar plentyn.

Yn 1902, priododd Sara â Caswallon Jones, mab Richard Jones a ymfudodd i'r Wladfa o Aberpennar gyda'i rieni John ac Elizabeth (Betsan) Jones a'r teulu ar y *Mimosa* yn 1865, a'i wraig Hannah Davies o Aberdâr a oedd hefyd ar y *Mimosa*. Ganed pedwar o blant i Sara a Caswallon: Morfydd a briododd David Thomas mab William Henry Thomas; Matilda a briododd Herber Evans mab y Parch. John Caerenig Evans a Hannah ei wraig; Mabel a briododd James Thomas; a Nefin Towyn a briododd Ludmila Carrasco. Bu Caswallon Jones farw'n sydyn ar 24 Rhagfyr 1941.

Yn 1907 priododd Anne Evans â Morgan Howells, mab Hopkin Howells ac Esther Griffiths a ymfudodd o Aberdâr yn 1875, ac aethant i fyw i Fryn Crwn lle bu Morgan yn gynorthwydd i John Murray Thomas a Chwmni Masnachol y Camwy, yn ogystal â gofalu am ei fferm. Cawsant chwech o blant - Trofana, Myrddin, Esther, Dewi Hopkin, Sarah Mair ac Aerwena. Myrddin oedd yr unig un o'r plant a briododd. Bu Anne Howells farw ar 3 Ionawr 1929, a bu farw Morgan Howells ei gŵr, a aned ar 6 Mawrth 1880, ar 1 Mawrth 1947.

Priododd Rachel Evans â Samuel Brooks a chawsant hwythau chwech o blant – Elsie (priododd Feliciano Wilder); George Festin (hen lanc); Linis Festin (bu farw'n ifanc); Olivia Fest (priododd Rosser Howell Williams); Clarice Mary (priododd Julio Anibal Larrea); a Violet (priododd Ieuan Roberts).

Priododd James â Margaret Jones a'u plant oedd: Alwen (priododd Felix Merino); David Arwel (priododd Flor Maria Mell), Eben (priododd Elba Bezunartea); Catherine Mary (priododd Ignacio Suárez), Silyn Ifano (hen lanc), Cyril (priododd Victoria Williams), Rosanah (priododd Mardy Hughes), Winston (priododd Eva Mainecul) ac Elba (priododd gyntaf Carlos Roberts ac yn ail Andrés de Pablo).

Priododd Rosana â Robert Thomas a chael: Gladys (priododd gyntaf â Teodoro Urbizu ac yn ail Enrique Pluis), Alen (priododd Plenydd Griffiths), Eled (bu farw'n 5 mlwydd oed), William (hen lanc), Gwynfor (hen lanc), Delia (bu farw'n ifanc), Almed (priododd Eirwyn Jones) a Derwyn (priododd Valmai Owen)

Yn 1943 priododd Daniel â Rachel Jones a aned yn 1919. Eu plant oedd Elder Gwynfe (priododd Dora Angelica Cohen), Egbert (priododd Violeta Arredondo), Elmer (priododd Hermelinda Hompanera), Eugrad David (priododd Eira Evans), Edsel John (priododd Lucia Garriguez), Sarah (bu farw'n ifanc), Egrin Deiniol (hen lanc) a Shirley Nivea (priododd Rodolfo Fernández).

Priododd Mair â James Peter Jones a chawsant Elwyn (priododd Mary Roberts), Petar (priododd Winifred Roberts yn 1943), Mary Jane (priododd Selwyn Evans), Manon (priododd Domingo Restuccia), Emyr (priododd Martinez) a Nefydd (priododd Margarita Maica).

Gŵr cyntaf Martha oedd Vicente Zonza a chawsant Maria Elisa (priododd José Barroso), Dora Lila (priododd Eugenio Krebs) a Rosalia (priododd Denis Jones). Gyda'i hail ŵr, Manuel Echevarria, cafodd Martha Luis Eliseo (priododd Juana Gáquez) a René (priododd Julia García).

Bu David Evans farw ar 11 Ebrill 1928, ac mae cofiant iddo yn *Y Drafod* yn sôn iddo ddychwelyd ar ymweliad â Chymru tua 1911 er mwyn gweld ei fam a oedd yn byw yn Nantgaredig erbyn hynny, ac i ymweld hefyd â'i frodyr a chwiorydd a oedd ar wasgar ar hyd a lled Cymru. Yr oedd James, tad David, wedi marw cyn i'w fab ymfudo.

EVANS, Esau (1848–1921)

Ganed Esau Evans ar 13 Gorffennaf 1848, yn un o ddeg o blant Esau Evans a Rachel Lloyd, yr Hooks, Llansteffan, sir Gaerfyrddin, a oedd yn rhan o blwyf Llan-y-bri tan 1863. Gof o blwyf Llanboidy oedd ei dad, ac roedd ei fam yn enedigol o blwyf Llanglydwen, a'r teulu ar gyfrifiad 1841 oedd Esay [*sic*] Evans, gof 30 mlwydd oed, Rachel Evans, 30; Elinor, 10; Ann, 5; Jonah, 5; George, 3; a Margaret, 2. Ganed William yn 1844, David yn 1846 ac Esay [*sic*] yn 1848 erbyn dyddiad casglu'r cyfrifiad nesaf.

Ar gyfrifiad 1861 gwelir Esau Evans yn was ffarm 12 mlwydd oed ym Moche, Llansteffan, ond erbyn cyfrifiad 1871 roedd yn löwr dwy ar hugain oed yn byw gyda'i frawd David a'i deulu yn Hirwaun, sir Forgannwg. Yn Hirwaun bu Esau yn aelod o Nebo, capel yr Annibynwyr, ac yn organydd yno, a dywedir mai yn ystod ei gyfnod yn Hirwaun y cyfarfu â'i wraig Joan Rees. Priododd y ddau yn ardal cofrestru Castell Nedd yn ystod chwarter Mawrth 1874.

Yn 1875 ymfudodd Esau a Joan ei wraig i Batagonia, ac ymhen rhai blynyddoedd aeth am dymor i Cwrwmalam, Sauce Corto, Buenos Aires, ac i'r Andes i chwilio am aur. Ceir cofnod bedydd Esau David, mab Esau a Joan Evans ar 6 Gorffennaf 1885 yn Sauce Corto a bedyddiwyd Christmas, mab arall iddynt a anwyd ar 25 Rhagfyr 1886, yn yr un lle ar 14 Awst 1887.

Derbyniodd Esau Evans yr alwad i bregethu ac felly dychwelodd i Gymru a chael ei ordeinio yn Heol y Cerrig, Merthyr Tudful, cyn dychwelyd i Batagonia yn 1893. Bu'n arweinydd y gân gynulleidfaol a chorawl yn y Gaiman am flynyddoedd, yn ddiakon ac Ysgrifennydd Capel Bethel, yn weinidog yng Nghwm Hyfryd ac Esquel ac yn genhadwr dros Gymdeithas y Beibl. Anfonodd y Gymdeithas honno ym Muenos Aires gyflenwad o feiblau yn Sbaeneg at Esau Evans ar gyfer eu dosbarthu i'r rhai oedd yn medru rhywfaint ar yr iaith. Yn ddiymdroi, aeth Esau ar daith ar draws y paith a chyrraedd hyd at yr ardal lle sefydlwyd Sarmiento yn ddiweddarach; yna i'r gogledd, i Telsin 'ac yno y bu am rai wythnosau o un "Toldo" i'r llall yn ymddiddan â'r Brodorion, weithiau yn y Spaeneg a phrydiau eraill yn eu hiaith eu hunain.' Cafodd yr holl waith effaith andwyol ar ei iechyd a bu'n rhaid iddo fynd i'r Ysbyty Prydeinig yn Buenos Aires. Pan ddychwelodd i'r Andes hysbysodd aelodau ei ddwy eglwys nad oedd yn teimlo y gallai barhau i'w gwasanaethu fel yr hoffai ac felly bwriadai symud yn ôl i ardal y Gaiman. Yn rhifyn 16 Hydref 1914 o'r *Drafod*,

cyhoeddwyd ‘Anerchiad. Ymadawiad y Parch. Esau Evans o Gwm Hyfryd’ a arwyddwyd gan rai o swyddogion y ddwy eglwys ar 19 Medi 1914.

Ymhlith casgliadau’r Llyfrgell Genedlaethol (LIGC 22966C) ceir englyn i’r Parch. Esau Evans gan ei gefnder, Y Parch. John Lloyd James (‘Clwydwenfro’):

At “Epynt Byr” y gyrraf - y llythyr

Nid llwythog ystyriaf;

Yn gysur i un geisiaf

O dderbyn hwn erbyn haf

Ar ei garreg fedd ym Mynwent Gaiman ceir y coffâd canlynol:

Er Serchog Goffadwriaeth

am y

Parch Esau Evans

Ganed yn Llanybri, Sir Gaerfyrddin

De Cymru, Gorffennaf 13 1848

Daeth i’r Wladfa yn y flwyddyn 1875

Bu yn Weinidog ffyddlon ar Eglwys y Cwm ac Esquel

Bu farw Ionawr 1af 1921

Yn 72 mlwydd oed

Wele fedd gŵr anwyl fu - yn gennad

Llawn, Honest dros Iesu:

O’i orchwyl aeth i ddyrchu

Salm y gwaed yn Salem gu

Yn rhifyn 23 Rhagfyr 1926 o’r *Drafod* ceir cofnod marwolaeth Llewelyn Rees Williams, Dolavon, mab Esau Evans, a blwyddyn yn ddiweddarach, yn rhifyn 16 Medi 1927, cyhoeddwyd cofiant iddo. Yr oedd yn briod â Mary Ann Hutchings a aned yn 1883, merch Mary ac Anthony Hutchings, ‘gynt o Ystalyfera’, ac yn rhifyn 8 Medi 1935 o’r *Drafod* nodir priodas Joan Evans, merch Llewelyn Rees a Mary Ann â Gilbert Ritchie, mab Fred ac Amanda Ritchie a gafodd ei fagu ar aelwyd Thomas H. Lewis a’i fabwysiadu ganddynt ar farwolaeth ei rieni. Yr oedd y briodferch yn wyres i’r Parch. Esau a Joan Evans a’r priodfab yn ŵyr i’r Parch. John Caerenig a Hannah

Evans. Bu Mary Ann gwraig Llewelyn Rees Evans farw ym mis Rhagfyr 1838 yn 56 mlwydd oed. Plant eraill Llewelyn Rees a Mary Ann oedd Elias a briododd Gwalia Davies, Mary priododd Tudur Lewis, Ann priododd Eurig Richards, Martha priododd John Williams 'Cia Mercante' ar 4 Rhagfyr 1943, ac Elfed Llwyd priododd Elcira Oroquieta.

EVANS, John Caerenig (1837–1913)

Ganed John Caerenig Evans yn Llanddewisol ym mhlwyf Llanfihangel Aberbythych, sir Gaerfyrddin ar 20 Ebrill 1837, yn fab i Phillip Evans, gŵr a oedd yn enedigol o blwyf Llanfihangel Aberbythych, a'i wraig Margaret Rees o ochr Cwmaman o Landybïe. Priododd Phillip Evans a Margaret Rees ar 21 Rhagfyr 1822 yn Eglwys y Plwyf, Llandybïe, a bedyddiwyd eu plentyn cyntaf, William, ar 30 Ionawr 1823 yn yr un eglwys.

Yn y gyfrol o *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* sy'n cynnwys gwybodaeth am gapeli'r Annibynwyr yn sir Gaerfyrddin, enwir Phillip Evans fel un o gychwynwyr yr achos yng nghapel Milo, Llanfihangel Aberbythych. Adeiladwyd y capel yn 1830, ond cynhaliwyd 'cyfeillachau crefyddol' yn nhŷ Phillip Evans ym Mwlch-y-groes cyn hynny. Fe'i disgrifir fel 'dyn rhagorol' ac un a oedd 'yn dra derbyniol fel pregethwr'.

Mae enw Phillip Evans yn ymddangos ar fap degwm Llanfihangel Aberbythych fel deiliad Llanddewisol, ond bu farw mewn damwain yn y pwll glo ar 14 Mai 1840 yn 44 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llandybïe, ar 16 Mai 1840. Roedd y teulu'n byw ar y pryd yn Nhan-y-graig, plwyf Betws, ac ar gyfrifiad 1841 rhestrir Margaret Evans (40) a'i phlant Rees (15), Thomas (14), David (5) a John (3), yn Nhan-y-graig; yr oedd Elizabeth, ei merch deng mlwydd oed, gyda thad Margaret yn Nantyrfr, Cwmaman ar noson y cyfrifiad. Symudodd y teulu i Grenig Fawr, Glanamau yn fuan wedyn.

Derbyniodd John ei addysg fore mewn ysgol leol a gynhaliwyd gan wraig a ddaethai o Gernyw ac yn ddiweddarach yn ysgol Richard Williams yng Nghwmaman. Hen filwr a fu'n brwydro yn Waterloo oedd Richard Williams; fe'i ganed yn 1790 yn fab i William Rees Evans, ac yn ei lyfryn *Old Characters of Bettws* dywed David Trumor Thomas mai yn ystod ei gyfnod yn y fyddin y newidiodd Richard ei gyfenw o Evans i Williams, gan ddefnyddio enw bedydd ei dad, William, fel ei gyfenw newydd.

Yn dilyn ei gyfnod yn ysgol Richard Williams bu John Caerenig Evans mewn ysgol yn Abertawe. Er i'w dad gael ei ladd yn y pwll, aeth John yntau i'r lofa yn naw mlwydd oed a gweithio yno nes cyrraedd ei chwech ar hugain. Yn 1863 cafodd ei dderbyn yn efrydydd i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ac ar ôl pedair blynedd yno fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr, Moriah, Cwmaman, Aberdâr, ar 28 Awst 1867.

Bu'n weinidog llwyddiannus a phoblogaidd yng Nghwmaman hyd 1874 pan ufuddhaodd i'r awydd i fynd i'r Wladfa, gyda'i wraig Hannah Harries, a briododd ym mis Tachwedd 1868, a thri o blant bach – Gildas (1870), Egryn (1872) ac Amana Margretta (1873). Ganed pump arall – Edith Mary (1876), Tudur (1877), Morfydd (1885), Grenig (1890) a Trofana (1893) – yn y Wladfa. Arwydd o'i boblogrwydd yw'r ffaith fod nifer o'i gynulleidfa wedi ymfudo i'w ganlyn yn 1875.

Aelod arall o'r teulu a ymfudodd gyda John Caerenig Evans oedd ei chwaer, Elizabeth Evans, a aned ar 2 Hydref 1831. Bu'n rhaid iddi fynd i weini pan yn bur ifanc. Bu bron iddi ymfudo i'r Unol Daleithiau gyda'i brawd David, ond yn lle hynny aeth i'r Wladfa gyda John Caerenig a'i deulu. Priododd Elizabeth â Thomas S. Williams yn 1899 a symud i Gwm Hyfryd, ond wedi marwolaeth ei gŵr yn 1907 dychwelodd i fyw yn y dyffryn. Bu farw ar 23 Medi 1931, naw niwrnod yn brin o'i phen blwydd yn gant; roedd ei mam wedi byw i gyrraedd ei 94 mlwydd oed a John Rees, brawd ei mam, wedi marw yn 96 mlwydd oed.

Rhoddodd John Caerenig Evans wasanaeth gwerthfawr i'r Wladfa yn nyddiau blin yr arloesi ac ef a David D. Roberts oedd y ddau gyntaf i fynd i fyw yng nghyffiniau'r Gaiman. Dechreuwyd cynnal ysgol Sul yn ei gartref ym mis Tachwedd 1874 ac wedi iddo fod yn pregethu yn nhai'r ardal am flwyddyn, sefydlwyd Eglwys Annibynnol y Gaiman ym mis Awst 1876 gyda J. C. Evans yn weinidog arni. Daeth ei brofiad fel glöwr yn ddefnyddiol ym mlynnyddoedd cyntaf y Wladfa, yn enwedig gyda'i ymwneud â'r ffosydd. Roedd ymhlith y rhai, wedi rhai blynnyddoedd o siomedigaeth chwerw wrth ddibynnu ar yr afon i godi, a feddyliodd am gloddio camlas, a thorwyd y darnau cyntaf ohoni o dan ei arweiniad, heb offer priodol na bwyd digonol i'r dynion na'u ceffylau. Roedd hefyd yn ffigwr pwysig gyda ffurfio Cwmni Masnachol y Camwy.

Mewn ysgrif goffa iddo yn *Y Drafod* adroddir nifer o hanesion difyr amdano. Mae un yn sôn am bwyll a chyfrwystra John Caerenig adeg bygythiad i'r Wladychfa oddi wrth Chiliaid arfog. Adroddir bod Daniel R. Evans wedi bod, ychydig cyn hynny, ym Madryn ar fwrdd llong ryfel Brydeinig oedd ar ymweliad ac wedi derbyn rhoddion gan y swyddogion o hen wisgoedd milwyr Prydeinig nad oedd eu hangen mwyach. Wedi i Daniel R. Evans ddychwelyd o Fadryn, a'r cwmni arfog ar ddod i'r pentref, 'Yn ôl cyngor Mr Evans, gwisgwyd Y Bwyr D. R. Evans a D. B. Williams yn nillad milwyr Lloegr...gosodwyd y ddau i sefyll mewn man amlwg, er mwyn creu'r

argraff fod yno filwyr Lloegr i ymwneud a hwy! Bu'r ystryw yn llwyddiannus, a chafodd y bobl ymwarded y tro hwn.'

Gweithiai J. C. Evans yn galed ar hyd yr wythnos a phregethai ar y Saboth, a hynny am ddim neu'r nesaf peth at ddim. Yn etholiad 30 Gorffennaf 1886 cafodd ei ethol yn Ynad Heddwch. Cadwodd dŷ agored lle gallai unrhyw un mewn angen troi mewn. Dywed ysgrif goffa iddo yn rhifyn 12 Rhagfyr 1913 o'r *Drafod* ei fod 'o ysbryd boddlon ac addfwyn a chalonogai eraill drwy esiampl a geiriau'. Gwasanaethai bob enwad yn ddiwahân. Credai'r gorau am bobl; roedd yn ddidwyll ac eangfrydig, a chanddo argyhoeddiadau dwfn iawn a synnwyr cyffredin. Go brin i unrhyw gyfarfod cyhoeddus – crefyddol, gwleidyddol, llenyddol neu fasnachol – gael ei gynnal heb iddo fod yn bresennol. Cyflwynodd ddarn o dir lle'r adeiladwyd ysbyty sy'n dwyn ei enw, Ysbyty J. C. Evans. Wedi pregethu am dros hanner can mlynedd yn ddi-fwlch, bu farw'n 77 mlwydd oed ym mis Rhagfyr 1913. Rhagflaenodd ei wraig Hannah ef ar 4 Awst 1911.

Priododd Gildas ag Ann Howells a chael pump o blant – Archimedes (dibriod), Herber a briododd Matilde Jones, Edith a briododd Paul Lambert yn 1938, Rhys a briododd Eirlys Jones, ac Alun a fu farw'n ifanc.

Gwraig gyntaf Egryn oedd Gwen Williams a chawsant ddau fab, Towy a Mefin, ond bu'r ddau farw'n ifanc. Gyda'i ail wraig, Elizabeth Jane Williams, cafodd ferch, Nest, a briododd John Craig, a mab, Darwel, a briododd Marta Rodrigo.

Priododd Amana Margaret â Frederick Ritchie a chael naw o blant – Henry (a fu farw'n ifanc), John (a briododd Amalia Smith), Lena (a briododd Federico Boyd), Magdalena (a briododd Edward Scott Thomas, mab ieuengaf John Murray Thomas a Harriett Underwood), Margaret (a briododd gyntaf â Julio Diaz ac yn ail â Francisco Iglesias), May (a briododd Pedro Colasante), Lili (oedd yn ddibriod), Gilbert (a briododd Joan Evans, wyres i'r Parch. Esau Evans a Joan ei wraig) a Wellington (a briododd Maria Salones).

Priododd Edith Mary â David Evan Jones (Y Coop) a chawsant hwythau hefyd naw o blant – Evan E. (a briododd Tersa Jones), Winifred (a fu farw'n ifanc), Hannah (dibriod), John Sydney (a briododd Lydia Humphreys, merch Richard M. Humphreys a aned yn Santa Fe a'i wraig gyntaf Jane Jones), Elizabeth (a briododd John Williams), Ethel (a briododd Thelmo Victor Picone), Eleanor (a briododd Bruno Musielack), Elfed George (a briododd Delina Harris) a Rachel (a briododd Edward Williams).

Priododd Tudur â Margaret Ann Williams a chael tri mab— Caerfryn (a briododd Grazia Italia Mazza), Ifano (hen lanc) ac Eirwyn (a fu farw'n 20 mlwydd oed).

Priododd Morfydd â Robert Warnock ond roeddent nid oedd ganddynt blant, ac nid oedd Grenig na Trofana yn briod.

'Marwolaeth y Parch. J. C. Evans', *Y Drafod*, 5 Rhagfyr 1913

Cerdd: 'Caerenig' gan William H. Hughes ('Glan Caeron'), *Y Drafod*, 5 Rhagfyr 1913

'Cwyn Coll am yr Hybarch J. C. Evans, Gaiman', D. R. J., *Y Drafod*, 12 Rhagfyr 1913

'Y Diweddar Barch. J. C. Evans, Gaiman, yn ei fedd' gan W. Evans, *Y Drafod*, 12 Rhagfyr 1913

Gwybodaeth mewn neges e-bost gan aelod o'r teulu

EVANS, John Daniel (1862–1943)

Ganed John Daniel Evans yn Aberpennar yn 1862, ond un o deulu fferm Ty'n-y-waun, Pont-henri, sir Gaerfyrddin oedd ei dad, Daniel, a'i fam, Mary, yn enedigol o Aberdâr. Aeth John Daniel i'r Wladfa gyda'i rieni yn 1865 a daeth yn un o'r marchogion gorau yno, yn amaethwr gwrol ac yn arweinydd medrus, cymaint felly nes ei gyfenwi 'Y Baceano', hynny yw, 'Yr Arweinydd'.

Bu ar daith ymchwil i'r paith droeon, ond y tro enwocaf oedd y tro y gadawodd y Dyffryn ar ddiwedd 1883 pan ymosodwyd arno ef a'i gyfeillion gan Frodorion yn Nyffryn Kel-Kein ac y lladdwyd ei dri chydymaith - Richard B. Davies, John Hughes a John Parry ym mis Mawrth 1884. Cafodd John Daniel Evans ddihangfa wyrthiol drwy ddewrder ei ebol, Malacara. Bu llawer o sôn am aur a mwynau ar lannau afon Camwy a dewiswyd John Daniel Evans yn arweinydd ar gyfer y daith archwiliadol honno ar ddiwedd 1883 oherwydd ei fod yn gyfarwydd iawn â'r paith ac arferion y Brodorion. Ym mis Mehefin 1885 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Gaiman, gyda John Daniel Evans a John Murray Thomas yn bresennol, ac anfonwyd cais at Raglaw cyntaf Chubut, Luis Jorge Fontana, yn gofyn iddo ganiatáu taith i'r ardaloedd wrth odre'r Andes gyda golwg ar greu sefydliad newydd. Hon oedd y daith enwocaf yn hanes cynnar Patagonia, gyda John Daniel Evans fel arweinydd, ac yn ystod y daith honno y gwelodd y Cymry Gwm Hyfryd am y tro cyntaf.

Erbyn 1886 roedd John Daniel Evans nid yn unig yn arweinydd o fri ond yr oedd hefyd yn dirfeddiannwr. Ymadawodd â'r Dyffryn am Buenos Aires ym mis Ebrill 1886 ar ôl derbyn gwahoddiad i fynd yno i berffeithio ei Sbaeneg a chael rhagor o addysg. Ym mis Hydref 1886 priododd Elizabeth Richards (1863–1897), merch Dafydd Jones a'i wraig a ddaeth i Batagonia o Ogledd America gyda'r Capten Rogers yn 1874. Ar y pryd yr oedd John Daniel Evans yn gweithio fel math o *gaucho* neu borthmon ar ran Azahel P. Bell a'i gwmini o gwmpas Porth Madryn. Yn 1888 bu'n arweinydd unwaith eto ar yr ail daith i'r Andes gyda Fontana. Wedi dychwelyd tua diwedd mis Mawrth 1888, daeth hi'n adeg paratoi ar gyfer y daith hanesyddol gyda'r wagenni a'r teuluoedd ar draws y paith i sefydlu Cwm Hyfryd.

Ym mis Hydref 1891 mudodd John Daniel Evans a'i deulu i Gwm Hyfryd ac ar ôl ymgartrefu yno, penderfynodd fod angen melin ar y gymdeithas yno gan fod llawer o'r sefydlwyr yn cael cynaeafau da. Dechreuodd ar ei waith fel melinydd ar raddfa fach a chyfyngedig, ond pan gafodd ei dalu gan Lewis Jones ar ran cwmni'r

rheilffordd (*Ferrocarril Central Argentino*) i'w dywys o gwmpas Cwm Hyfryd yn 1896 i chwilio am dir da, defnyddiodd yr arian i brynu melin arall oddi wrth ei chwaer Elizabeth, gweddw Zacharias Jones. Gwellodd y felin hon gyfle ffermwyr Cwm Hyfryd i falu eu gwenith eu hunain. Y felin oedd canolbwynt y pentref a ddaeth i fodolaeth o amgylch tir John D. Evans a rhoddwyd yr enw Trevelin ar y pentref maes o law. Cyflwynodd John Daniel Evans wahanol fathau o felinau i'r gymdogaeth ac yn y diwedd adeiladwyd y felin a welir heddiw yn Nhrevelin a gofrestrwyd o dan yr enw Molino Andes Juan D. Evans y Cía Sociedad en Comandita. Roedd gan John Daniel Evans ddiadell o ddefaid ar ei dir hefyd.

Bu farw Elizabeth yn 1897 gan ei adael, meddai John Daniel Evans yn ei hunangofiant, gyda chwech o blant i ofalu amdanynt, ond dim ond pum plentyn a enwir ganddo: Dyfrig, Buddug, Mary, Aneurin a Benoni. Yn 1900 priododd Annie Hughes de Williams a aned yn 1873 ym mhlwyf Llanfechell, sir Fôn, gwraig weddw â dau o blant, a chafwyd pum plentyn arall o'r briodas honno: Cordelia, Ceinwen, Edith, Emrys a Milton.

Gwnaeth John Daniel Evans ymdrech barhaus i dynnu sylw at gyflafan Kel-Kein, a theimlai nad oedd y gofeb syml a godwyd ar fedd y tri Chymro yn ddigonol. Ym mis Tachwedd 1898, ysgrifennodd at *Y Drafod* i ddechrau cronfa i godi cofadail yn Nyffryn y Merthyron i'w gyfeillion a laddwyd yno, a chodwyd y gofadail honno ym mis Hydref 1916.

Bu'n frwd iawn ei gefnogaeth i achosion yn ymwneud ag addysg a chrefydd, a gwnaeth ei orau i gynnal perthynas heddychlon a chyfeillgar â'r Brodorion. Yn ei deyrnged i John Daniel Evans a gyhoeddwyd yn rhifyn 28 Ionawr 1945 o'r *Drafod*, dywed Tomas Freeman fod John Daniel Evans wedi gwneud ei ran yn anrhydeddus i ddechrau achos crefyddol ac i gael capel yng Nghwm Hyfryd ac i gynnal yr achos a'i gynyddu. Bu'n ddyfal i gael ysgol ddyddiol i Gwm Hyfryd ac yn ei dŷ ef y cynhaliwyd am beth amser yr ysgol gyntaf a fu yn y Cwm. Yn ogystal, bu'n gyfrifol am godi amryw o dai llewyrchus ac mae'n debyg mai ef oedd y cyntaf i berchen car yn y Cwm. Ym mis Mawrth 1923 aeth ar ymweliad â Chymru, Lloegr a Ffrainc, a dychwelyd adref ym mis Awst. Pan oedd yn Llanelli ceisiodd, yn aflwyddiannus, weld a oedd rhywun yn cofio gwraig Richard B. Davies, un o'r rhai a laddwyd yn Kel-Kein. Ym mis Mai 1928 gadawodd ar ail daith i Gymru, Ewrop a'r Dwyrain Canol, ac yn 1934, ac yntau'n 72 mlwydd oed, aeth ar daith i Chile i geisio trafod gyda chynrychiolwyr y Llywodraeth yn Santiago ynglŷn â'r posibilrwydd o wella'r

ffordd drwy'r Andes o Fro Hydref i Chile. Bu farw yn ei gartref yn Nhrevelin ar 6 Mawrth 1943 yn 81 mlwydd oed, a chafwyd llu o deyrngedau iddo ym mhapurau Sbaeneg a Chymraeg yr Ariannin.

Tysteb Tomas Freeman i J. D. Evans, *Y Drafod*, 28 Ionawr 1945

Paul W. Birt (gol.), *Bywyd a Gwaith John Daniel Evans El Baqueano* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004)

EVANS, Thomas Dalar (1847–1926)

Ganed Thomas Dalar Evans ar Ddydd San Thomas, sef 21 Rhagfyr, yn y flwyddyn 1847 ym mhlwyf Llanfechan (Llanafan Fechan) ger Llanfair-ym-muallt. Er mai crydd oedd ei dad, Morgan Evans, dywed Thomas mai ‘hofach oedd o lyvr ac hyforddi plant’. Yn wir, erbyn dyddiad cyfrifiad 1861 disgrifir Morgan Evans fel ‘Schoolmaster’, yn byw yn Lower Glanrhyd, Llanfechan, gyda Jane ei wraig a’r plant John (10), Daniel (7), Sarah (6), Morgan (3) a William (11 mis). Rhywbryd rhwng 1861 a 1871 cafodd Morgan ei ordeinio yn weinidog gyda’r Annibynwyr, a bu’n weinidog ym Merthyr Cynog yn sir Frycheiniog, ym Mhenarth yn sir Drefaldwyn ac ym Mwlch-y-ffridd yn yr un sir.

Un o’r teulu Samuel, Tŷ Mawr, fferm yng nghymdogaeth Troedrhiwdalar oedd Jane, mam Thomas Dalar Evans. Gwelir y teulu’n byw yn ‘Newhall, Llanfechan’ ar gyfrifiad 1851: Morgan, crydd 24 mlwydd oed wedi ei eni yn Llangors, Jane yn 29 ac wedi ei geni yn Llanynys, Thomas yn dair a John yn ddeng mis oed, y ddau wedi eu geni yn Llanfechan. Erbyn dyddiad cyfrifiad 1861 pan oedd Thomas yn 13 mlwydd oed, roedd yn byw gyda theulu ei fam – ei fam-gu Jane Samuel, a’i ewythrod – yn Nhŷ Mawr. Roedd Jane Samuel yn wraig weddw 70 mlwydd oed ac yn ffermio 180 erw. Un o blwyf Llanfareth, sir Faesyfed, oedd Jane, a’i phlant oedd Thomas (37 mlwydd oed) wedi ei eni yn Llanynys ac yn ddall; mab arall, John (32) wedi ei eni yn Llanfechan, ei wraig Jane (24) o Lanafan Fawr a’u mab mis oed, Thomas; a Thomas Evans, yr ŵyr (13), a aned yn Llanfechan.

Yn ei hunangofiant ‘Banau vy mywyd’ a gyhoeddwyd yn rhifyn 4 Mehefin 1926 o’r *Drafod*, dywed Thomas Dalar Evans fod ei ewythr, John Samuel, yn arweinydd côr eu heglwys am flynyddoedd a’i ewythr Thomas, a oedd yn ddall o’i eni, yntau yn arweinydd y côr ac yn godwr canu. Roedd y teulu Samuel yn un cerddorol, felly, ac etifeddodd Thomas y ddawn honno. Roeddent hefyd yn deulu parchus a chrefyddol, a dywed Thomas iddo fagu parch at grefydd a chrefyddwyr ‘er yn vachgen’.

Ar ôl gweithio yn ardal Troedrhiwdalar am rai blynyddoedd, treuliodd saith mlynedd yn Nhaf Fechan, ger Dowlais. Yn 1875, ac yntau’n 28 mlwydd oed, ymfudodd i Batagonia, a chael swydd fel ysgolfeistr yn ardal Glyn Du. Yr oedd ganddo tua 40 o blant mewn ystafell fach tua 8x6 troedfedd gyda llawr pridd a meiciau heb gefnau. Cadwai ysgol gân am ryw chwarter awr bob dydd ar ôl oriau ysgol a chychwynnodd gôr yn yr ardal. Bu’n arwain Côr Undebol y Dyffryn Uchaf

gyda llwyddiant mawr am flynyddoedd, a bu'n arweinydd y gân yng nghapel Glan Alaw ac yng nghapel Bethel Cwm Hyfryd. Yn yr erthygl, 'Y diweddar Thomas Dalar Evans' a gyhoeddwyd yn rhifyn 6 Awst 1926 o'r *Drafod*, ceir y disgrifiad canlynol o gapel Cwm Hyfryd yn nyddiau cynnar yr ymsefydlu yn y cwm: '...adeilad *Logs*, yn mesur naw llath o hyd wrth chwech o led, to brwyn breision, dwy ffenestr fechan o bobtu, llawr planciau, a rhyngddo a bargod y to yr oedd gwrhyd, a'r eisteddleoedd yn gyfatebol, ond ni fu cynulliad erioed yn gwerthfawrogi eu capel yn fwy'.

Cyfansoddodd Thomas Dalar Evans lawer o ddarnau cerddorol, y mwyafrif ohonynt yn donau cynulleidfaol. Ymddangosodd nifer o'i gyfansoddiadau yng nghylchgrawn *Cymru'r Plant*. Bu'n fuddugol droeon ar gyfansoddi a dadansoddi darnau cerddorol yn eisteddfodau'r Wladfa, ac arweiniai cymanfaoedd canu'r Wladfa. Thomas Dalar Evans a gychwynnodd y gwyliau cerddorol yn 1902 o dan ei arweinyddiaeth yn y capel bach *Logs*. Yr oedd yn arweinydd llwyddiannus oherwydd ei arddull ddiymhongar a dirodres.

Yn 1877 priododd Esther Williams, merch Rhys ac Elizabeth Williams, Cefn Gwyn yn ardal Moriah, Trelew, a aned ym Mrasil, a chawsant ddeg o blant: Irvonwy (1878), Buallt (1880), Brychan (1882), Morgan (1885), Mary Ann (?1887, bu farw'n ifanc), Elizabeth Jane (Siân, 1889), Ioan Penry (1891), Briallen (1893), Madryn (1896), Eurgain (1898) ac Almed (1901). Yng ngwanwyn 1894 symudodd Thomas a'i deulu i'r Andes lle y cafodd 2,500 hectar o dir yn rhad gan y Llywodraeth. Profodd lawer o dristwch yn ei fywyd; yn ystod ei gyfnod yn ysgolfeistr yng Nglyn Du, aeth allan am dro gyda'i wn i hela petrisen, ond wrth lwytho'r gwn aeth yr ergyd allan gan chwythu ei fys canol yn dipiau a dau gymal o'r bys agosaf at y bawd. Collodd ei fab, Buallt, ar 25 Mai 1888 yn wyth oed, pan foddodd wrth ddychwelyd o'r ysgol ym Maesteg gyda'i frawd Brychan. Aeth ei wraig i ymweld â'i pherthnasau a'i ffrindiau yn Nyffryn Camwy ym mis Rhagfyr 1903 a marw yno o'r clefyd coch (*diphtheria*). Diflannodd ei fab, Madryn, ar 6 Mehefin 1904 a darganfuwyd ei gorff y diwrnod wedyn nepell o'r tŷ wedi ei guddio mewn prysg fel y gwna piwma gydag oen a laddasai. Roedd yn wyth mlwydd oed. Ym mis Medi 1914 llosgodd ei gartref, Bod Eglur, i'r llawr ac er mynd ati i godi tŷ newydd, fe'i gadawyd heb do tra oedd pawb yn cynaeafu'r gwenith, a daeth glaw mawr a syrthiodd y tŷ bron i'w seiliau. Yn 1917 collodd ei ferch Eurgain, a cholodd ferch arall, Briallen, gwraig John S. Pugh, y Gaiman, ym mis Awst 1920 yn 27 mlwydd oed, gan adael gŵr a dau o blant. Bu farw Almed ym mis Mehefin 1922 yn 21 mlwydd oed ac ar 28 Gorffennaf 1925 bu farw

Jane (Siân), gwraig Thomas Nicholls, Bryn Gwyn, yn 37 mlwydd oed, gan adael gŵr a phump o blant. Yr oedd Irvonwy wedi priodi Edward Brunt ac erbyn 12 Mawrth 1924, y dyddiad a nododd Thomas Dalar Evans ar waelod ei hunangofiant, hi oedd yr unig ferch oedd ar ôl. Yr oedd Ioan Penry yn briod â Margaret Jane Williams a Brychan yn briod â Mary Thomas.

Bu Thomas Dalar Evans farw ar 30 Mai 1926.

Hunangofiant: 'Banau vy mywyd', *Y Drafod*, 4 Mehefin 1926

'Y diweddar Thomas Dalar Evans', *Y Drafod*, 26 Awst 1926

EVANS, Tudur (1877–1959)

Ganed Tudur Evans yn y Gaiman ar 12 Rhagfyr 1877 yn fab i'r Parch. John Caerenig Evans a'i wraig, Hannah Harries. Treuliodd ei febyd a'i ieuenctid gyda'i rieni ar y fferm ger y Gaiman. Dywed Osian Hughes yn ei lyfr *Los Poetas del Eisteddfod* i Tudur fod ymhlith y rhai a aeth, ar droad yr ugeinfed ganrif, i ymsefydlu yn Nyffryn Sarmiento, ond o glywed am y diwygiad crefyddol a oedd yn ysgubo Dyffryn Camwy, dychwelodd yno a phrofi tröedigaeth. Ar y llaw arall, mae Noel Gibbard yn ei gyfrol *On the Wings of the Dove* yn awgrymu mai yn y Dyffryn yr oedd Tudur Evans ar y pryd ond iddo ymweld â Sarmiento i helpu hybu'r diwygiad yno. Ategir hynny gan Mrs Owen Jones yn ei hatgofion am gyfnod y Diwygiad yn Sarmiento a gyhoeddwyd yng nghyfrol Robert Owen Jones, *Yr Efengyl yn y Wladfa*.

Bwriodd Tudur Evans ei hun i weithgareddau'r capel ac yn 1906 roedd yn fyfyrwr yn Y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin yn paratoi am fynd i'r weinidogaeth. Ar ôl gorffen yn y coleg yng Nghaerfyrddin, cafodd ei gymell gan y Parch. Howell Elvet Lewis ('Elfed'; 1860–1953) i fynd i astudio yn yr 'East London Missionary Training Institute', a adnabyddir hefyd dan yr enw 'Harley College', yn Llundain.

Ceir yr wybodaeth ganlynol, sy'n adargraffiad o erthygl a gyhoeddwyd yn *Y Tyst*, yn rhifyn 16 Rhagfyr 1910 o'r *Drafod*:

'Heol Awst Caerfyrddin'

Bore Iau, Medi 22, cynhaliwyd cyfarfod ordeinio Mr Tudur Evans o Goleg Harley, Llundain, i waith y weinidogaeth yn y Wladfa, De America. Mab ydyw Mr Evans i'r Parch. J. C. Evans, Y Gaiman, Patagonia, ac fel ei dad yn caru'r Wladfa a'i holl galon, ac yn awyddus angerddol i ymglyfwyno yn enw Crist i bregethu'r Efengyl yno i'w gydgenedl ac i genhedloedd eraill. Cafwyd anerchiad byr gan y Parch. W. Casnodyn Rhys, Abertawe [a fu'n weinidog am flynyddoedd gydag achos y Bedyddwyr yn y Wladfa], yn disgrifio maes llafur y gweinidog ym Mhatagonia. Hwyrach nad oedd dim yn fwy trawiadol yn holl weithrediadau'r cyfarfod na'r ddau anerchiad byr gafwyd gan y ddau wladfawr – Mri Richard Jones a Thomas Jones. Y mae'r ddau yn ddiaconiaid parchus yn y Wladfa, dau a fu yn y fintai gyntaf aeth allan i'r Wladfa yn 1865. Dyma gyfeiriad at Thomas Jones, Glan Camwy, a Richard Jones, Glyn Du.

Ychwanega 'Gohebydd': Dydd Sadwrn, Hydref 1af, yr oedd y Parch. Tudur Evans, a mintai gref o hen wladfawyr ac ymfudwyr newydd, yn gadael Lerpwl am Batagonia.

Ar restr teithwyr llongau o borthladdoedd Prydain, a welir ar wefan findmypast.co.uk, cofnodir mai ar 5 Hydref 1910 y gadawodd ‘T. Evans’ am yr Ariannin o borthladd Lerpwl ar y *Veronese*, llong yn perthyn i gwmni Lamport & Holt.

Bu’r Parch. Tudur Evans yn weinidog ar gapeli’r Dyffryn hyd 1920 pan dderbyniodd wahoddiad gan gapeli’r Andes i fynd yn weinidog arnynt. Yno y bu, yn Nhrevelin ac Esquel, o 1921 hyd 1933, pryd y dychwelodd gyda’i deulu i’r Dyffryn a gweinidogaethu i’r capeli yno hyd nes i’w iechedd dorri. Bu farw ar 1 Medi 1959 yn 81 mlwydd oed.

Er nad yw ei gynnyrch barddonol yn un eang, enillodd Tudur Evans y Gadair yn Eisteddfod Trevelin yn 1928. Cyflwynwyd y Gadair hon i’r Amgueddfa yn Nhrevelin.

Yn 1912, yr oedd wedi priodi Margaret Ann Williams a gyfarfu yn ystod ei gyfnod yng Nghaerfyrddin, a ganed iddynt dri o blant. Bu farw eu mab ieuengaf, Eirwyn, yn ugain mlwydd oed a bu farw’r ail fab, Ifano Evans, yn y Gaiman yn ddi-briod. Roedd ei wyrion, plant ei fab hynaf, Caerfryn Evans, yn byw ym Muenos Aires yn ôl Osian Hughes yn ei lyfr *Los Poetas del Eisteddfod*.

EVANS, William, Maes yr Haf (1851–1931)

Ganed William ar 10 Awst 1851 ym Mhontgarreg, Tre-lech a'r Betws, yn fab i Thomas a Mary Evans. Collodd ei fam pan oedd tua deng mlwydd oed ac yn ugain mlwydd oed dywedir iddo adael y fferm a symud i Pentre, Rhondda, i weithio yn y pwll glo, a gwelir enw gŵr o'r enw William Evans, byrddwr 19 mlwydd oed a aned yn sir Gaerfyrddin yn rhestr trigolion Pentre ar gofnod cyfrifiad 1871. Tra'n byw yno ymaelododd gyda'r Annibynwyr yng Nghapel Siloh. Ar 27 Medi 1874 priododd Elizabeth Davies a aned ar 27 Medi 1854, merch Daniel a Mary Davies, Felin Newydd, Cynwyl Gaeo, a'r flwyddyn wedyn ymfudodd y ddau i'r Wladfa.

Adeiladodd William dŷ mawr frics ar ei fferm, Maes yr Haf, Bryn Gwyn. Ganed un ar ddeg o blant i William ac Elizabeth: Cyrus (23 Chwefror 1876), Mary (7 Chwefror 1878), Thomas (15 Mehefin 1880), Gwilym (21 Mehefin 1882), John [Camwy] (10 Chwefror 1884, Gwen (12 Awst 1887), Daniel R. (27 Mawrth 1890), Myrddin (15 Ionawr 1892), Madryn (13 Gorffennaf 1894), Dyfed (10 Ionawr 1897) ac Elizabeth Ann (11 Ionawr 1897). Dywed marwgoffa i William yn *Y Drafod* i'r teulu fynd am dro i Gymru yn 1893 ac iddynt aros yno am bron i ddwy flynedd. Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru nifer o lythyron a ysgrifennwyd gan aelodau'r teulu, yn cynnwys un gan 'C. Evans' o Vigo yn Sbaen ym mis Mai 1874, sy'n disgrifio rhan o'r daith yn ôl i Batagonia ar y *Potosi*. Anfonwyd llythyr arall o Faes yr Haf, Bryn Gwyn, at ryw 'Miss Davies' ar 16 Ionawr 1895:

Dear Miss Davies. I just send you a Lion's nail to you to make a broach [*sic*] also Mary is sending one to your sister Hannah. We can't send you skins now we don't know of nobody coming back there for a long time but we will send them with the first chance we get.

Yn 1898 anfonwyd y tri hynaf, Cyrus, Tomas a Mary, i dderbyn rhan o'u haddysg yng Nghymru. Yr oedd Cyrus a Tomas yn fyfyrwyr yn yr Academi ym Mhontypridd yn ystod tymor yr Hydref 1898, ac aeth Tomas, a Cyrus mae'n debyg, i New College, Caerfyrddin, y flwyddyn ddilynol. Yn y cyfamser yr oedd Mary yn derbyn hyfforddiant i fod yn nyrs. Yn 1907 aeth mab arall, John Camwy, yn fyfyrwr i goleg rhag-baratoadol yng Nghaerfyrddin, ac yna i Goleg Bala Bangor yn 1911. Cafodd ei ordeinio ym Mehefin 1915 yn Weinidog gyda'r Annibynwyr. O 1915 i 1931 bu'n Weinidog Capel Pendref, Caernarfon, ac yn Gynghorydd Sir; o 1931 i 1947 bu'n

weinidog yng Nghapel Lloyd Street, Llanelli, ac o 1948 i 1954 yn weinidog Capel Nebo, Blaengarw, sir Forgannwg. Priododd Emily Crump yn 1915 ac aethant ar ymweliad â Phatagonia yr un flwyddyn. Ar 25 Medi 1918 derbyniodd lythyr oddi wrth Swyddfa Prif Gwnstabl Caernarfon yn ei hysbysu nad oedd yn cael ei gyfrif yn estron bellach ond fel dinesydd Prydeinig. Ar ôl ymddeol, dychwelodd i ogledd Cymru a threulio gweddill ei oes yn ei gartref, 'Snowdonia' yn Ninas Dinlle. Bu farw yn 1963 ac fe'i claddwyd ym mynwent Capel Cana, Llanddaniel fab.

Bu dau o feibion eraill William ac Elizabeth Evans yn gweithio i'r Co-op yn y Gaiman. Yr oedd Cyrus yn dirfesurydd trwyddedig, a phriododd Maria, merch William Jones, Fferm Caerfyrddin ger y Gaiman. Ychydig yn ddiweddarach priododd mab arall i William ac Elizabeth, sef Gwilym, ag Ann, chwaer Maria. Priododd Tomas â Mary Ellen Morgan a gwneud eu cartref yn Comodoro Rivadavia, lle bu Tom yn arolygydd cangen o Gwmni Masnachol y Camwy am flynyddoedd ac yn Ynad Heddwch am ysbaid. Gŵr cyntaf Gwen oedd Hugh Parry, a Stephen Williams ei ail ŵr. Priododd Daniel Roderick â Sara Jones, Madryn ag Alice Jane Pierce, Dyfed â Maud Lloyd Jones ac Elizabeth Ann â Lemuel Roberts. Bu farw Myrddin ar 5 Gorffennaf 1919, Mary gwraig David T. Williams, Bryn Gwyn, ar 16 Ebrill 1929 yn 52 mlwydd oed, a Daniel Roderick ym mis Mehefin 1938 yn 48 mlwydd oed.

Roedd parch mawr tuag at William Evans, Maes yr Haf, yn y gymuned Gymreig, a chwaraeodd ran flaenllaw yn datblygu a gwella'r sefyllfa yn Nyffryn Camwy, yn enwedig ym maes dyfrhau. Am nifer o flynyddoedd bu'n Ysgrifennydd y 'Co-op'. Bu'n gefn i adeiladu capel cyntaf yr ardal a bu'n athro ysgol Sul ac Arholwr, yn gefnogol dros fudiad addysg, bu'n gyfrwng i adeiladu'r Ysgol Ganolraddol yn y Gaiman.

Bu William Evans farw ym mis Mehefin 1931 ac Elizabeth ei wraig ym mis Mehefin 1941 yn 86 mlwydd oed.

FOOTMAN de MORRIS, Elizabeth (1863–1915)

Dywed Albina Jones de Zampini mai o Hafod Wen, Caerfyrddin, yr hanai Elizabeth Footman a aned yn 1863. Merch hynaf Charles ac Anna Footman oedd hi. Ar gyfrifiad plwyf St Peter, Caerfyrddin, yn 1871 gwelir Eliza, 8 mlwydd oed, yn byw yn Cottage Road, Caerfyrddin, gyda'i thad Charles Footman (44), ffermwr ar 9 erw a aned yn swydd Henffordd, ei mam Hannah, 45, a aned yn Abernant, sir Gaerfyrddin, ei chwaer Jane (5) ac Alice (2), y ddwy wedi eu geni ym mhlwyf St Peter, a dau o blant Hannah o'i phriodas gyntaf – Sarah Phillips llaethferch 22 mlwydd oed a George Phillips 14 mlwydd oed, y ddau wedi eu geni ym mhlwyf St Peter. Ar gyfrifiad blaenorol y plwyf, yn 1861, roedd Hannah yn wraig weddw 34 mlwydd oed yn ffermio 9 erw, gyda'i phlant Sarah (15), John (12), Mary (11), William (7) a George (5).

Pan oedd ar ei gwyliau yn Llansteffan y cyfarfu Elizabeth Footman gyntaf ag Eleazar Garnant Morris, ac fe'i priododd yn chwarter Mehefin 1885 yn ardal cofrestru Caerfyrddin. Dywedir i Eleazar gael ei eni yng Nghilfynydd, Morgannwg, yn 1858, ond roedd yr unig Eleazar Morris a aned tua 1858 ar gyfrifiad 1861 yn byw yn Penypound Cottage Llangiwig. Mae'r teulu hwn i'w cael yn byw yn 4 Graig Road, Cefnpennar, Morgannwg, ar gyfrifiad 1871: William Morris 57 mlwydd oed, glöwr a aned yn Llandybïe; Anne ei wraig (55), a aned ym mhlwyf Llanfihangel, sir Gaerfyrddin; David (22), glöwr; William (21), glöwr; Hannah (18), morwyn; Llewelyn (16), glöwr; Eleazar (13), groser (prentis) a George (11), sgolor. Dywedir i'r plant cael eu geni ym mhlwyf Betws, sir Gaerfyrddin. Cofnodir geni plentyn o'r enw Eleazar Morris yn chwarter Rhagfyr 1857 yn ardal cofrestru Castell Nedd.

Ar ôl priodi, gwnaethant eu cartref yn Aberpennar ac yno y ganed eu merch gyntaf, Alice. Yn y flwyddyn 1886 pan oedd y Parch. Abraham Matthews yng Nghymru yn darlithio ar Batagonia, penderfynodd Eleazar a dau o'i frodyr, William a George, ymfudo i Batagonia. Penderfynwyd fod y tri brawd yn mynd yno gyntaf i baratoi lle i'r teuluoedd, ond tra roeddynt yn aros am long i'w cludo o Buenos Aires i'r Wladfa, cyfarfuasant a rhai o'r Cymry a aethant i Curamalam i sefydlu gwladychfa Gymreig oherwydd iddynt honni nad oedd gobaith am lwyddiant na digon o ddŵr yn Chubut. Felly, penderfynodd y brodyr Morris hwythau troi eu golygon ar Curamalam, Coronel Suárez, ac ymfudodd Eleazar ac Elizabeth i Coronel Suárez yn hytrach nag i Batagonia.

Ymhen rhai blynyddoedd daeth tro ar fyd yn Curamalam, ac ymadawodd rhai o'r Cymry am y Wladfa yn Chubut. Yr oedd William a George Morris ymhlith y rhai a drodd am Gymru, ond penderfynodd Eleazar ac Elizabeth aros gyda gweddi y Cymry yn Curamalam drwy'r holl galedi ac anawsterau. Daethant i berchen tair fferm, anifeiliaid ac offer. Ganed 13 o blant iddynt, yn cynnwys y ferch gyntaf a aned yng Nghymru, 12 yn yr Ariannin - 8 o fechgyn a 4 o ferched.

Yn yr ysgrif goffa i Elizabeth a ymddangosodd yn *Y Drafod*, Mehefin 1915, dywedir iddi hi a'i gŵr aberthu lawer er mwyn rhoi addysg i'w plant. Bu pedwar ohonynt yn derbyn addysg uwch yng Nghymru, dau yn Bahia Blanca a dau yn Chubut, a'r lleill yn Curamalam. Yr oedd chwech ohonynt yn aelodau o'r eglwys a chwech o'r meibion yn chwarae gyda'r seindorf oedd yn perthyn i'r eglwys.

Gwelir y teulu ar gyfrifiad Coronel Suárez yn 1895:

Alieza (i.e. Eleazar) Morris Gwryw Priod 40 mlwydd oed a aned yn Lloegr [ni wahaniaethir rhwng Cymru a Lloegr]

Eliza[beth] Morris Gwraig Briod 37 a aned yn Lloegr

Alicia (Alice) Morris Benyw 8 a aned yn Lloegr

Guillermo (William) Morris Gwryw 7 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Eliza Morris Benyw 6 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Luis [?] Morris Gwyw 5 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Eduardo (Edward) Morris Gwryw 3 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Jorge (George) Morris Gwryw 2 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Winifreda Morris Benyw 1 ganed yn yr Ariannin, Buenos Aires

Priododd Alice Morris â Thomas Daniel Evans, mab Daniel Rhys Evans a Mary Jones, ac ef oedd awdur yr erthygl goffa i'w fam yng nghyfraith. Hen lanc oedd William Charles Morris. Priododd Elizabeth â Joel Maradei yn Eglwys Coronel Suárez ar 29 Gorffennaf 1922. Priododd George Philip, a aned yn Coronel Suárez ar 25 Mawrth 1892, ag Amelia Antonia Andersh, a aned ar 26 Mawrth 1904, a chawsant Jorge Eleazar (20 Hydref 1923 –20 Hydref 1999), Daisy Nora (20 Mehefin 1926–16 Rhagfyr 1975), a Roberto Carlos (27 Gorffennaf 1934–13 Chwefror 2003). Priododd Diego Eduardo, a aned ar 28 Mehefin 1893, ag Ethel Muir Shae. Priododd Winifred ag Edward Rhys Evans. Priododd Edith ag Evan Rees, Pantglas, ar 2 Gorffennaf 1921 yng Nghapel Bethel, y Gaiman, ond bu Edith farw yn 37 mlwydd oed ar 12 Ebrill

1935 ar enedigaeth plentyn, gan adael priod a phedwar o blant bach. Hefyd yng Nghapel Bethel, y Gaiman, ar 16 Hydref 1935, priododd Arthur Corwen â Meirionwen Pugh merch Gwilym J. Pughe, y Gaiman, a aned ar 9 Gorffennaf yn y Gaiman. Cawsant ddau fab, Arturo Raymundo, a aned yn Coronel Suárez ar 2 Gorffennaf 1936, ac sy'n dad i Valeria Morris, a Reynaldo sy'n dad i Evelyn Morris. Bu Arthur Curwen farw ar 16 Hydref 1990 a Meirionwen ar 27 Awst 2000 yn Coronel Suárez. Priododd Blodwen â John Owen. Priododd Myrddin â Dina Visconte. Priododd Tudor ag Ivy []. Priododd Eleazar â Rowena Morris. Priododd Leonard â Carmen Cobo;

Bu Elizabeth farw ar 17 Mehefin 1915 yn Coronel Suarez ac Eleazar ar 30 Medi 1930.

Gwybodaeth a roddwyd ar y we gan Evelyn Morris, merch Reynaldo Morris
(mariano@generalpico.com.ar)

Gwybodaeth a bostiwyd ar Ancestry Message Board ar 9 Hydref 1910 dan y pennawd 'Griffith John Pugh' [*sic*] descendants, gan Valeria Morris, merch Raymundo Morris
NLW MS 21482D

FREEMAN, William J. (1851–1914)

Dywedir bod William J. Freeman wedi ei eni yn sir Forgannwg ar 24 Mehefin 1851, a gwyddys mai Joseph oedd enw ei dad. Priododd gŵr o'r enw Joseph Freeman ag Elizabeth Davies yn Aberdâr ar 1 Chwefror 1851. Ar gyfrifiad 1851 a gymerwyd ar 30 Mawrth 1851, tri mis cyn geni William, gwelir Joseph Freeman, 28 mlwydd oed, a aned ym Maenorbŷr, sir Benfro, ac Elizabeth ei wraig, 24 mlwydd oed ac wedi ei geni yn sir Frycheiniog, yn byw yn Abercwmbוי, Morgannwg. Mae enw Joseph Freeman, 30 mlwydd oed, yn ymddangos ar restr teithwyr yr *Astria* i Efrog Newydd yn 1852 ond does dim sôn pryd yr aeth Elizabeth a William i Ogledd America.

Ar 13 Awst 1870 yn Bellevue, Allegheny Co., Pensylfania, priododd William J. Freeman â Mary Ann Thomas, a aned ym Mhensylfania ar 8 Tachwedd 1854. Ymfudodd William a Mary Ann Freeman a'u tair merch fach – Sarah Ann, Lizzie a Lottie (efeilliaid) – i'r Wladfa gyda mintai'r *Lucerne* gan adael Efrog Newydd ar 13 Awst 1875 a glanio yn Chubut ar 26 Rhagfyr. Ceisiodd tad William ei ddenu yn ôl i'r Unol Daleithiau oherwydd yn *Y Drych*, 11 Ebrill 1878, ceir llythyr dyddiedig 27 Mawrth 1878 o Bellevue, Pensylfania oddi wrth Joseph Freeman, yn diolch am gyfraniadau a dderbyniodd i dalu costau ei fab a David Jones a'u teuluoedd 'o'r wlad lom a diffaith'. Arhosodd William ym Mhatagonia, serch hynny, a daeth yn un o wŷr amlycaf a chyfoethocaf yr Andes.

William Freeman oedd yn gyfrifol am gynllunio tref Trevelin a dosrannu'r lleiniau. Cadwodd ddyddiadur, yn Saesneg, o'r daith a wnaeth i'r Andes yn 1888 (er bod 1886 wedi ei ysgrifennu ar dudalen flaen ei lyfr nodiadau) yng nghwmni John Daniel Evans, John Murray Thomas a 37 dyn arall. Ceir cofnod o'r daith hefyd gan John Daniel Evans yn ei hunangofiant, dan y pennawd, 'Y Daith i Gwm Hyfryd gyda'r Wagenni, 1888'. Wrth ddisgrifio bywyd ar y daith, mae William Freeman yn sôn sut y byddai'r teithwyr yn setlo unrhyw anghydfod a godai, yn cynnal ysgol Sul, hela am fwyd, trwsio wagenni ac adeiladu pontydd dros dro, ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwybod ymhle yr oedd y ffynhonnau a'r pyllau dŵr i ddisychedu'r anifeiliaid. Mae'n disgrifio ei deimladau wrth gyrraedd yr Andes ac yn sôn am y llwyni cyrens a mefus gwyllt ac amdano'n gwneud jam mefus a theisen fefus gan ddefnyddio mêr esgryn guanaco yn lle lard, a photelu mefus yn ogystal.

Yn 1891 dychwelodd William Freeman i'r Andes gyda'i wraig a'u deg plentyn i ymsefydlu yno. Gadawsant hwy, pum teulu arall a nifer o wŷr sengl Ddyffryn Camwy ar 27 Awst, gyda 'phedwar wagen, trol ychain, cant o wartheg,

ceffylau a chesyg', ceffylau pwn (y bechgyn di-briod a ddeuai â'r rheini), hefyd moch, ac ieir y rhai 'a gludid mewn bocsys yng nghrog y tu allan i'r wagenni ac a ollyngid yn rhydd yn y gwersyllfeydd [*sic*]', a digon o luniaeth am flwyddyn.

Yn ail ran y dyddiadur ceir sylwadau Mary Ann Freeman ar y daith, yn dechrau ar 31 Awst. Cawn ddisgrifiad o galedi bywyd y gwagedd: paratoi'r bwyd, gwarchod y plant, pobi bara a chymryd mantais o unrhyw fannau aros i wneud y golch. Ar 29 Medi mae'n nodi bod cynlluniau'r diwrnod ar chwâl; yn lle teithio, cafodd ei hun yn y lle a elwid yn ddiweddarach y Clafdy, yn dilyn geni merch fach ddeg pwys, gan ychwanegu bod buwch wedi geni llo y diwrnod hwnnw hefyd. Galwyd y baban yn Mary Peithgan. Bu'n rhaid i'r gwagedd a'r plant aros yn eu hunfan am ychydig ddyddiau, yng ngofal hen ŵr, tra bod y dynion yn bwrw ymlaen gyda'r gyrrroedd.

Adroddir stori ddifyr gan R. Bryn Williams am ddigwyddiad a barodd gryn ddychryn i'r gwagedd; gwelsant rywun 'yn nesu ar geffyl, ei farf ddu yn cuddio'r rhan fwyaf o'r wyneb, ei wallt yn llaes dros ei ysgwyddau, ei wisg yn garpiog a golwg gwyllt arno'. Bu rhyddhad pan ddeallwyd mai Percy Wharton oedd, ar ei ffordd i lawr o'r Andes. Gwahoddwyd ef i weld y baban, ond roedd arno ofn y byddai'n ei dychryn gyda'i olwg flêr, a gofynnodd yn ddiniwed a oedd y baban wedi agor ei llygaid? Tybiai fod babanod, fel cathod bach, heb allu agor eu llygaid am rai dyddiau ar ôl eu geni.

Yn ystod taith y fintai i'r Andes, trodd y drol ychain a thorrodd yr echel. Llwyddwyd i'w thrwsio ond pan dorrodd echel un o'r wagenni, cuddiwyd y llwyth mewn ogof yn Nyffryn yr Allorau gan nad oedd modd trwsio honno. Pan ddychwelodd William Freeman i'nôl y llwyth ymhen rhai misoedd wedyn, nid oedd yr un sgync hyd yn oed wedi bod yn crafu'r bwyd. Cyrhaeddwyd Cwm Hyfryd ar 21 Tachwedd 1891 wedi bron dri mis o daith.

Erbyn 1908 yr oedd William J. a Mary Ann Freeman wedi dychwelyd i Ddyffryn Camwy gan adael eu bechgyn hynaf yn yr Andes.

Ganed 11 o blant i William a Mary Ann yn y Wladfa: Margaret (a briododd Gwilym Jones); Joseph (a briododd Margaret James a chael 16 o blant); Thomas (a briododd Rosana Awstin); John (a briododd Elizabeth Ann Edwards yn 1913); George, a fu farw'n 20 mlwydd oed, Mary Peithgan, a fu farw'n 16 mlwydd oed, ac Edward Garfield, a fu farw'n 14 mlwydd oed, y tri ohonynt yn marw yn 1908 o ryw

salwch heintus; William (a briododd Margaret Thomas ar 7 Awst 1914); Constance (a briododd John Owen) ac efeilliaid a fu farw ar eu genedigaeth.

Yn 1910 boddodd Mary Ann Freeman yn afon Camwy a chafodd ei chladdu ym mynwent Capel Moriah gyda'i thri phlentyn a fu farw yn 1908. Cododd William gofgolofn iddynt faes o law â beddargraff wedi ei ysgythru ar bob un o'r pedair ochr. Bu William J. Freeman farw yn Rawson ar 2 Tachwedd 1914.

Manylion priodas William J. Freeman a Mary Ann Thomas ar IGI Pennsylvania 1870

Llythyr Joseph Freeman, *Y Drych*, 11 Ebrill 1878

Dyddiadur William J. Freeman, 1886-91. NLW Facs 578

GREEN, Frederick (1913–2002)

Ganed Frederick (Freddie neu Fred) Green ar 19 Gorffennaf 1913, yn fab i a John Charles Green a Gwenonwy Berwyn, deuddegfed plentyn Richard Jones Berwyn ac Elizabeth Pritchard.

Ganed ei dad John Charles Green ar 14 Ebrill 1875, yn fab i Frederick Green a Harriet Ann Porter a briododd yn Eglwys St Oswald, Caer, ar 1 Ionawr 1861. Ar gyfrifiad 1861 mae Frederick Green yn honni iddo gael ei eni yn Threapwood, sir y Fflint, ond daw'r rhan o Threapwood lle'r oedd Frederick yn byw o dan swydd Gaer. Meistr teiliwr oedd Thomas, tad Frederick, wedi ei eni yn Threapwood tua 1807, yn briod â Mary, a oedd yn enedigol o Lundain, ac ar gyfrifiad 1851 rhestrir eu plant fel Elizabeth (15), Frederick (14), Mary (11), a Jane (6). Ar wefan 'familysearch' ceir cofnod bedyddio'r plant: Elizabeth ar 18 Gorffennaf 1835, Frederick ar 10 Gorffennaf 1836, Mary ar 6 Rhagfyr 1840 a Jane ar 11 Awst 1844.

Mae'n ymddangos fod mam Harriet yn hanu o sir y Fflint. Ar gofnod cyfrifiad 1851 ar gyfer y Wool Pack, Shoemaker's Row, Caer, gwelir Harriet Ann Porter 11 mlwydd oed gyda'i mam weddw Ann, tafarnwraig 50 mlwydd oed a aned ym mhlwyf Hanmer, sir y Fflint, a Mary Porter, chwaer 9 mlwydd oed Harriet. Priododd Ann Porter â Robert Smith yn 1852 ond erbyn dyddiad cyfrifiad 1861 roedd Ann yn wraig weddw am yr ail dro ac roedd ei mab 24 mlwydd oed, Thomas Porter, Bragwr, yn byw gyda hi yn y Wool Pack.

Teiliwr 24 mlwydd oed oedd Frederick Green adeg cyfrifiad 1861, yn cyflogi dyn a dau fachgen, ac roedd Harriet Ann ei wraig yn 21. Bedyddiwyd eu plant Thomas Porter Green ar 9 Chwefror 1862 yn Farndon, Caer; Frederick Phillip Green ar 10 Ebrill 1864 yn Eglwys St Oswald, Caer; Annie Green ar 22 Ebrill 1866 yn Eglwys St John, Caer; Harriet M. Green ar 30 Awst 1868 yn Eglwys St Oswald, Caer; Helena Susan Green ar 5 Mawrth 1871 yn Eglwys St Oswald, Caer; a John Charles Green ar 9 Mai 1875 yn Eglwys St Oswald, Caer. Ar gyfrifiad 1871 roedd Thomas Porter, 9 mlwydd oed, a Frederick Phillip, 7, mewn ysgol yn ardal St Pancras, Llundain, lle'r oedd eu hewythr Thomas M. Green yn brifathro.

Erbyn cyfrifiad 1881 roedd Frederick Green tad John Charles wedi marw – wedi boddi yn Afon Dyfrdwy yn ôl y sôn – a chofrestrwyd ei farwolaeth yn 40 mlwydd oed yn ystod chwarter Mehefin 1876 yn ardal cofrestru swydd Gaer. Priododd ei weddw Harriet Ann Green â John Holt ar 6 Awst 1877 ym Mrymbo, sir

Ddinbych, ac ar gyfrifiad 1881 gwelir y teulu yn byw yn Dongray Hall, Bangor Is-coed:

John Holt Penteulu Priod 50 Ffermwr 118 erw yn cyflogi 2 ddyn wedi ei eni yn Bury, swydd Gaerhirafryn

Harriett [sic] A. Holt Gwraig briod 41 wedi ei geni yng Nghaer, swydd Gaer

Thomas G. Holt Mab 15 wedi ei eni yn Gravesend, swydd Gaint

Rosina J. Holt Merch 13 wedi ei geni yn Gravesend, swydd Gaint

Harriett [sic] M. Green Llysferch 12 wedi ei geni yng Nghaer, swydd Gaer

Helena Susan Green Llysferch 10 Ysgolor wedi ei geni yng Nghaer, swydd Gaer

Mary Amelia Holt Merch 9 Ysgolor wedi ei geni yn Gravesend, swydd Gaint

John M. Holt Mab 8 wedi ei eni yn Gravesend, swydd Gaint

John Charles Green Llysfab 6 wedi ei eni yng Nghaer, swydd Gaer

Gertrude Holt Merch 5 wedi ei geni yn Gravesend, swydd Gaint

Louisa H. Holt Merch 1 wedi ei geni ym Mangor Is-coed, sir y Fflint

Gyda'r teulu yn ogystal roedd yna Thomas Porter, gŵr gweddw, lletywr a thafarnwr wedi ymddeol 44 mlwydd oed a aned yng Nghaer – brawd Harriet mae'n siwr.

Yn ei lyfr, *Pethau Patagonia*, mae Fred Green yn adrodd hanesyn teuluol sy'n dweud mai llysfrawd i'w dad John Charles Green oedd wedi bwriadu mynd i Batagonia, ond ryw bythefnos cyn i'r llong hwylio fe ddiplannodd. Roedd Harriet, y fam, yn poeni am yr arian a wariwyd ar y tocyn teithio a'r holl drefniadau ac felly penderfynodd John Charles Green fynd yn lle ei lysfrawd. Credai Fred mai tua 1887 yr ymfudodd ei dad i'r Wladfa, pan fyddai ei dad tua 13 mlwydd oed. Yn sicr, ar gofnod cyfrifiad 1891 ar gyfer rhif 8 Cromwell Road, Llundain, nid yw John Charles Green yn ymddangos gyda'i fam, ei llystad, ei chwaer Annie Green, 25 mlwydd oed (a oedd yn ysgolfeistres), a dwy hanner chwaer – Louise (11) a Lizzie Holt (9). Bu farw John Holt yn chwarter Mehefin 1910 yn ardal cofrestru West Ham, Llundain, yn 80 mlwydd oed, ac erbyn adeg cyfrifiad 1911 yr oedd Harriet Ann Holt (ei weddw), Louisa Hankey Holt (gwniadwraig), a Lizzie Holt (29 oed) yn byw yn rhif 54 Tudor Road, Upton Park, East Ham, Llundain. Bu farw Harriet Ann Holt ym mis Mawrth 1925 yn ardal cofrestru West Ham, Llundain, yn 85 mlwydd oed.

Yn ei lyfr hefyd dywed Fred Green fod perthynas yn byw yn y Wladfa cyn i'w dad ymfudo yno; Saesnes oedd honno, Elizabeth Jones (gynt Green), gwraig y Parch.

David Lloyd Jones. Priododd Elizabeth Green a David Lloyd Jones yn ardal Great Broughton, Caer, yn ystod chwarter Medi 1858. Wedi iddo gyrraedd Patagonia aeth John Charles Green i weithio ar eu fferm, ac ar gyfrifiad Chubut yn 1895, cofnodir David Lloyd Jones 62 mlwydd oed, Ynad Heddwch; Elizabeth Lloyd Jones ei wraig 60 mlwydd oed, Saesnes a oedd wedi bod yn briod am 37 o flynyddoedd a chael 6 o blant; Gertrude Holt, merch sengl 19 mlwydd oed, Saesnes a morwyn – rhaid mai hanner chwaer John Charles oedd hon; May Tyndale, 6 oed, wedi ei geni yn Chubut yn yr Ariannin; Luther Lloyd Jones, Sais, 27 oed, Ffermwr; a ‘Carlos Green’ (h.y. John Charles Green), gŵr sengl 20 mlwydd oed a Ffermwr. Yng nghofnod cyfrifiad 1871 ar gyfer 11 Record Street, Rhuthun, dywed Elizabeth (neu Lizzie) Lloyd Jones iddi gael ei geni ym mhentref Threapwood, swydd Gaer, ac ar gyfrifiad Threapwood yn 1861 fe’i gwelir yn 15 mlwydd oed gyda’i rhieni Thomas Green, 44, ‘Master Taylor’, a’i wraig Mary, 46, ei brawd Frederick, 14, a’i chwiorydd Mary, 11, a Jane, 6. Mae hyn y golygu bod Elizabeth Lloyd Jones yn chwaer i Frederick Green, tad John Charles Green. Yr oedd Thomas Green wedi priodi Mary Massey yn Eglwys St Peter, Caer, ar 13 Hydref 1834, ac yn *Cien atuendos y un sombrero: moda y familia en Chubut desde 1859 a 1939* cyfeiria Albina Jones de Zampini at Elizabeth fel ‘Lizzie Massey Green’.

Ymhen rai blynyddoedd llwyddodd John Charles Green i gael llain o dir a elwir yr *Estancia la Primavera* – Fferm Cwm y Gwanwyn – ger Rhyd yr Indiaid. Yn 1899 cododd dŷ bychan yno a phrynu wagenni i gludo gwlân a chrwyn i’r farchnad, ac yn ddiweddarach prynodd fferm arall yn Nrofa Dulog, Dyffryn Camwy. Yn 1912 priododd Gwenonwy Berwyn a ganed eu mab Frederick y flwyddyn ganlynol. Pan oedd Fred yn chwe mis oed, gadawodd John ei wraig a’i blentyn yn yr Andes yng ngofal William Lloyd Jones, Glyn, brawd Richard Jones Berwyn, tad Gwenonwy, ac aeth ar daith i Ddyffryn Camwy. Yr oedd teiffws yn ferw yn y Dyffryn ar y pryd a thrawyd John Charles Green â’r clefyd, ac er pob gofal bu farw ar 18 Chwefror 1914; dywed Fred, ei fab, yn *Pethau Patagonia*, ei fod yn saith mis oed y diwrnod y bu farw ei dad.

Cymraeg oedd iaith yr aelwyd – yr oedd ei dad John Charles Green wedi dysgu Cymraeg a mynychai Capel Seion Bryn Gwyn. Fel ei daid Berwyn, roedd Fred Green yn mynnu siarad Cymraeg pur, ac roedd ganddo ymwybyddiaeth ddofn a gwybodaeth drylwyr o’r etifeddiaeth Gymraeg. Yr oedd ei fam, Gwenonwy, yn mwynhau ysgrifennu a chadwodd ddyddiaduron yn ogystal â llyfrau log y fferm.

Mae'r rhain yn cynnwys manylion am fywyd yn Nhalaith Chubut, yn bennaf bywyd y fferm a'r gymdeithas. Yn llyfrau log La Primavera, mae ei chyfraniadau yn Sbaeneg, gyda nodiadau hefyd gan reolwr y fferm a chyfraniadau gan ail wŷr Gwenonwy, William Christmas ('Nadolig') Jones.

Priododd Fred â Vera Griffiths yng Nghwm Hyfryd ar 8 Medi 1950 a ganed iddynt bedwar o blant: John Charles (Charlie), Elizabeth Mary, Vera Alwen ac Erik Iolo. I sicrhau y gallai ei blant ysgrifennu yn ogystal â siarad Cymraeg, anfonodd Charlie a Mary i Ysgol Tregaron am ddwy flynedd ac yn ddiweddarach aeth Erik Iolo i Goleg Amaeth Llysfasi yng Nghlwyd ac Alwen i Aberystwyth lle bu'n astudio am flwyddyn yn y Coleg Addysg Bellach. Bu Mary yn fyfyrwraig yng Ngholeg Harlech ac yna yng Ngholeg Prifysgol Abertawe, gan raddio mewn Cymraeg a Sbaeneg.

Yr oedd Fred Green yn eisteddfodwr brwd a byddai'n teithio o'r Andes i'r Gaiman a Threlew bob blwyddyn i fynychu Eisteddfod yr Ifainc ac Eisteddfod y Wladfa. Roedd ganddo wybodaeth helaeth o hanes ac arferion y gwladfawyr, ac yn ei lyfr *Pethau Patagonia*, a gyhoeddwyd yn 1984, mae'n cynnwys nid yn unig dipyn o'i hanes, a hanes ei deulu a'r bobl a adwaenai, ond ceir hefyd ddisgrifiad o dirwedd a bywyd gwyllt y fro. Roedd yn hyddysg yn hanes Cymru ond roedd ei wybodaeth am y Wladfa yn ehangach fyth. Byddai'n adrodd hanesion am yr hen wladfawyr, a gallai egluro arwyddocâd enwau fel Nant y Pysgod, Dyffryn yr Allorau, Bocs Gin ac ati. Yn ei lyfr dywed am John Daniel Evans iddo gael ei fagu ymhlith llawer o blant y Brodorion ac o ganlyniad, dysgodd eu ffordd hwy o edrych ar fywyd yn ogystal â'u ffordd hwy o farchogaeth, hela a dilyn trywydd anifeiliaid. Mae'n cynnwys yr hanes a glywodd gan Maggie Freeman de Jones o Drevelin am y daith gyda'i theulu o'r Dyffryn i'r Andes yn 1891.

Roedd Fred Green yn hyddysg mewn dulliau hela, a gwisgai fel rhyw 'gaucho soffistigedig'. Bu'n byw am flynyddoedd ar ei *estancia*, La Primavera, rhwng Trelew ac Esquel, yn ardal Rhyd yr Indiaid, cyn symud i ffermio Pennant y tu allan i Drevelin. Roedd ymysg yr ychydig o'r gwladfawyr a oedd yn medru Saesneg, a theithiai yng Nghymru ac ar Gyfandir Ewrop. Ymddiddorai mewn digwyddiadau bydeang yn wleidyddol ac ym myd busnes a darllenai yn helaeth. Fel ei fam, Gwenonwy, cadwodd Fred ddyddiaduron ac roedd hefyd yn ddarlledwr amatur brwd, fel rhai o'i blant. Gosododd drydan yn ei ffermdy, Pennant, trwy adeiladu tyrbin ddŵr ac fe'i defnyddir hyd heddiw. Gwerthir y gorgyflenwad i'r cynllun grid cenedlaethol.

Bu Frederick Green farw yn Nhrevelin ym mis Ionawr 2002 yn 88 mlwydd oed.

Cathrin Williams, 'Cofio Fred Green', Gwefan BBC Cymru/Tramor/Yr Ariannin

Cyfrifiad swydd Gaer, Llundain a sir y Fflint ar 'Ancestry': www.ancestry.co.uk

Cyfrifiad talaith Chubut 1895: Colonia Dieciséis de Octubre (Población rural) ar Y Mynegai Achyddol

Rhyngwladol ('International Genealogical Index'): <https://familysearch.org/search/collection/igi>

Y bennod ar Fred Green yn nhraethawd PhD Geraldine Lublin: 'Memoirs and identity in Welsh Patagonia: construction of Welsh Patagonian identity as reflected in memoirs written by Welsh descendants in the province of Chubut towards the end of the twentieth century'; Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, 2008

HUGHES, Hugh ('Cadfan Gwynedd'; 1824–98)

Ganed Hugh Hughes ('Hugh Hughes Cadfan' neu 'Cadfan Gwynedd') ar 20 Awst 1824 yn Nhrefdraeth, Ynys Môn, yr hynaf o ddeuddeg o blant Lewis a Jane Hughes, ond symudodd y teulu i Rostryfan yn Arfon yn 1831. Prentisiwyd Hugh yn saer coed a chododd weithdy iddo'i hun yng Nghaernarfon yn 1850. Ar gyfrifiad 1851 mae yna ŵr o'r enw Hugh Hughes, 'Joiner' 26 mlwydd oed wedi ei eni yn Nhrefdraeth, Ynys Môn, yn byw yn Patentship House, Llanbeblig, gydag ewythr, David Williams a aned yn Llangefni.

Roedd Hugh Hughes yn aelod o gymdeithas lenyddol yn nhref Caernarfon, a phan ddarllenodd gylchlythyr William ap Rees, Ysgrifennydd Cymdeithas Wladfaol Camptonville, California, at Michael D. Jones, yn awgrymu Patagonia fel gwladychfa i'r Cymry, trosglwyddodd Hughes ei frwdfrydedd ynghylch y Wladfa i'w gyd-aelodau yn y gymdeithas lenyddol. Penderfynwyd gwahodd y Parch. Michael D. Jones i annerch ar bwnc y Wladfa Gymreig mewn cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn y Guildhall, Caernarfon, ym mis Rhagfyr 1856. Bu'r cyfarfod yn llwyddiant ysgubol, a sefydlwyd Cymdeithas Wladychol Gymreig Caernarfon a'i Hamgylchoedd y noson honno. Honnodd Evan Jones, cyd-olygydd y *Pwnsh Cymraeg* yng Nghaergybi gyda Lewis Jones, mai 'Cadfan a roes glefyd y Wladfa i Lewis Jones'.

Yn 1857 symudodd Hugh Hughes i Lerpwl a bu'n Ysgrifennydd Pwyllgor Gwladfaol Lerpwl yn ddifwlch a di-dâl am nifer o flynyddoedd, yn anfon ysgrifau i'r wasg ac yn gohebu â phawb oedd â diddordeb yn y mudiad. Chwaraeodd ran allweddol yn y broses o hyrwyddo trafodaethau'r pwyllgor hwnnw gyda Llywodraeth Gweriniaeth Ariannin ac yn y penderfyniad terfynol i anfon y fintai gyntaf. Ysgrifennodd ei lyfr, *Llawlyfr y Wladychfa Gymreig*, yn cynnwys bras-gynllun o drefn yr ymfudo a disgrifiadau o'r wlad yn 1862 cyn iddo ymfudo i'r Wladfa.

Ar gyfrifiad 1861 gwelir Hugh Hughes, 'House Joiner' 36 mlwydd oed, yn byw yn rhif 28 Dinorben Street, West Derby, Lerpwl, gyda'i wraig Elizabeth 41, ei lysferch Jane Williams 18, a'i ddau fab David 7, a Llewellyn [*sic*] mis oed. Yn 1865 ymfudodd Hugh Hughes ar y *Mimosa* gydag Elizabeth, Jane, David a Llewellyn. Roedd yn y cychaid cyntaf a anelodd at y lan ar 28 Gorffennaf 1865, a dywedir iddo lamu allan ohono, y cyntaf o deithwyr y *Mimosa* i roi ei draed ar dir y wlad. Daeth yn aelod o'r Cyngor yno, yn Ustus Heddwch ac yn 1870–71 cafodd ei ethol i lywyddiaeth y Wladfa; yn y swydd hon profodd allu a dawn neilltuol fel gwladweinydd. Ar ôl i'r ffordd rhwng y Bae Newydd a Rawson gael ei gwella,

adeiladodd Hugh Hughes gert fach, yn rhannol o bren yr helyg a dyfai ar lannau'r afon. Mae'r gert ar gadw yn awr yn Amgueddfa Trerawson.

Yr oedd yn ei gynefin gyda hen draddodiadau; yn fardd, ysgrifennodd a chyfansoddodd llawer o draethodau arobryn eisteddfodau'r Wladfa yn ogystal, ac roedd ganddo yntau, fel Lewis Jones, ei orgraff arbennig ei hun. Hyrwyddodd addysg, cyfrannodd yn helaeth at ddiwylliant a llenyddiaeth y Wladfa a rhoddodd ei lais a'i esiampyl dros bopeth dyrchafol. Gwelid ef bob amser ar lwyfan eisteddfodau'r Wladfa, mewn cyfarfodydd llenyddol a dirwestol ac ati ac yn ysgol Sul y Trefnyddion Calfinaidd yng nghapel Berwyn ar fryn Caer Antur. Cafodd ei siomi gan helyntion cynnar y Wladychfa ac enciliodd yn rhannol o'r 'Wleidyddiaeth Gartrefol' fel y'i gelwid.

Bu farw ar 7 Mawrth 1898 yn 64 mlwydd oed. Gorchmynnodd Rhaglaw Tiriogaeth Genedlaethol Chubut, Dr Eugenio Tello, i ddydd angladd Hugh Hughes Cadfan fod yn ddiwrnod galar ledled y diriogaeth, ac roedd yr heddlu i orymdeithio yn eu lifrai y tu ôl i'w weddillion. Dyma'r unig dro i Lywodraeth Chubut anrhydeddu un o'r hen wladfawyr yn y modd hwn, sy'n arwydd o'r parch mawr oedd iddo ac yn gydnabyddiaeth haeddiannol i'w rôl allweddol fel ysbrydoliaeth y mudiad gwladfaol ac fel Llywydd olaf y Wladfa.

'Hugh Hughes, Cadfan Gwynedd' yn y gyfres 'Atgofion Gwladfaol. Marwolion Anfarwol y Wladfa', *Y Drafod*, 22 Mawrth 1935

HUMPHREYS, Lewis (1838–1910)

Roedd Lewis Humphreys yn un o efeilliaid a aned i Robert a Mary Humphreys, Cae'n-y-coed, Y Ganllwyd (ger Dolgellau) ym mhlwyf Llanfachreth ar 27 Mawrth 1838. Ar gyfrifiad 1841 gwelir Lewis Humphreys yn byw gydag ewythr a modryb, Lewis ac Elinor Morris, mewn tŷ o'r enw Cae'n-y-coed ond fe'i cofnodir dan yr enw 'Lewis Robert' yn dilyn yr hen ddull Cymreig o ddefnyddio enw bedydd y tad fel cyfenw. Ar gyfrifiad 1851, a Lewis Humphreys yn 13 mlwydd oed, yr oedd yn dal i fyw gyda'r un ewythr a modryb yn Bwlchrhoswen Isaf ym mhlwyf Llanfachreth.

Mewn erthygl a gyhoeddwyd yn rhifyn 29 Mai 1939 o'r *Drafod* honnir fod Lewis Humphreys wedi cael ei brentisio'n siopwr, ond nid oedd yn ei elfen gyda'r gwaith. Torrodd diwygiad 1859 allan pan oedd Lewis tua 21 mlwydd oed a dechreuodd siarad yn gyhoeddus. Fe'i argymhellwyd i fynd i'r coleg a bu'n fyfyrwr yn Athrofa'r Annibynwyr yn y Bala dan y Parch. Michael D. Jones. Cafodd Lewis Humphreys ei urddo'n weinidog yn 1865, ac yn yr un flwyddyn ymfudodd i Batagonia ar y *Mimosa* gyda'i efaill Maurice.

Lewis Humphreys oedd athro ysgol gyntaf y Wladfa ond dychwelyd i Gymru yn 1867 i adfer ei iechyd – roedd yn dioddef o anhwylder yn ei wddf oedd wedi amharu ar ei lais fel nad oedd yn gallu pregethu. Wedi iddo wella, gwasanaethodd fel gweinidog yng Nghwm-twrch, Myddfai ac Abercannaid rhwng 1869 ac 1886 pryd y dychwelodd i'r Wladfa.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghymru, anfonodd adroddiad at Ysgrifennydd Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladfa Gymreig yn cwyno am yr anwireddau a gyhoeddwyd am y Wladfa ym mhapurau Prydain. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn rhifyn 6 Rhagfyr [1867] o'r *Liverpool Weekly Mercury*. Mae'n canmol yr hinsawdd iachus yno ac yn priodoli salwch rhai o'r sefydlwyr yn ystod yr wythnosau cynnar wedi iddynt lanio i flinder yn deillio o gludo a threfnu nwyddau trymion, a gadael i'w dillad gwlyb sychu ar eu cefnau. Dywed nad oedd diffyg traul, cur pen, y ddannodd, annwyd na'r diciâu ar gyfyl y lle, ac roedd sawl person wedi cysgu dan y sêr yng nghanol gaeaf heb ddioddef niwed. Serch hynny, mae'n cyfaddef fod y mwyafrif wedi dioddef o'r llwg, a rhai o gornwydydd, oherwydd eu dibyniaeth ar gig hallt yn ystod y fordaith. Daethpwyd o hyd i sawl math o blanhigion gwyllt megis seleri gwyllt a maip, a math o datw. Mae'n disgrifio llewyrch y Wladfa pan adawodd – cynnyrch y caeau a blannwyd, digonedd o helwriaeth, pobl yn cadw gwartheg, defaid, ceffylau ac ieir, a haid o bysgod yn yr afon ac yn y bae. Mae hefyd yn adrodd hanes ymweliad y

llog ryfel *Triton* yn sgil y llythyr a anfonwyd gan rai o'r sefydlwyr at Lywodraethwr y Malfinas yn gofyn am eu trosglwyddo o'r Wladfa, a phenderfyniad y mwyafrif i aros ar lannau'r Camwy. Cyn gadael, bu criw y *Triton* yn helpu'r gwladfawyr i drwsio llong fach y Wladfa a gadawsant gasgen o sudd lemon yn anrheg.

Ar restr teithwyr y *Vesta* a hwyliodd ar 19 Mehefin 1886 gwelir enw L. Humphries [*sic*] 45 mlwydd oed ac Ann Humphries [*sic*] 40 mlwydd oed, ac er nad yw oedran Lewis yn cytuno â dyddiad ei eni yn 1838, mae'n dra phosibl mai dyma'r Parch. Lewis Humphreys a'i wraig. Ceir cofnod priodas gŵr o'r enw Lewis Humphreys â naill ai Ann Edwards neu Ann Llewellyn yn ardal cofrestru Castell Nedd yn ystod chwarter Ebrill i Mehefin 1886.

Arhosodd Lewis Humphreys ym Mhorth Madryn am beth amser wedi glaniad y *Vesta* oherwydd iddo gael ei gyflogi gan gwmni'r rheilffordd i gynnal gwasanaethau ar y Sul ar gyfer gweithwyr y rheilffordd. Ymhen tipyn symudodd i'r Dyffryn ac ymsefydlu ar dyddyn a enwodd 'Pen y dyffryn', ac yn 1903 aeth i weinidogaethu yng Nghwm Hyfryd. Yn ystod ei gyfnod yn yr Andes, ysgrifennodd erthygl, dyddiedig 10 Mehefin 1904, ar 'Ysgol yn yr Andes' sy'n sôn gan mwyaf am yr ysgol Sul yno a'r angen i wneud yr ardal yn faes cenhadu. Dywed iddo dreulio yn agos i bedwar mis yn gwasanaethu'r ddwy eglwys yn yr Andes – 'y fam yn y Cwm a'r ferch yn Esquel' – ac mai ef a sefydlodd yr eglwys yn Esquel gan ei bod yn rhy bell i'r Cymry oedd yn byw yno fynd yn aml i'r gwasanaeth yn y Cwm. Mae'n sôn bod ysgol ddyddiol yn yr Andes hefyd, ac R. O. Jones yn athro arni.

Dywedir am Lewis Humphreys ei fod yn ŵr cywir iawn, o argyhoeddiadau cryfion ac iddo ymroi i'w waith fel gweinidog yn wyneb llawer llesgedd. Bu farw yn ei gartref, Pen y dyffryn, Tir Halen ar 22 Ionawr 1910, a'i weddw Ann, a oedd yn wreiddiol o Lansawel ym Morgannwg, ar 29 Mehefin 1929 yn 85 mlwydd oed.

Y Dysgedydd, MDCCCCX, cyfres newydd rhif 89, Mai 1910

'The Welsh Settlement in Patagonia', *Liverpool Weekly Mercury*, 6 Rhagfyr [1867]; ailargraffwyd yn 'Papers Past' y *Nelson Examiner and New Zealand Chronicle* am 1867, a ddigidwyd ar gyfer eu gwefan

Erthygl ar Lewis Humphreys gan Thomas Morgan (Clydfan) ar yn y gyfres 'Hanes Gweinidogion y Wladfa' a gyhoeddwyd yn y *Drafod*. ar 29 Mai 1939

HUNT, Edmund Freeman (1858–1938)

Dywedir i Edmund Freeman Hunt gael ei eni yn Llanerchgron, Pwll-glas, ger Rhuthun ar 27 Mawrth 1858. Yr oedd ei dad, Edmund, yn fab i Freeman Hunt ac Elizabeth (gynt Lewis), Y Plas, Tre'r-Ilan; fe'i ganed yn 1827 ym mhlwyf Helygain, sir y Fflint a bu farw yn Nhŷ Isa'r Cefn, Clocaenog Isa, yn 1860 yn 33 mlwydd oed. Un o blwyf Efenechdyd oedd Anne (Edwards), mam Edmund Freeman Hunt; yn sicr ar gyfrifiad 1861 roedd Anne yn wraig weddw 39 mlwydd oed yn byw yn Nhŷ Isa'r Cefn, Clocaenog Isa, gyda Margaret Elizabeth oedd yn bump ac Edmund teirblwydd oed. Ar gyfrifiad 1871 gwelir Anne Hunt, gweddw 49 mlwydd oed, Margaret E[lizabeth] yn 15 ac Edmund 13 mlwydd oed, yn byw yn Llanerchgron Ucha, cartref Edward Edwards, tad Anne, gŵr gweddw 94 mlwydd oed, ffermwr ar hanner can erw a oedd yn enedigol o'r Ro-wen, sir Ddinbych.

Ar 17 Rhagfyr 1879, ac yntau'n 21 mlwydd oed, priododd Edmund Freeman Hunt a Jane Morris yn Eglwys St Michael, Toxteth Park, Lerpwl. Ceir cofnod o'r teulu'n byw yn 14 Clwyd Street, Rhuthun, ar gyfrifiad 1881 – Edmund F., 'Publican' 23 mlwydd oed, Jane yn 24 ac wedi ei geni ym mhlwyf Llanfwrog, a'u mab blwydd oed, John E. Yn 1891 roedd John E. 11 mlwydd oed, a'i chwaer fach 9 mlwydd oed, Jane A. yn byw yn 12 Market Street, Rhuthun, gyda rhieni eu mam: John Morris 63, saer maen ac adeiladydd, Anne ei wraig 62, a'u mab, William D. Morris 19, saer maen. Dywed gor-wyresau Edmund Freeman Hunt fod Edmund a Jane wedi gadael am Batagonia gan roi'r plant yng ngofal rhieni Jane am eu bod mor ifanc, ond bod Jane wedi dioddef pylau o hiraeth ac wedi dychwelyd i Gymru. Ni chafwyd hyd i unrhyw wybodaeth amdani ar ôl cyfrifiad 1881, na chofnod o'i marwolaeth.

Gwyddys i E. F. Hunt gyrraedd Dyffryn Camwy tua 1886 a datblygodd cyfeillgarwch rhyngddo â'r Cacique (pennaeth y llwyth), Juan Nahuelquir Chiquichano. Treuliodd Gregorio, un o feibion hwnnw, rai blynyddoedd yng nghartref E. F. Hunt a mynychu Ysgol Tŷ Gwyn nepell o Drerawson a gyfrifwyd yr orau yn yr ardal, lle bu Edmund yn athro am tua 30 mlynedd. Yr oedd Edmund Freeman Hunt yn ddyn goleuedig; daliai swyddi cyfrifol yn yr CMC a'r Cwmni Dyfrhau Unedig, yn ogystal â bod yn gynghorydd ac yn Llywydd Trerawson yn 1890 a 1900, yn gyfrannwr cyson i'r *Drafod* ac yn olygydd y papur ar un adeg. Yn hynafiaethydd, roedd gan E. F. Hunt ddiddordeb byw yng Ngŵyl y Camarwcos, cynulliad o'r Mapuchos, a'r defodau, a gwnaeth astudiaeth o'r Brodorion hynny. Yn ogystal, ysgrifennodd gyfres o fonograffau a fwriadwyd ar gyfer llyfr ar fordeithiau i

Batagonia, ac adroddiad ar daith hela morloi y bu arni o gwmpas arfordir Patagonia. I gydnabod ei waith ym myd addysg, ac i sicrhau nad âi ei enw'n angof, penderfynodd Cyngor Tref Rawson ym 1975 enwi un o faestrefi'r dre ar ei ôl. Bu farw Edmund Freeman Hunt ar 11 Awst 1938 yn 80 mlwydd oed.

Ni lwyddwyd i ganfod pryd y priododd Edmund Freeman Hunt ac Ellen Ann Jones yn y Wladfa ond ganed tri o feibion iddynt – Freeman (c. 1888), Edward Moses (c. 1889) a Henry Dyson (c. 1891). Bu Henry Dyson Hunt farw ym mis Awst 1913 yn 23 oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Capel Moriah, ac ar 26 Gorffennaf 1915 bu farw Ellen A. Hunt yn 48 mlwydd oed. Fe'i claddwyd mewn bedd wrth ochr ei mab ym mynwent Capel Moriah. Gwirfoddolodd mab arall, Freeman, yn filwr gyda'r fyddin a godwyd yn Awstralia i gynorthwyo Prydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac fe'i hanfonwyd i frwydro yn yr Aifft, lle yr honnir iddo gael ei anafu'n ddrwg ym mis Awst 1915. Yn rhifyn 27 Awst 1915 o'r *Drafod* cyhoeddwyd llythyr a anfonodd adref o faes y gad at ei rieni. Priododd Freeman ag Ethel Robinson yn ardal cofrestru St George, Hanover Square, Llundain, yn 1916, a dychwelyd i Awstralia lle ganed dwy ferch a dau fab; galwyd y mab cyntaf yn Edmund Freeman a'r llall yn Edward Moses. Ymunodd Edmund, mab Freeman ac Ethel, â Llu Awyr Awstralia yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac fe'i lladdwyd ar 30 Mehefin 1942 yn 20 mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent SS Peter & Paul, Shelford, swydd Nottingham. Priododd ei frawd, Edward Moses Hunt, a aned yn 1924, â Valmae Ruth Walters yn 1949.

Bu Freeman Hunt, mab hynaf Edmund F. Hunt ac Ellen Ann Jones farw yn Sydney, Awstralia, ar 28 Mehefin 1968 yn 80 mlwydd oed.

Bu Edward Moses Hunt, ail fab Edmund Freeman Hunt ac Ellen, yn gweithio i Gwmni Masnachol y Camwy yn Esquel. Yn 1924 priododd Sarah Ann Harris, merch John Harris a'i wraig, Fferm y Gelli, Tair Helygen, a ganed merch iddynt yn 1927.

Dywed disgynyddion Edmund Freeman Hunt a Jane Morris, ei wraig gyntaf, y byddai Edmund yn dychwelyd i Brydain yn achlysurol i ymweld â'i blant o'i briodas â Jane, ac yn dyst i hynny, mae ei enw'n ymddangos ar restrri teithwyr i'r Ariannin ar yr *Almanzora* yn 1922, 1926 a 1928.

Bu mab hynaf Edmund Freeman Hunt a Jane, John Edmund (1880–23 Ionawr 1958), yn rheolwr siop groser ym Mangor; priododd Hannah Valentine (1887–16 Ionawr 1966) yn 1910 a ganed tri o blant – Idris V. Hunt (1911–16 Rhagfyr 1986), Mair Eluned (1912–1940) a Meuric Edward (g. 1916). Roedd Idris yn Bennaeth Adran Hwsmonaeth Gwelltiroedd Coleg Amaethyddol Gorllewin yr Alban.

Priododd Jane Ann Hunt, merch Edmund Freeman Hunt a Jane Morris â David Ellis Roberts yn 1906 a chael pedwar o blant: Muriel Hunt (1907–2001), Robert E. (g. 1912), David G. (g. 1916) ac Aneurin Hunt (1920–1986).

Cofnod coffa Edmund Freeman Hunt yn *Y Drafod*, Awst 1938

Gwybodaeth ychwanegol gan Natalia McKenzie ac aelodau eraill o'r teulu

Llsgwr LIGC 9655D: Llythyrau Edmund Freeman Hunt o Lundain at Mihangel ap Iwan

JONES, Lewis (1837–1904)

Ganed Lewis Jones, yr arloeswr, argraffydd a llenor, ar 30 Ionawr 1837 yn Pool Lane, Caernarfon, yn fab i Stephen Jones a Margaret, gynt Morgan. Ar gyfrifiad 1851 o dan 96 Pool Lane, ym mhlwyf Llanbeblig, ceir fod ei fam Margaret yn wraig weddw 39 mlwydd oed ac yn ‘Skinner’. Yr oedd Lewis yn ‘Printer’ 14 mlwydd oed, ei frawd John yn ‘Scholar’ 8 mlwydd oed a’r brawd bach, Stephen, yn 4.

Aeth Lewis i fyw i Gaergybi ac fe’i disgrifir ar gyfrifiad 1861 fel ‘Publisher Printer Employer of 1 man and 1 boy’ 23 mlwydd oed. Yno bu’n cyd-olygu’r *Pwnsh Cymreig* gydag Evan Jones. Aeth oddi yno i weithio yn Lerpwl, lle daeth yn un o brif arweinyddion mudiad gwladfaol Michael D. Jones. Cafodd ei anfon gyda’r Capten Love Jones-Parry i archwilio Patagonia yn 1862; archwiliodd yr ardal wrth geg yr afon a fedyddiodd â’i henw Cymraeg. Cynhaliodd drafodaethau gyda Guillermo Rawson, y Gweinidog Cartref, ac ar sail yr adroddiadau, clustnodwyd Dyffryn Camwy ar gyfer sefydlu’r Wladfa Gymreig.

Lewis Jones oedd Llywydd cyntaf y Wladychfa hyd at yr anghytundeb a’i cymerodd i Buenos Aires am ddwy flynedd. Yn ystod ei gyfnod yn y brifddinas, bu’n gweithio fel argraffydd ar y *Buenos Aires Standard*. Dychwelodd i’r Wladfa yn 1867 ac o hynny ymlaen chwaraeodd ran amlwg yng ngweinyddiaeth y Wladychfa. Brwydrodd dros hawliau’r gwladfawyr yn erbyn agwedd rodresgar swyddogion apwyntiedig y Llywodraeth ganolog, a rhoddodd oes o wasanaeth ymroddedig i’r Wladfa y gweithiodd mor galed i’w sefydlu. Bu’n hyrwyddo addysg, diwylliant a llenyddiaeth a bu’n *comisario* ym Mhatagonia dros Lywodraeth Ariannin am gyfnod byr – yr unig Gymro erioed i ddal y swydd. Roedd yn ddolen gyswllt gyda’r mwyaf dylanwadol rhwng y Cymry a’r awdurdodau ym Muenos Aires ac yr oedd yn gyfrifol ar y cyd ag Edward Jones Williams a Thomas Davies am sicrhau fod rheilffordd yn cael ei hadeiladu rhwng Porth Madryn a Dyffryn Chubut. Yn gynnar yn y 1860au yr oedd Lewis Jones wedi trafod y posibilrwydd o adeiladu rheilffordd ym Mhatagonia a fyddai’n cysylltu’r ddau gefnfor mawr, ac fe geir sylw yn ei ddyddiadur am 1882 sy’n dangos fod angen cael rheilffordd i gysylltu Bae Newydd â’r sefydliad newydd a enwyd yn Rawson. Safai’n gadarn o blaid hawliau’r Cymry yn wyneb agwedd rhes o swyddogion diamynedd ac anwybodus a weithredai fel llywodraethwyr y sefydliad. Carcharwyd ef ynghyd ag R. J. Berwyn am ddeng niwrnod yn Rhagfyr 1882 o ganlyniad i anghydfod rhwng y gwladfawyr a swyddog lleol y wladwriaeth

Daeth â gwasg argraffu i'r Wladfa o Buenos Aires a chychwynnodd ddau bapur newydd, sef *Ein Breiniad* yn 1878, a'r *Drafod* yn 1891, a chyda Zacharias Jones prynodd ail felin y Wladfa oedd yn cael ei throï ag ager. Ymhen blynnyddoedd, gwerthodd Elizabeth, gweddw Zacharias, y felin i'w brawd, John Daniel Evans, ac aeth ef â hi i fyny i Gwm Hyfryd. Yn ystod ei ymweliad â Chymru yn 1885 bu Lewis Jones yn annerch Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion a chyhoeddwyd ei ddarlith yn ddiweddarach. Cyhoeddwyd ei lyfr *Hanes y Wladfa Gymreig: Tiriogaeth Chubut, yn y Weriniaeth Arianin, De Amerig* yn 1898. Yn 1896 teithiodd i Gwm Hyfryd ar ran cwmni'r rheilffordd (Ferrocarril Central del Chubut) i chwilio am dir addas, a chyflogodd John Daniel Evans i'w dywys hyd at Lyn Fontana.

Bu Lewis Jones yn arweinydd dewr yn y Wladfa am 35 mlynedd, ond torrodd ei galon pan ddfethwyd y Dyffryn gan y gorlif yn 1899. Bu farw ar 24 Tachwedd 1904 yn 68 mlwydd oed. Ei ymffrost pennaf oedd ei fod yn Gymro ac yn wladfawr. Enwyd Trelew o barch iddo.

Priododd Lewis Jones ag Ellen Griffith, ail blentyn Owen a Mary Griffith, Druid House, Caergybi, ar 29 Awst 1859 yn Eglwys Sant Cybi, Caergybi. Roedd eu plentyn cyntaf, merch a aned yng Nghaergybi ar 1 Mehefin 1862, yn farw-anedig a bu farw ei hefaill, Llewellyn Griffith, ar 25 Mawrth 1863 a'i gladdu ym Mynwent Smithdown Lane, Lerpwl, ar 30 Mawrth 1863. Ganed Myfanwy Ruffudd yng Nghaernarfon ar 1 Ebrill 1866 ac Eluned Morgan yn ystod mordaith i Batagonia ar 20 Mawrth 1870. Bu Eluned Morgan yn cysodi a golygu'r *Drafod* am gyfnod tra oedd ei thad ym Muenos Aires, ac roedd yn awdures o fri. Cyfrannodd draethodau i gystadlaethau Eisteddfod y Wladfa ac i *Cymru* O. M. Edwards, a chyhoeddwyd pedwar llyfr ganddi – *Dringo'r Andes, Gwymon y Môr, Ar Dir a Môr a Plant yr Haul*.

'Lewis Jones' yn y gyfres 'Atgofion Gwladfaol. Marwolion Anfarwol y Wladfa', *Y Drafod*, 2 Hydref 1934

LIGC 12198-9A, Dyddlyfrau Lewis Jones

Lewis Jones a'r Wladfa Gymreig, Dafydd Tudur (Penrhyn-coch : Cymdeithas Cymru-Ariannin, a Chyngor Gwynedd, 2005)

JONES, Robert (1840–1912)

Ganed y Parchedig Robert Jones yn 1840 yn Nhreuddyn, sir y Fflint, mewn lle a elwir Coedtalon. Gwelir Robert Jones o'r enw a'r oedran cywir ar gyfrifiad Treuddyn yn 1851: John Jones 47 mlwydd oed, Lucy 51, Ellis 22, John 21, Robert 11, a 'P' blwydd oed, ond does dim sicrwydd mae dyma deulu'r Robert Jones dan sylw. Dywedir i Robert fynd i fyw at Mr George Jones, Y Ffrith, pan oedd yn ifanc ac yno y gwreiddiwyd ef yn y ffydd Gristnogol a chael ei dderbyn i gymundeb y Methodistiaid Calfinaidd pan oedd tua 15 mlwydd oed. Dechreuodd bregethu yn 1863 ac ar ddechrau 1864 a dywedir iddo ddod yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd. Symudodd i Wigan, wedyn i Bontybotgin yn sir y Fflint, a bu'n gwasanaethu yng Ngellifor, Rhualt a Threuddyn. Ar gyfrifiad trefgordd Maen Efa ym mhlwyf sifil Tremeirchion (Dynmeirchion yn y cofnod) yn 1881 rhestrir Robert Jones, 40, yn ffermwr ar 16 erw, ei wraig Hannah yn 36 ac wedi ei geni yn Llangadwaladr, Joseph yn 6, wedi ei eni yng Nghoed-llai, Robert J. yn 4 ac Elizabeth A. yn ddyflwydd, y ddau wedi eu geni yn Llangynhafal, a Hannah J. naw mis oed a aned yn ardal Tremeirchion. Aeth y teulu i Batagonia yn 1890.

Bu dyfodiad Robert Jones i'r Wladfa o fantais fawr i Seion, capel y Methodistiaid Calfinaidd ym Mryn Gwyn. Yn ogystal â chynnal oedfaon ar y Sul, dechreuwyd cynnal seiat ar nos Fercher, cyrddau gweddi cenhadol ar nos Lun cynta'r mis, cyrddau hyfforddi'r plant ar gyfer eu derbyn yn aelodau, y Gobeithlu a'r Gymdeithas Ddirwestol. Dyma'r adeg y daeth y Gymdeithas Lenyddol i fri, ac y cynhelid cyngherddau amrywiol, cyfarfodydd cystadleuol, cymdeithasau dadlau ynghyd â darlithoedd ar wahanol faterion, a bu'r ysgol Sul yn llewyrchus.

Yn nheyrnged W. E. Williams iddo yn rhifyn 7 Chwefror 1913 o'r *Drafod*, cyfeirir nid yn unig at ddawn Robert Jones fel pregethwr ond at ei ddoniau fel darlithydd ac ymgomiwr a'i 'gyflawnder o hanesion difyrus ac adeiladol, rhan fwyaf am hen bregethwyr Cymru'. Roedd yn golled fawr i gapel Seion, Bryn Gwyn, pan aeth i Buenos Aires am driniaeth lawfeddygol a marw yno ddechrau Rhagfyr 1912 ar ôl dwy flynedd ar hugain o wasanaeth ym Mryn Gwyn. Bu farw ei wraig yng nghartref eu mab, Joseph, ar 7 Rhagfyr 1928 yn 85 mlwydd oed.

Ar ddydd Calan 1920, dadorchuddiwyd cofgolofn hardd a drud, rhodd gan eglwys a chynulleidfa Bryn Gwyn, i goffadwriaeth y diweddar Barch. R. Jones 'fu'n oleuad ac addurn y gymdogaeth am gryn chwarter canrif', a honnwyd fod ei ddylanwad yn parhau yr adeg honno ym mywyd crefyddol yr ardal a gweddill y

Wladfa. Ymgasglodd cynulleidfa luosog o amgylch y golofn ar y lawnt o flaen capel Seion ym Bryn Gwyn i weld mab y Parch. Robert Jones, sef y Parch. Robert John Jones, a oedd ei hun yn dechrau fel gweinidog ar y capel y diwrnod hwnnw, yn dadorchuddio'r golofn o lithfaen tywyll talaith Buenos Aires, o waith E. Genovese.

Blwyddiadur y Methodistiaid Calfnaid 1914

'Myfyrdodau am y diweddar Barchedig R. Jones, Bryn Gwyn', *Y Drafod*, 3 Ionawr 1913

'Er cof am y diweddar Barch. R. Jones', *Y Drafod*, 7 Chwefror 1913

'Y diweddar Barch. Robert Jones' gan y Parch. George Jones, Sychdyn, *Y Drafod*, 14 Mawrth 1913

Eitem ar ddadorchuddio'r gofeb i'r Parch. Robert Jones, *Y Drafod*, 9 Ionawr 1920

Erthyglau a llun o Dystysgrif Ordeinio'r Parch. Robert Jones yn *CAMWY*, rhifyn 11 : *Centenario de la Capilla Seion de Bryn Gwyn (El Regional, Rawson, Awst 1988)*

Cyfrifiad 1851 Treuddyn a Man Efa, Dynmeirchion [*sic*] 1881

MALIPHANT, William (1854–1920)

Cafodd William Maliphant ei eni ar 17 Ebrill 1854, yn fab i John William Maliphant (cyn 1815–4 Ebrill 1878) a'i wraig Ann Evans (16 Hydref 1814–18 Tachwedd 1858). Priododd William Maliphant ag Ann Thomas yn 1879 a ganed eu merch gyntaf, Mary Ann, ar 3 Medi yr un flwyddyn, ond bu'r fechan farw ar 17 Ionawr 1882. Ar gyfrifiad 1881 gwelir y teulu bach yn byw yn Water Street, Cydweli; roedd William yn saer maen 26 mlwydd oed, Ann ei wraig yn 27, a Mary A. yn flwydd oed, ac roedd rhieni Ann, William Thomas, morwr di-waith 67 mlwydd oed ac Ann Thomas, 63 mlwydd oed, yn byw gyda nhw.

Ganed Lizzie Rebecca Maliphant, merch arall William ac Ann Maliphant, ar 20 Medi 1881 ond bu farw'r fam ar 28 Awst 1897. Yn 1908 priododd Lizzie Rebecca Maliphant â David Iâl Jones (mab John Eryrus Jones ac Anne Harrison a ymfudodd i'r Wladfa yn 1886) a buont yn byw yng Nghydsweli nes i David Iâl penderfynu dychwelyd i Batagonia yn 1912. Hwylodd y teulu ar y *Potosi* – David Iâl, ei wraig Lizzie Rebecca, eu tri phlentyn a William Maliphant ei dad yng nghyfraith.

Cafodd Lizzie Rebecca a Dafydd Iâl naw o blant - Ynyr (hen lanc), Valmai (briododd Harold Jones), Hefin (briododd (1) Isabel Peralta a (2) Adelina Narducci), Alba (a fu farw'n chwe wythnos oed), Olga (fu farw'n 20 mlwydd oed), Gloria (fu farw ar ei genedigaeth), Valeira efaill Gloria (briododd Orlando Oscar Puw), Aeron (briododd Thomas Einion Roberts) ac Albina briododd Virgilio Francisco Zampini.

Mae Albina Jones de Zampini wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy i hanes teuluoedd y Cymry a aeth i Batagonia gyda'i llyfrau, *Reunión de familias en el Sur* (dwy gyfrol) a *Cien Atuendos y un Sombrero*. Ei chwaer, Valmai Jones, oedd awdur *Atgofion am y Wladfa*.

Bu William Maliphant farw ar 1 Hydref 1920, Lizzie Rebecca Jones ar 7 Ebrill 1961 a David Iâl Jones ar 16 Hydref 1962.

MATTHEWS, Abraham (1832–99)

Ganed Abraham Matthews, mab i John Matthews ac Ann Jones, ym mis Tachwedd 1832 yn Llanidloes a chofnodir ei fedyddio yn Eglwys y Plwyf, Llanidloes, ar 15 Mai 1833. Dywed Abraham iddo gael ei roi i'w fagu yn wyth niwrnod oed i Edward ac Ann Lewis, ffermwyr oedd yn byw ym Mryn-du ger Llanidloes ond a symudodd i fyw ar dyddyn o'r enw Blaencwmlline ym mhlwyf Cemais ychydig wedi hynny. Cafodd fagwraeth Fethodistaidd gan ei rieni maeth a phan oedd o dan ofal ei oruchwyliwr yn ffatri Cwmlline yn ystod tair blynedd ei brentisiaeth yno. Dywed iddo 'droi at grefydd' yn 17 mlwydd oed ac ymaelodi gyda'r Annibynwyr yn Llanwnnog. Dychwelodd i Gemais yn 22 mlwydd oed am flwyddyn o addysg yn yr Ysgol Frutanaidd yno a chael ei annog gan weinidog capel Samah i ddechrau pregethu ac i fynd i'r weinidogaeth. Ar 24 Medi 1856 cofrestrodd yn fyfyrwr yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Bala, lle'r oedd y Parch. Michael D. Jones yn brifathro, ac yno y cafodd Abraham Matthews ei heintio gan ddelfryd wladfaol y prifathro.

Wedi tair blynedd o goleg, yn 1859, derbyniodd alwad gan ddau achos Annibynnol – Horeb, Llwydcoed ac Elim, Cwmdâr – ac yn ddiweddarach bu'n weinidog ar Adulam, Merthyr Tudful yn ogystal. Ar 22 Mai 1863 priododd Gwenllian Thomas, merch William Thomas a'i wraig Mary yng nghapel Ynys-gau, Merthyr Tudful, a ganed eu plentyn cyntaf, Mary Annie, ar 17 Rhagfyr 1864. Pum mis yn ddiweddarach hwyliodd Abraham, Gwenllian, Mary Annie, eu morwyn Mary Ann John, a John Thomas (brawd Gwenllian), ynghyd â nifer o gynulleidfa Abraham Matthews ym mlaenau'r cymoedd, i Batagonia.

Am ddeng mlynedd gyntaf y Wladfa, yn dilyn ymadawiad Lewis Humphreys a Robert Meirion Williams, Abraham Matthews oedd yr unig weinidog yno, ac yn ogystal â phregethu ar y Sul byddai'n llafurio fel y gweddill o'r gwladfawyr yn ystod yr wythnos. Ar 3 Gorffennaf 1866, a'r gaeaf ar ei anterth, cynhaliodd Abraham Matthews wasanaeth yng nghartref Maurice Humphreys ar gyfer y teuluoedd hynny oedd yn byw pellaf o'r sefydliad yng Nghaer Antur, neu Drerawson fel y'i hailenwyd. Mewn llythyr dyddiedig 2 Mawrth 1866 a gyhoeddwyd yn rhifyn 23 Mehefin o'r *Gwladgarwr*, dywed Abraham Matthews bod y gwladychwyr 'wedi gorfod byw yma er ys saith mis bellach heb ddim yn y byd ond bara sych, te a choffi, pys a reis, &c., dim tatws, dim cig ond a ddaliwn wrth hela, dim caws, dim ymenyn'.

Ar un adeg bu'n arweinydd i'r rhai a oedd am symud i Santa Fe i'r gogledd o Ddyffryn Camwy; yr oedd sibrydion gwrthwynebus am fywyd yn y Sefydliad wedi

dechrau cael eu clywed yn fuan wedi'r glaniad, a chyhuddwyd y rhai a addawodd baradwys ym Mhatagonia – Lewis Jones, Hugh Hughes Cadfan ac Edwin Cynrig Roberts – o dwyll. Roedd R. J. Berwyn, Edwin ac eraill o blaid aros yn Nyffryn Camwy am flwyddyn arall, ond barn Abraham Matthews oedd nad oedd y Dyffryn yn lle addas ar gyfer gwladychfa ac nad oedd yr amodau yn deilwng o'r gwladychwyr. Un noson tra oedd cynrychiolwyr y ddwy garfan ym Mhatagones, daeth R. J. Berwyn ar draws Abraham Matthews yn crwydro'r strydoedd mewn stad ofidus iawn. Esboniodd wrth Berwyn iddo weld Michael D. Jones mewn breuddwyd y noson gynt, a hwnnw'n bryderus ynghylch dyfodol ei Wladfa. Er nad oedd Abraham yn credu mewn breuddwydion fel arfer, roedd yn barod i roi ei deimladau personol o'r neilltu er lles y gwladfawyr ac aeth i gymodi â Lewis Jones.

O hynny ymlaen gweithiodd Abraham Matthews yn ddiplino dros y Wladfa a datblygodd yn un o arweinwyr mwyaf blaenllaw'r cyfnod cynnar. Bu'n Gadeirydd y grŵp cyntaf a ddewisodd Cyngor y Wladfa a bu'n aelod o'r Cyngor, gan chwarae rhan bwysig yn y gweithgareddau hynny a roddodd wedd drefnus a gwâr i'r Wladychfa.

Yn ystod 1873–74 bu ar ymweliad â Chymru a'r Unol Daleithiau a llwyddo i ddenu carfan arall o Gymry i'r Wladfa. Yn ystod ei ymweliad olaf â Chymru rhwng 1891 a 1894, bu'n weinidog ar gapel yn Nhreganna, Caerdydd, ac ysgrifennodd ei lyfr ar hanes cynnar y Wladfa, *Hanes y Wladfa Gymreig yn Patagonia*. Bu'n olygydd *Y Drafod* rhwng 1896 a 1899. Cafodd ei lysenwi 'Yr Esgob' a rhoddodd yr enw Parc yr Esgob ar ei gartref. Ganed pump o blant i Abraham a Gwenllian – Mary Annie (1864–1934) yng Nghymru a Rawsona (28 Medi 1869– Ebrill 1887), William John (ganed 28 Rhagfyr 1871), Henry Ward (ganed 17 Mehefin 1875) a Gwen (ganed 1877) yn y Wladfa.

Priododd Mary Annie ddwywaith; ei gŵr cyntaf oedd Arthur Woodley a chawsant saith o blant: Mary, Eloisa, Enriqueta, Alejandro, Joege a Rosa. Yn dilyn marwolaeth Arthur yn 1899, priododd Mary Annie â José Trinidad Sanchez a chael pedwar o blant, merch a thri mab. Bu farw'r mab hynaf a'r ferch yn eu babandod, gan adael ond José Dario ac Armando.

Priododd William John â Martha Price, merch i Edward Price a Ruth (gynt Williams), Bryn Gwyn, a chawsant chwech o blant – Rosa, Gwen, Ethel, Abraham, Malen ac Aida.

Priododd Gwen â Henry Evan Jones, a chanddynt wyth o blant – Rachel, Gwen Ellen, Rawson, Elizabeth Maud, Daisy Gwen, Matthew Henry (awdur cyfres o lyfrau ar hanes Trelew), Evan Llwyd and Ivano Ward.

Bu Abraham Matthews farw ar 1 Ebrill 1899 ac fe'i claddwyd ym mynwent Moriah. Yn 1949 dadorchuddiwyd cofeb iddo yng nghapel Moriah. Bu Gwenllian farw yn 1922.

David Leslie Davies, *Matthews, Morgannwg a'r Mimosa* (Penrhyn-coch: Cymdeithas Cymru-Ariannin, 2007)

Erthygl ar Abraham Matthews yn y gyfres 'Atgofion Gwladfaol. Marwolion Anfarwol y Wladfa', *Y Drafod*, 11 a 18 Ionawr 1935

MORGAN, John (1834–1914)

Mab hynaf David Morgan ac Anne (gynt James) o fferm Pwll-glas ym mhlwyf Llanfihangel Genau'r-glyn yng Ngheredigion oedd John Morgan. Fe'i ganed ar 6 Mehefin 1834 a'i fedyddio gyda'r Methodistiaid Calфинаidd yng Nghapel y Garn ar 19 Mehefin. Yr oedd ymysg y rhai a ymfudodd i'r Wladfa ar y *Mimosa*, ac yn ei lythyr at ei rieni dyddiedig 17 Tachwedd 1865 o New Bay, Patagonia, dywed ei fod yn fyw ac iach a bod llong yn y bae a oedd newydd ddod â 42 buwch gyda 35 llo, 2 darw, 6 ych, ychydig ddefaid a thua 150 pwys o nwyddau. Yr oedd yn dod ymlaen yn llwyddiannus, yr oedd y tir yn rhagorol a'r wlad yn hynod o iachus. Mae'n holi a oedd gan eraill o'r gymdogaeth awydd i 'ddyfod trosodd yma'; gallai roi llawer o gyfarwyddiadau iddynt. Cyhoeddwyd ei lythyr yn *Llythyrau a ddaethant o'r Sefydlwyr yn y Wladva Gymreig, Gweriniaeth Arianin, Deheudir America (Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladva Gymreig Cyfyngedig, 1866)*, gyda throednodyn yn esbonio fod John Morgan yn 'ddyn senl, tua 30 oed. Cafodd ei ddwyn i fyny yn ffermwr, ac yr oedd yn ddyn ieuanc sobr, diwyd a geirwir, ac yn aelod gyda'r Trefnyddion Calфинаidd yn Pen-y-garn. Yr oedd yn deall amaethyddiaeth, ac yn adnabod y tir yn drwyadl – yn gystal ag unrhyw ddyn non-scientific yng Nghymru...'

Ar ôl cyrraedd y Dyffryn yr oedd John Morgan ymysg yr wyth o wladfawyr a adawodd ar 8 Awst gyda dau geffyl pwn i yrru mil o ddefaid o Patagones.

Dioddefasant yn arw wrth groesi'r paith, ac ar un adeg teimlodd John Morgan mor lluddedig nes iddo orwedd ar y ddaear a dymuno marw. Yn y Wladfa fe'i rhoddwyd yng ngofal y stordy ac i bysgota yn y Bae Newydd er mwyn darparu bwyd i'r gwladychwyr. Gwerthwyd y pysgod am ddwy geiniog a dime (h.y. dwy geiniog a hanner yn yr hen arian) y pwys.

Gyda'i wybodaeth am amaethyddiaeth gallasai fod wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r wladychfa newydd ond dewisodd adael gyda William Davies ac eraill o'r gwladfawyr yn 1867. Ysgrifennodd lythyr dyddiedig 24 Chwefror 1867 at ei rieni o fwrdd llong fach y Wladfa a oedd wedi angori gyferbyn â Buenos Aires. 'Dyma fi wedi ffarwelio â Phatagonia ac yn ei cholffarnu mewn gair ac ymddygiad (hyd y gwelais i) fel lle anghymwys i'r Cymry...nid wyf am wadu nad oes yn nyffryn y Chupat beth tir da, ond byddai yn well gennyf un estancia yn un o daleithiau y wlad hon na'r oll.' Y pennaf achosion am y diffwythder, yn ei dyb ef, oedd yr halen yn y pridd, y sychder a'r llwydrew.

Ymsefydlodd John Morgan yn nhalaith Santa Fe a pherswadiodd y Llywodraethwr o'r angen i wneud arolwg o'r tir a'i fesur. Cafodd un o'r ffermydd, Llain 1, am ei waith a chymerodd ragor o dir wrth i rai o'r gwladfawyr adael. Yn y man, rhoddodd y gorau i ffermio a daeth yn ranshwr enwog yn yr ardal. Priododd Gymraes, Winifred Jones, gweddw Hugh Hughes, gŵr a gyrhaeddodd ardal California, Santa Fe, ar yr agerlong *Paraná* ar 24 Ionawr 1869 yn 19 mlwydd oed. Bu Hugh Hughes farw'n ŵr ifanc gan adael Winifred gyda dau o blant □ Lumley, a aned ar 22 Medi 1869, ac Eliza y credir iddo farw'n blentyn. Yr oedd Hugh wedi mynd ar daith i Ewrop i ymfyn peiriannau amaethyddol ar gyfer ei dir yn Párajó Blanco, ond yn ystod y daith adref i'r Ariannin fe'i cymerwyd yn ddifrifol wael a bu farw, a bwriwyd ei gorff i'r eigion. Ganed 5 o blant i John a Winifred □ Annie (ganed 29 Awst 1876), David (ganed 4 Gorffennaf 1877), Sophia (ganed 18 Ionawr 1879), Lydia (ganed 1 Rhagfyr 1883) a Juan. Bedyddiwyd Sophia, David ac Annie, ynghyd â Lumley Hughes, mab Hugh Hughes a Winifred, ar 11 Mawrth 1880 yn Alejandra.

Un dydd, clywodd John Morgan fod rhai Cymry newydd gyrraedd Santa Fe; roeddent wedi gadael Southampton ar agerlong yr *Oneida* ar 8 Awst 1870 a threulio cyfnod ym Muenos Aires. Pan aeth John Morgan i gwrdd â'r newydd-ddyfodiaid darganfu mai ei gefndryd o Landyfaelog oeddynt, sef David a Richard Morgan, meibion James Morgan (brawd David, tad John), gynt o Landre ac yn ddiweddarach o Landyfaelog, sir Gaerfyrddin, a'i wraig, Lydia Richards.

Bu John Morgan farw ym Muenos Aires ar 13 Chwefror 1914. O'i blant ef a Winifred, priododd ei fab Juan â Dora A. Morgan, merch ei ewythr David Morgan, a chael tri o blant – Douglas, Melba a Jackie. Arhosodd David, Lydia a Sophia yn ddi-briod. Yn 2009 anfonodd merch Douglas lythyr o Santa Fe at y Parch. W. J. Edwards, Bow Street ger Aberystwyth yn holi am hanes John Morgan cyn iddo ymfudo i Dde America.

Llythrau a ddaethant o'r Sefydhwyr yn y Wladva Gymreig, Gweriniaeth Ariannin, Deheudir America (Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladva Gymreig Cyfyngedig, 1866)

Cofnodion bedydd Capel y Garn, Pen-y-garn, Bow Street, ger Aberystwyth

MORGAN, David (1849–1933)

Ganed David Morgan, cefnder John Morgan, Pwll-glas, ar 21 Chwefror 1849 yn Llandyfaelog, sir Gaerfyrddin, yn fab i James Morgan a Lydia Richards. Ymfudodd i Santa Fe ar yr agerlong, *Oneida*, ar 8 Awst 1870 gyda'i frawd, Richard. Ar ôl cyrraedd y wladychfa Gymreig yn Santa Fe, cymerodd dipyn o amser cyn penderfynu symud i drefedigaeth Alejandra lle'r ymsefydlodd ymhen ychydig i ffermio. Roedd hefyd yn magu gwartheg, ond cafodd amser yn ogystal i ymgymryd â gwaith cymdeithasol yn Alejandra gan ddal swydd Ynad Heddwch a Phennaeth y *Registro Civil*. Bu hefyd yn Ysgrifennydd Pwyllgor yr Eglwys Fethodistaidd Efengylaidd. Bu farw 8 Mai 1933 yn 84 mlwydd oed.

Ar 5 Medi 1878 priododd Susan Alexander MacLean a aned yng Nghaliffornia, Unol Daleithiau America, a chawsant 13 o blant. Un ohonynt oedd John (Juan) Lewis Morgan a aned yn Alejandra ar 23 Hydref 1892. Bu'n ddisgybl yng Ngholeg Llanymddyfri rhwng Medi 1907 a Mawrth 1908, ac yna yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, ac mae'n bosibl iddo fynychu Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Yn ddiweddarach bu'n gweithio fel peiriannydd yn Ffowndri Thomas a Clement yn Llanelli. Chwaraeodd rygbi i *Oriental Stars* Llanelli, i Gymru yn erbyn De Affrica yn 1912 ac yn erbyn Lloegr yn 1913. Hwylodd o Lundain i'r Ariannin ar y stemar *Highland Loch* perthynol i gwmni Nelson Steam Company ar 8 Mai 1913, gan ddechweyd i Alejandra lle bu'n ffermio cyn symud i fod yn swyddog gyda'r heddlu yn Chaco yng ngogledd yr Ariannin yn 1932. Bu farw yn Campo Largo, Chaco, ar 7 Gorffennaf 1947.

Guido Abel Tourn Pavillon, *Los Galeses de Santa Fe* (Alejandra, Provincia de Santa Fe, 2011).

MORGAN, Richard (1850–1911)

Fe'i ganed yn Llandyfaelog yn y flwyddyn 1850, yn frawd iau i David Morgan. Ymfudodd i Santa Fe ar yr agerlong *Oneida* ar 8 Awst 1870 gyda'i frawd David. Yn Santa Fe cafodd Richard lain rhif un ar bymtheg, ac mewn un llythyr at ei deulu yng Nghymru yn eu cymell i ymfudo i'r Ariannin adroddodd fod y bwyd yn rhatach a bod ganddo ddigonedd o fara, coffi, llaeth, wyau, ac ati. Yn y man, gwerthodd ei fferm a phrynodd fferm arall gyda John Thomas Pugh yn Alejandra. Teithiodd i Gymru yn 1877 a dychwelyd i'r Ariannin gyda'i frawd hŷn, John, a oedd yn dioddef o ryw salwch difrifol, yn y gobaith y câi hwnnw wellhad, ond ymhen tair blynedd bu farw John ac fe'i claddwyd ym mynwent Alejandra. Trist fu hanes Richard; aeth yn grwydryn heb gartref parhaol yn ei fro fabwysiedig a heb awydd i dychwelyd i Gymru, a bu farw ar 15 Tachwedd 1911 ym mhentref Romang.

Guido Abel Tourn Pavillon, *Los Galeses de Santa Fe* (Alejandra, Provincia de Santa Fe, 2011).

PHILLIPS, Thomas Benbow (1829–1915)

Credir yn gyffredinol i Thomas Benbow Phillips gael ei eni yn Nhregaron, ond ymysg ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru mae cart achau amrwd sy'n olrhain rhywfaint o hanes y teulu. Mae'n wir fod rhieni ei dad, sef Samuel Phillips (1757–1822) a Sarah Davies ei wraig, ill dau yn hanu o Dregaron; roedd Samuel yn fab i ŵr o'r enw Samuel Phillips a aned yn 1721 ac Elen ei wraig, a'r enw cyntaf ar nodir ar y cart achau ar ochr ei dad yw William Phillips '1690', tad Samuel. Hanai teulu Susannah Benbow, mam Thomas Benbow Phillips, o Feifod. Yr oedd hi'n ferch i Edward Benbow (1750–1837) – mab Richard Benbo [*sic*] (a aned yn 1694) a'i ail wraig Elin Jones – a Mary Thomas (1757–1843).

O dan ei enw ei hun yn y cart achau ysgrifennodd Thomas Benbow Phillips 'B London 1829', ac ymysg ei bapurau ceir llythyr oddi wrth ei fab, Thomas, yn gofyn am enw'r plwyf yn Llundain lle ganed ei dad gan fod Henry, mab Thomas, am gael dinasyddiaeth Brydeinig ac roedd angen iddo ddangos prawf fod ei dad-cu wedi ei eni ym Mhrydain. Daethpwyd o hyd i gofnod bedyddio Thomas Benbow Phillips yn Eglwys St Saviour, Southwark, ar 12 Medi 1830. Mae camgymeriad yng nghofnod ei eni – fe'i ganed ar 14 Chwefror 1829 ac nid 1828 fel y cofrestrwyd. Priodwyd ei rieni, Thomas Phillips a Susannah Benbow ar 22 Mai 1815 yn Eglwys St Botolph Without, Bishopsgate. Mewn cofiant i Thomas Benbow Phillips yn *Y Drafod* dywedir iddo gael ei fagu 'ym mro Manceinion' a threulio'i ieuentid yn swydd Gaerhirfryn. Yn sicr roedd ym Manceinion yn 1848 pan ddaeth i adnabod masnachwyr yno oedd â chysylltiadau ym Mrasil ac yn awyddus i anfon ymfudwyr allan yno i godi cotwm ar gyfer eu melinau. Cynhaliwyd cyfarfodydd i gefnogi'r mudiad, yn arbennig yn ne Cymru, er bod gwrthwynebu chwyrn iddo hefyd.

Aeth Thomas Benbow Phillips i Frasil i chwilio am dir ar gyfer y drefedigaeth; galwodd yn Rio de Janeiro ar ei ffordd, a chael ar ddeall y gellid sefydlu gwladfa yn Rio Grande do Sul gan fod Llywodraeth Brasil ar y pryd yn trefnu sefydlu bwrdd ymfudiaeth. Daeth hyn yn ddeddf ym mis Medi 1850, yr adeg y cyrhaeddodd Thomas B. Phillips. Trefnodd i brynu tir rhwng dwy afon ryw 18 milltir o dref Pelotas, a'i fwriad oedd gwerthu'r tir i'r ymfudwyr am 5 swllt yr erw, gyda'r arian i'w dalu'n ôl iddo ymhen chwe blynedd. Ymhen deufis wedi iddo gyrraedd yno yr oedd Phillips wedi 'cofrestru'r Drefedigaeth yn y Cyngor Corphoriadol dan yr enw Nova Cambria'. Yna cofrestrwyd y 'Cambro-Brazilian Amalgamated Trades' Emigration Society' gyda chan mil o gyfranddaliadau yn ôl tair punt yr un. Am bob

mil o gyfranddaliadau a werthid, anfonid dau gant o ymfudwyr allan yn ddi-dâl, gan sicrhau bod tai yn cael eu hadeiladu iddynt, digon o fwyd iddynt am flwyddyn, offer gwaith, hanner cant o erwau o dir i bob un, pump o'r rheini wedi eu trin, a'r ymfudwyr i dalu am y cwbl wrth eu pwysau yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yno. Adeiladodd Phillips dŷ iddo'i hun yno, mesurodd y tir yn dyddynnod hanner can erw yr un ar gyfer 120 o deuluoedd a hyd yn oed dechrau adeiladu'r tyddynnod iddynt. Hwylodd mintai o Lerpwl ar fwrdd y llong *Naiad* yn niwedd mis Mai 1851 a glanio ym Mrasil ym mis Gorffennaf, ei chapten, y criw a'i theithwyr i gyd yn Gymry. Cyrhaeddodd mintai arall o 25 o bobl mewn oed ac 11 o blant ar fwrdd y llong *Irene* yn Awst yr un flwyddyn, yn eu plith rhieni Phillips, a chyrrhaeddodd mintai arall ar y llong *Madonna* cyn diwedd 1851. Roedd y mwyafrif o'r ymfudwyr o ardaloedd Nant-y-glo a Bryn-mawr.

Yn anffodus aeth y Sefydliad yn fethiant tua diwedd 1854, a rhoddodd Thomas Benbow Phillips dri rheswm am hynny. Yn gyntaf 'am mai coedwigoedd oedd y lle, a'r bobl yn anghyvarwydd; yn ail am vod gwasanaeth caethion yn gwneud gwasanaeth dynion gwynion yn amharchus; ac yn drydydd, trwy ddarganvyddiad glo yn Pelotas ac velly alwad am waith i'r glowyr oedd yn y sevydliad.'

Yn 1855 aeth Phillips i gadw masnachdy ym Mhelotas ac ar 15 Awst y flwyddyn honno priododd â Maria Januarina Florinal. Yn 1863, a'i wladfa ym Mrasil wedi ei chwalu, clywodd am y mudiad gwladfaol yng Nghymru a bu'n gohebu â'r arweinwyr. Cyhoeddwyd dau lythyr ganddo yng nghyfrif 1863 o'r *Ddraig Goch*. Yn ei lythyr dyddiedig 5 Medi mae'n cymell hyrwyddwyr y mudiad ymfudol 'i gychwyn y Sefydliad yn uniongyrchol tra y mae yr awydd yn uchel amdani. Nid oes dim mwy niweidiol nag oediad.' Dywed ei fod yn barod i gynorthwyo'r mudiad mewn unrhyw ffordd y gall 'ac i anturio yr ychydig foddion sydd gennyf', ac mae'n amgáu archeb am 16 doler at drysorfa'r Wladfa Gymreig. Mae'n gweld gwahaniaeth rhwng methiant ei sefydliad ym Mrasil a achoswyd, meddai, 'drwy ddichell gwr urddasol yn y wlad hon.' Mae'n cynghori prynu llong gan y byddai o fantais i'r Wladychfa, 'a pha bynnag a ddeilliai o'r fasnachaeth, elai hwnnw i'r Gwladychwyr yn lle cael ei lyngcu gan dramoriaid.'

Yn ei ail lythyr, o Pelotas, dyddiedig 16 Medi mae Thomas Benbow Phillips yn gofyn am newyddion am y mudiad; mae'n awyddus i wybod pryd fyddai'r fintai gyntaf yn cychwyn er mwyn iddo allu trefnu i lanio yn y Wladfa yr un pryd â'r teithwyr. Aeth Phillips ei hun i'r Wladfa ar y llong *Rush* yn 1872 i weld y Wladfa

drosto'i hun ac ar ôl marwolaeth ei wraig yr un flwyddyn aeth ef a'r rhan fwyaf o'i deulu i fyw yno.

Dywed William Meloch Hughes fod Thomas Benbow Phillips yn ŵr bonheddig a hynaws, un hawdd iawn cydweithio ag ef, gwladgarwr selog, un hynod alluog fel diplomydd a chraff iawn yn ei ymwneud â dynion. Roedd yn fasnachwr, hanesydd a llenor ac yn ymgomiwr difyr, a chanddo doreth o atgofion. Ond dywed Meloch hefyd ei fod yn gymeriad cymhleth, â gwahanol haenau i'w bersonoliaeth – dylanwad ei fywyd ym Manceinion, ei genedlgarwch Cymreig ac yna 'haen drwchus o wareiddiad Brasilaid' yn haenau ar ben ei fagwraeth grefyddol.

Thomas Benbow Phillips oedd ail Arolygwr Cwmni Masnachol y Camwy. Bwriadai gychwyn cwmni masnachol i ddatblygu masnach y Wladfa gyda llong i redeg yn ôl a blaen i Buenos Aires. Pe buasai'r cwmni hwn wedi cael ei sefydlu, byddai'n gystadleuydd i'r CMC ond yn gaffaeliad i'r gwladfawyr pan aeth y CMC yn fethiant yn ddiweddarach. Cododd helynt mawr o ganlyniad i daith Llwyd ap Iwan a T. B. Phillips i Brydain yn dilyn helynt y drilio ar y Sul ac ymddygiad ffaidd gweision bach y Llywodraeth tuag at y gwladfawyr, a diarddelwyd Phillips gan rai o'r gwladfawyr.

Roedd yn un o gymwynaswyr pennaf y Wladfa; gwrthwynebodd yr awdurdodau ond enillodd eu hedmygedd a'u parch hefyd. Enw ei gartref yn y Wladfa oedd Cilsant. Yng nghyfrifiad 1895 y Wladfa, rhestrir Thomas (66) a'i deulu, Susannah (30), Winifred (28), Olivia (26), Randal (24), Brenhilda (22), Edward (17), Felicia (17). Roedd yna fab arall o'r enw Arthur (ganed 1862), Llywelyn (ganed 1860; bu farw cyn 1890) a Llew a fedyddiwyd yn 1894.

Yn 1903 dychwelodd Thomas Benbow Phillips i Brydain, ac yn ardal cofrestru West Bromwich ar 16 Hydref 1904, ac yntau'n 75 mlwydd oed, priododd ferch ifanc 19 oed o'r enw Florence Elizabeth Elbourne ['Poppy'], merch Henry Elbourne a Georgina Tregaskiss. Cawsant ddau o blant, Gilbert (1906–1981) a Marjorie (1909–2000) ond dychwelodd Poppy i Loegr gyda'i phlant.

Yn 1908 priododd Randall Benbow Phillips (1871 – 9 Awst 1950), â Myra Rose Elbourne (1872-1957), chwaer ei lysfam Florence Elizabeth Elbourne a chawsant ddau o blant, Sylvia N. a aned yn 1909, a Flora a aned yn 1912. Bu farw Sylvia ym mis Tachwedd 1927 yn 18 mlwydd oed yng nghartref y teulu, Fferm Havelock, Tir Halen.

Priododd Susannah Phillips ag Ellis Jones, Bryn Gwyn, a marw ym mis Hydref 1942 yn 76 mlwydd oed. Priododd ei chwaer Winifred â Llywelyn Jenkins, mab Aaron a Margaret Jenkins.

Priododd Brenhilda â Richard Williams, Esquel, a buont yn byw yn Esquel a Nant-y-pysgod.

Gadawodd Thomas Benbow Phillips gasgliad o lythyron personol ynghyd â rhai'n ymwneud â'i fywyd cyhoeddus yn ogystal â dyddiaduron, wedi eu hysgrifennu yn yr iaith fain, sy'n rhoi hanes ei fferm, ei deulu a'i gymdeithas yn y Wladfa. Ymysg ei bapurau sydd ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ceir drafft o ewyllys a wnaeth cyn i rai o'i ferched briodi, ac ynddi mae'n gadael ei eiddo i'w ail wraig a phlant ei briodas gyntaf.

Bu Thomas Benbow Phillips farw yn y Wladfa ar 30 Ionawr 1915 yn 86 mlwydd oed.

Cofrestr Eglwys St Saviour, Southwark, Llundain, 1830

Cofrestr Eglwys St Botolph Without, Bishopsgate, Llundain, 1815

NLW MS 18175B, Nodiadau Bryn Williams o bapurau T. B. Phillips yn Esquel.

NLW Facs 397-9, Dyddiaduron a Llythyrau Thomas Benbow Phillips a Dyddiaduron Randal Phillips

Cofnod priodas Thomas Benbow Phillips a Florence Elizabeth Elbourne yn y Mynegai i Gofrestrïadau Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, 1837–2007

'Atgofion am T. B. Phillips', *Y Drafod*, 26 Chwefror 1915

Gwybodaeth am Florence Elizabeth Elbourne ar wefan deuluol

Y Ddraig Goch, 1863

PRITCHARD, Thomas Gwilym ('Glan Tywi'; 1846–1924)

Ganed Thomas Gwilym Pritchard ('Glan Tywi') ar 23 Tachwedd 1846 mewn ffermdy o'r enw Dugoedydd at lan afon Tywi, plwyf Llanfair-ar-y-bryn, sir Gaerfyrddin, yn un o saith o blant David ac Annie Pritchard. Ar gyfrifiad 1851 gwelir y teulu'n byw yn 'Dugoedydd Cottage ucha'. Roedd David yn 30, wedi ei eni yng Nghil-y-cwm, ac Annie (26 oed), a'r plant Anne (6), Thomas (4) a John (2) wedi eu geni ym mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn. Ychwanegwyd David (c. 1851), Daniel (c. 1853) a James (c. 1856) yn ddiweddarach.

Rhywbryd tua'r flwyddyn 1862 ymfudodd y teulu i'r Unol Daleithiau, ac fe'i gwelir ar gyfrifiad Pittsburg, Allegheny Co., Pensylfania yn 1870, er nad yw'r oedrannau yn gywir. Yr oedd David Pritchard yn 55 mlwydd oed ac yn 'Coker in steel works', Annie 24 'Keeping house', Thomas 22 'Labourer', John 21 yn 'Puller out in steel works', Daniel 16, a James 14, y ddau yn gweithio fel 'Moulder', ac Eliza 4 mlwydd oed, a aned ym Mhensylfania. Gyda nhw yr oedd David Williams 17 mlwydd oed; tybed ai dyma David Beynon Williams, cefnder Thomas Gwilym Pritchard a ymfudodd i'r Wladfa gyda T. G. Pritchard yn ddiweddarach? Nid oes sôn am Annie y fam ar y cyfrifiad. Bu Annie'r ferch farw ar 7 Mai 1901 yn 55 mlwydd oed a chladdwyd hi ym mynwent Grand View, Allegheny ddeuddydd yn ddiweddarach.

Dychwelodd Thomas i Gymru gyda'i gefnder David Beynon Williams tua diwedd 1875. Ar ôl crwydro dipyn yng Nghymru, aeth y ddau i Lerpwl i gyfarfod mintai Edwin C. Roberts oedd ar gychwyn i'r Wladfa. Gadawsant ar y *Vandyke* ar 25 Tachwedd 1875 gan gyrraedd Buenos Aires fore dydd Nadolig, a hwylio am Ddyffryn Camwy yr un diwrnod ar yr agerlong *Santa Rosa*.

Dywedir am Thomas Gwilym Pritchard ei fod yn ddyn o athrylith, yn berchen ewyllys gref ac yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau. Yr oedd yn ddyn hunan-ddiwylliedig, yn ddarllenwr mawr ac o farn bwyllog ac ystyriol. Yr oedd yn athro wrth reddf a bu'n ysgolfeistr ysgol ddyddiol Trerawson i ddechrau, cyn cael ei benodi gan y Pwyllgor Addysg yn athro Ysgol Glyn Du ar gyflog o £30 y flwyddyn, a'i fwyd a llety, ym mis Mehefin 1877. Ymhen blynnyddoedd wedyn aeth i gadw ysgol yn Nhrevelin. Yn y cyfnod rhwng cadw'r ysgol yng Nglyn Du ac ym Mro Hyfryd, bu'n gyfrifydd i John Murray Thomas yn Ystordy Pen-y-bont, Rawson. Wedi iddo ddychwelyd o Fro Hydref penodwyd ef yn gyfrifydd cyntaf Cwmni Masnachol y Camwy a gwasanaethodd y Cwmni yn ysbeidiol am flynyddoedd. Gwasanaethai fel

Arolygydd Darbodol yn absenoldeb y Prif Arolygydd, a chydabyddir ei fod, fel cyfrifydd, yn un o'r rhai blaenaf.

Roedd yn fardd a llenor coeth; fel llenor ysgrifennai'n llithrig a naturiol mewn arddull dlos; fel bardd roedd yn feistr ar y grefft o farddoni yn y mesurau caeth a rhydd ac roedd cyfansoddi cân ddigrif neu gerdd duchan yn beth hawdd iddo. Enillodd y Gadair yn eisteddfod gyntaf ardal Treorki a'r prif wobrwyon yn Eisteddfodau Rawson, y Fron Deg a'r Gaiman am gywyddau, pryddestau ac englynion. Bu farw yn nhŷ ei gefnder, D. B. Williams, ar 12 Medi 1924 yn 78 mlwydd oed.

Cyfrifiad 1851 ac 1861 Llanfair-ar-y-bryn

Cyfrifiad Pittsburg, Allegheny Co., Pennsylvania, 1870, a chofnod marwolaeth Annie Pritchard yn 1901 (Y Mynegai Achyddol Rhyngwladol): <https://familysearch.org/search/collection/igi>)

ROBERTS, Edwin Cynrig (1838–93)

Ganed Edwin (Edwyn) Cynrig Roberts ar fferm y Bryn yng Nghilcain, sir y Fflint, ar 28 Chwefror 1838, yn fab i John a Mary Kendrick, ond flwyddyn yn ddiweddarach bu farw ei dad. Ailbriododd y fam â David Roberts ac ym mis Mai 1847 ymfudodd y teulu i Ogledd America ac ymsefydlu yn ardal Oshkosh yn nhalaith Wisconsin. O barch i'w lystad mabwysiadodd Edwin y cyfenw Roberts ac yn ddiweddarach newidiodd 'Kendrick' i'w ffurf Gymraeg gwreiddiol, sef 'Cynrig'. Mae'r ddwy ffurf ar ei enw, Edwin ac Edwyn, yn cael eu harfer.

Yn ardal Oshkosh cafodd ei fagu ar hanesion am Gymru a'i harwyr gan ei fam. Cafodd ei ysbrydoli gan hanes Madog a'i dair llong ar ddeg, a oedd yn dangos fod y Cymry yn genedl anturus a blaengar. Mae Edwin yn cyfeirio yn ei lyfr, *Hanes Dechreuad y Wladfa Gymreig yn Mhatagonia*, a gyhoeddwyd yn 1893, at yr hanes am Fadog, mab Owain Gwynedd, yn darganfod America tua 1170, tair canrif cyn Christopher Columbus, ac ymsefydlu yno gyda Chymry eraill. Nid yw ysgolheigion yn credu bellach fod unrhyw sail hanesyddol i'r chwedl, ond bu'n ddylanwadol iawn ar un adeg a gwnaeth yr hanes argraff ddofn ar Edwin.

Er gwaethaf ymdrech yr ymfudwyr i sefydlu Cymru fach Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant yn eu gwledydd newydd, gyda threigl amser gwanhau ac edwino a wnaeth yr iaith Gymraeg ynddynt. Gwelodd Edwin Cynrig Roberts y broses hon yn digwydd ymysg ei gyfoedion yn Oshkosh a phenderfynodd fod angen 'uno'r Cymry yn un genedl gref o dan faner y Ddraig Goch. Ar dir fyddai'n eiddo iddynt heb ymyrraeth – yn enwedig gan bobl a siaradai Saesneg – gallant sefyll ysgwydd yn ysgwydd a phob cenedl arall.'

Yn ei arddegau bu'n darlithio i gymdeithasau ymfudol ar hyd a lled Gogledd America i annog ei gyd-wladwyr i ymfudo gyda'i gilydd i wladychfa newydd. Ym mis Tachwedd 1860 gadawodd Oshkosh gyda'r bwriad o hwylio am Batagonia, ond pan alwodd yn swyddfa'r *Drych* yn Efrog Newydd ar y ffordd, clywodd bod Michael D. Jones yn sôn am uno'r cymdeithasau gwladfaol yn un mudiad i ymgyrchu dros wladychu Patagonia. Felly, newidiodd Edwin ei gynlluniau ac anelu am Lerpwl. Yno bu'n aelod gweithgar o'r Pwyllgor Ymfudo, yn darlithio yn Lerpwl a thrwy Gymru yn casglu cefnogaeth. Dywed Lewis Jones fod Edwin 'wedi rhoi Morgannwg ar dân cyn anelu trwy Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i fyny tua Cheredigion a chyffroi'r holl wlad'. Ar ei ffordd anerchodd dorf yn nhref Aberteifi. Ar ddiwedd y noson holodd

pw y oedd am ymuno â'r fintai gyntaf, ac mae Richard Jones, Glyn Du, yn dweud i Edwin ddenu cefnogaeth niferus ac i hen wreigan godi'i llais i ddatgan

Rwy'n awr yn bedwar ugain oed,
Ac ni welais long erioed.
Ond os y caniatâ fy Nuw
Af finnau i Batagonia i fyw.

Yn dilyn y siom a gafodd y Pwyllgor Cenedlaethol o ganfod na fyddai modd fforddio prynu llong ar gyfer yr ymfudo, derbyniodd Edwin wahoddiad gan Robert James i fynd i weithio ato i lofa Ince Hall yn Wigan. Yno bu'n derbyn hyfforddiant gyda'r *Lancashire Rifle Volunteers* ac yn ysgrifennu erthyglau a llythyrau at y wasg ar destunau gwladfaol. Yno, hefyd, yr ymunodd â'r Eglwys Sefydledig.

Yn dilyn ymweliad Lewis Jones a Thomas Love Jones-Parry â'r Ariannin a'r trafodaethau â chynrychiolwyr y Llywodraeth, gwahoddwyd Edwin i hwylio gyda Lewis Jones a'i wraig i Buenos Aires ym mis Mawrth 1865 ac yna i lawr i Chubut. Yn dilyn damwain a gafodd Ellen Jones wrth iddi farchogaeth ceffyl, dychwelodd Lewis ac Ellen Jones i Buenos Aires gan adael Edwin yng nghwmni tri gwas a Jerry, mab i Wyddel a gwraig o Calcutta, a bu Edwin yn diddanu ei hun drwy gynllunio 'Y Fyddin Gymreig' a oedd i'w sefydlu wedi i'r fintai gyntaf glanio. Un diwrnod, tra oedd Edwin a'r tri gwas yn cloddio i dorri ffynnon, ac Edwin wedi neidio i'r ffynnon i lenwi'r bwcedi â phridd i'r gweision eu tynnu i fyny â rhaffau, dihangodd y gweision i'r stordy i chwilio am win, gan adael Edwin yn y ffynnon lle bu am ddwy noson. Fe'i hachubwyd naill ai am i Jerry ddychwelyd ar ôl bod ar daith i chwilio am ddŵr neu efallai am fod un o'r gweision wedi gweld y *Juno*, gyda Lewis Jones ar ei bwrdd, yn dynesu.

Roedd llawer o drafod o'r dechrau am y posibilrwydd o hela'r morloi er mwyn eu crwyn a'u holew. Yn ystod ei gyfnod fel pysgotwr yn 1865 gyda John Morgan ac eraill, roedd Edwin Cynrig Roberts wedi sylwi bod cyflenwad diderfyn o forloi yn gorwedd ar draethau'r bae. Un diwrnod, o fwrdd y *Denby*, gwelodd Edwin draethau dan eu sang â morloi, a thynnodd sylw Capten Nagle atynt. Gwyddel a fagwyd yn Lerpwl oedd hwnnw ac ef a lywiodd y cwch mawr chwe thunnell oedd yn cyd-deithio â'r *Mimosa*, yn cario'r clud, a bu'n gwasanaethu'r gwladfawyr trwy fasnachu drostynt gyda'r Brodorion ym Mhatagones.

Aeth Edwin a'r Capten i'r lan a lladdwyd dau forlo, a chael digon o olew at eu hanghenion. Wrth ddychwelyd ar y *Denby* disgrifia Edwin sut y saethwyd tri morlo arall a'u blingo, ond nid oedd y crochan oedd ar y sgwner yn ddigon mawr i'w berwi a bu'n rhaid eu gadael ar fwrdd y llong, a'u holew yn llifo i'r môr. Roedd Edwin eisoes wedi sôn wrth ei wraig yr hoffai ddysgu trin llongau, a phe byddai modd cael cyfalaf o Gymru i brynu llong bwrpasol, medrai hela'r morloi bob haf rhwng Rhagfyr a Chwefror fel y gwnâi'r llongau Americanaidd. Ysgrifennodd Edwin at y Parch. Michael D. Jones ar 20 Ionawr 1868 i geisio ei berswadio bod y cynllun yn haeddu sylw'r Cwmni Ymfudol a gwnaeth restr o 'Amcangyfrifon y buddsoddiad mewn llong forloi', ond ddaeth ddim o'r cynllun gan fod galwadau eraill ar y Cwmni Ymfudol.

Bu hefyd yn chwilio am aur; yn 1890 aeth ef gyda William Richards a phum gŵr arall ar daith ymchwil i'r mynyddoedd. Cyraeddasant greigiau Kagual ger Teca lle cawsant bridd yn cynnwys swm sylweddol o aur. Enwyd y mynydd gerllaw yn 'Fynydd Edwin' a'r fan lle darganfuwyd yr aur y 'Cwts'.

Priododd Edwin ag Ann Jones, merch John Jones 'Mountain Ash' ar 19 Ebrill 1866, a ganed iddynt saith o blant – Myfanwy (12 Tachwedd 1867–4 Rhagfyr 1870), Ceridwen (ganed 4 Gorffennaf 1869), Esyllt (ganed 3 Gorffennaf 1871), Cynric (ganed 18 Gorffennaf 1873), Gwladys (ganed 12 Mai 1875), Nest (ganed 1877) a Derfel (ganed 1882). Bu farw Edwin ar 17 Medi 1893 ym Methesda, Caernarfon, ar ôl dioddef trawiad ar y galon tra oedd y teulu ar ymweliad â Chymru, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Llandygái. Ar 17 Medi 1993 dadorchuddiwyd cofeb hardd yng nghapel Moriah, Trelew, i nodi canmlwyddiant ei farw. Mae un o strydoedd Trelew yn dwyn ei enw, yn ogystal â Mynydd Edwin ger Teca, a gelwir rhan o'r ffordd rhwng Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd yn Hirdaith Edwin.

Disgrifiwyd Edwin Cynrig Roberts gan Matthew Henry Jones fel 'un o gewri Gwladfa Gymreig Patagonia, arloeswr y "Gymru Newydd" a'r mwyaf beiddgar ac eofn o'r arloeswyr'. Gwasanaethodd y Wladfa hyd eithaf ei allu – yn paratoi'r ffordd ar gyfer mintai'r *Mimosa*, yn sefydlu llu arfog i ddiogelu'r Wladfa, yn hyfforddi'r helwyr a ffurfio cwmni pysgota cyntaf Patagonia, ac yn hyrwyddo achos yr Eglwys Anglicanaidd. Ef oedd y cyntaf o'r 'Hen Wladfawyr' i ysgrifennu hanes y Wladfa a gyhoeddwyd yng ngholofnau *Gwalia* o dan y pennawd 'Gwladfa Gymreig'. Bwriadai gyhoeddi cyfres o ddeunaw cyfrol fechan yn nodi cefndir a ffeithiau am yr ymgyrch; yn 1893, ymddangosodd cyfrol gyntaf *Hanes Dechreuad y Wladfa Gymreig* a oedd yn sôn am y mudiad cyn 1862, ond bu Edwin farw cyn gorffen y gwaith.

ROGERS, William J. (1827–1909)

Ganed William J. Rogers ym Mhen-bre, sir Gaerfyrddin, ar 28 Ebrill 1827. Mae'n debyg mai mab i John a Mary Rogers oedd William, ac mewn ysgrif goffa i'w wŷr Raymond Rogers yn *Y Drafod* ym mis Hydref 1951, sonnir bod ei daid, Capten Rogers, yn fab i 'Sion Rogers o'r Bryn'. Ar gofnod cyfrifiad Bryngwin bach [sic] Llanelli yn 1841 ceir gŵr o'r enw John Rogger, ffermwr 40 mlwydd oed, gyda'i wraig Mary (40) a'u plant John (15), Mary (15), William (10), Thomas (10), Sally (10), David (5), Elizabeth (5), Benjamin (5), Joseph (3) a Samuel (18 mis), ond amcangyfrif o'r oedrannau a geir yng nghofnodion cyfrifiad 1841.

Yn 1849 priododd William â Martha Williams a aned yn Llanelli ar 2 Ionawr 1827 ac mae'n debyg mai hi yw'r Martha, ferch David ac Elinor Williams, Heol Fawr, a fedyddiwyd yn Eglwys y Plwyf, Llanelli, ar 17 Ionawr 1827. Ar gyfrifiad 1851 roedd William a Martha yn y Bryn, Llangennech ac yn 1861 mae Martha, 'Sailor's wife' yn rhif 2 Maes y canner gyda John (9), Eleanor (4), Mary (2), a David Williams, tad Martha, gŵr gweddw 72 oed ac 'Ostler', a John Williams, brawd 20 mlwydd oed Martha a weithiai fel 'Furnace man in Tin Works'. Nid oedd William Rogers gartref ar y pryd gan ei fod wedi mynd i weithio ar longau masnach.

Adeg Rhyfel y Crimea, ar fwrdd y *Britannia* dringodd William Rogers i safle pen magnelwr, ac oherwydd prinder milwyr glaniwyd nifer o gwmnïau o forwyr o'r llongau, yn eu mysg William Rogers a'i sgwad o'r *Britannia*. Fe'u gosodwyd i ofalu am *Lancaster gun* ar ben ucheldir Balaclava. Cymerai'r Rwsiaid fantais o gaddug i ymosod ar y Cynghreiriaid ac ar 5 Tachwedd 1854 ymladdwyd brwydr waedlyd Inkerman. Wythnos yn ddiweddarach yr oedd yr holl wlad dan fantell o rew, a chlywodd sgwad y *Lancaster* swyddog y Rwsiaid yn gorchymyn ei filwyr i ymosod. Anelwyd gwn mawr i'r cyfeiriad lle clywyd y llais a gollyngwyd yr ergyd er na allent weld y gelyn. Cymerai deng munud i'r magnelwyr ail lwytho'r fagnel fawr a phan oeddynt ar orffen y dasg gwelent y gelyn yn rhuthro ymlaen trwy'r caddug. Ffodd y magnelwyr i gyd ond Rogers; '...ymaflood yn y canon, dringodd ar y llerp, a thaniodd'. Yr eiliad nesaf yr oedd ugeiniau o'r meirw a'r clwyfedig ar y llethr o'i flaen. Cydnabuwyd mai Gunner Rogers ei hun a enillodd y frwydr y bore hwnnw.

Tra bu Rogers yn y ffosydd gadawodd ei long am adref, ac oherwydd nad oedd ymysg y morwyr ar y llong, credid ei fod wedi marw ar faes y gad a hysbyswyd ei wraig o hynny. Pan lwyddodd i gyrraedd ei gartref, croesawyd ef gan ei wraig a'i berthnasau 'mewn syndod, dryswch a llawenydd'. Caniatawyd iddo fis o wyliau ond

aeth yn ôl i'r llynges, i wasanaethu ar y *Gletton* ac wedyn ar y *Victory*. Daeth y rhyfel i ben pan oedd ar y llong honno a derbyniodd ei dalnod ym mis Mehefin 1856.

Cafodd ei anrhydeddu â phedwar o dlysau - boglyn Sebastopol, boglyn Inkerman, medal 'Victoria Crimea' a medal Dwrcaidd y Crimea am ei ran ym mrwydrau'r Alma, Sebastopol ac Inkerman.

Aeth i weithio ar longau masnach, gan godi i safle capten, ac yn 1862 pan ar ymweliad ag Efrog Newydd perswadiodd ei frawd ef i ymfudo i Bensiylania; dychwelodd i Gymru a chymryd ei deulu i Ogledd America. Yng nghyfrifiad yr Unol Daleithiau yn 1870 roedd y teulu'n byw yn Luzerne, swydd Lackawanna, Pensiylania: William yn 42 ac yn löwr, Martha hefyd yn honni ei bod yn 42, a'r plant John, Labrwr 19 mlwydd oed, Ellen (Eleanor yn 1861) yn 14, Mary (11) a David (9), wedi eu geni yng Nghymru, ac Elizabeth (6) a Sarah (4), wedi eu geni ym Mhensiylania. Ganed dau blentyn pellach, Thomas a Joseph (yn Hyde Park, swydd Lackawanna, 4 Ebrill 1871) ym Mhensiylania.

Yn 1873-74, pan oedd y Parch. Abraham Matthews ar ymweliad â Chymru a'r Unol Daleithiau gyda'r bwriad o ddenu ymfudwyr oddi yno i Batagonia, penderfynodd rhai o Gymry'r Taleithiau ymuno â'u cyd-wladwyr yn Nyffryn Camwy. Ffurfiwyd cwmni, prynwyd llong, yr *Electric Spark*, i gludo'r ymfudwyr, a phenodwyd William Rogers yn gapten arni. Roedd arni gyflenwad o fwyd a diod i'r fordaith, celfi a pheiriannau amaethyddol a 33 o ymfudwyr, nifer ohonynt yn bobl gefnog ac yn gyfrannog ym mherchnogaeth y llong. Ar hanner nos, 26 Mawrth 1874, aeth y llong yn ddrylliau yn Tutoya ar draeth Brasil, ond llwyddwyd i achub pawb a chariwyd deugain blwch o'r nwyddau i'r lan. Bu'n rhaid iddynt werthu popeth oedd ganddynt i dalu am gael eu cludo i Rio de Janeiro. O'r diwedd, diwedd cyraeddasant Buenos Aires a threfnodd Dr Rawson gofal amdanynt.

Yn y Cartref Ymfudol yn y brifddinas y buont, gydag Abraham Matthews a mintai'r *Hipparchus*, cyn i'r *Irene* eu cludo i'r Wladfa. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i'r etholwyr ar 17 Hydref 1874 gyda gwledd a chyfarfod croeso i'r newydd-ddyfodiaid yn dilyn. Llongyfarchwyd Abraham Matthews ar ei ddychweliad a rhoddwyd croeso brwd i William Rogers. Mynegwyd eu hedmygedd ohono a diolchwyd iddo fel pleidiwr y Wladfa yn yr Unol Daleithiau ac am ei ymroddiad yn arwain y fintai wedi iddynt golli'r llong, ac 'fel arwydd fechan o'r teimladau hyn ato yr ydym yn deisebu y Cyngor i roddi iddo anrheg fechan o Drysorfa y Wladfa ...' Gwahoddwyd ef a'i deulu i ddod atynt yn fuan. Gwelodd William Rogers ddigon i'w

blesio; hwyliodd yn ôl i'r Unol Daleithiau, llogwyd y llong *Lucerne* a chyrrhaeddodd ef, ei deulu a 46 o ymfudwyr y Wladfa yn 1876 yn ddiogel.

Bu am sbel hir cyn troi'n ffarmwr; hwyliai'r *Lucerne* am Buenos Aires yn llwythog o gynhyrchion y Wladfa hyd nes i'w pherchenogion benderfynu ei gwerthu. Llywiai'r *Amelia, Rodolfo, Alice, Ida Jones* a chychod eraill yn eu tro gan hwylio o afon Camwy mor bell ag afon Negro yn y *Juan Dillon*, llong yn llawn o gynhyrchion y Wladfa, a dychwelyd gyda nwyddau angenrheidiol i'r Wladfa. Yn 1885 fe'i penodwyd yn gapten y *Jessie*, llong warchae'r arfordir. Bu hefyd yn hela morloi ar y glannau gogleddol ac ynnysoedd y de mewn cychod hwylio o 10 i 20 tunnell. Un tro gyrrwyd y cwch i graig ar lannau'r Valdes a bu'n rhaid i Rogers a'i gydymaith nofio i'r lan ac yna dringo clogwyn. Yn dioddef o ddiffyg dŵr i dorri syched, aethant i orwedd dan lwyn drain lle daeth *gaucho* o hyd iddynt a chawsant ddŵr o'i gostrel. Dro arall torrodd hwylybren ei gwch ac ysgubwyd popeth i'r môr; yn y gwyll chwythodd hyrddwynt hwy i Bahia Blanca.

Yn 60 mlwydd oed, ildiodd Rogers i ddeisyfiadau'r teulu a ffrindiau iddo roi'r gorau i forio. Bu'n byw yn Rawson am flynyddoedd cyn symud i ardal Bryn Crwn. Roedd yn ffyddlon yn achos Bryn Crwn ac yn gefnogol i bob peth Patagonaidd.

Arhosodd John, mab hynaf William a Martha, yn yr Unol Daleithiau a phriodi Sarah Phillips ar 14 Ionawr 1874. Priododd Mary Rogers ag Edward Owen a chawsant chwech o blant – Susana, Martha, Bertha, Blodwen, William a Winifred. Ym mis Rhagfyr priododd Elizabeth Rogers â William Enoch Davies a chael saith o blant – Mary Eleanor, Gwenllian, Elias, William, Enoch a David (bu farw'r ddau blentyn hyn yn eu babandod) a Martha. Bu farw Elizabeth ar 5 Ebrill 1898. Priododd Sarah Rogers â John D. Rogers, ac yn 1897 yn y Gaiman priododd Joseph â Mary Williams, merch Edward a Mary Williams, gynt o Ddinas Mawddwy a chawsant bedwar plentyn – Haydeé, John Sturdy, Mildred and Alwina.

Yn 1908, ac yntau'n 80 mlwydd oed, dychwelodd William J. Rogers i fro ei febyd a chael croeso tywysogaidd gan berthynas a chydnabod yn ei hen sir. Ar gyfrifiad a wnaed o drigolion y Wladfa yn 1895, gwelir y teulu: William (68), Martha (68), David (33), Joseph (24) a Sarah (28). Flwyddyn yn ddiweddarach, ar 12 Awst 1896, bu farw David Rogers. Bu Joseph farw yn 1924 yn 53 mlwydd oed. Bu William Rogers farw ar 1 Ionawr 1909 yn 82 mlwydd oed, a'i wraig Martha ar 13 Chwefror 1911 yn 83 mlwydd oed. Claddwyd y Cadben Rogers ym mynwent y Gaiman, ac ar ei

garreg fedd naddwyd cerflun o long. Enwyd dau o'i wyrion ar ôl brwydrau y bu ynddynt – Inkerman a Sebastopol.

Erthygl ar William J. Rogers yn y gyfres 'Atgofion Gwladfaol. Marwolion Anfarwol y Wladfa', *Y Drafod*, 12, 19 a 26 Ebrill 1935

Cerdd gan Gutyn Ebrill i'r 'Cadben William Rogers, Bryn Crwn ar ei ben blwydd yn 81, 28 Ebrill 1908', a gyhoeddwyd yn *Y Drafod*, 1 Mai 1908

RHYS, William Casnodyn (1851–1943)

Ganed William Casnodyn Rhys ar 10 Medi 1851 yn Nhai-bach ger Aberafan, yn fab i David Rhys (1825–1909, mab William Rees a Catherine Leyshon) a'i ail wraig, Mary Morgan (1830–1897). Priodwyd David a Mary yn Eglwys Margam ar 26 Hydref 1850; dywed y teulu i'w wraig gyntaf farw o'r colera. Ar gyfrifiad 1861 gwelir David, Mary, William, David (ganed 1853) a John (ganed 1858) yn byw yn rhif 2 Mill Yard Row.

Aeth William i'w hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng ngholeg y Bedyddwyr ym Mhont-y-pŵl, a dechreuodd ar ei yrfa yn weinidog yng Nghapel Pennar, capel y Bedyddwyr yn Noc Penfro, yn 1876. Yn yr un flwyddyn, ar 13 Ebrill, priododd Margaretta Fanny Stephens yng nghapel y Bedyddwyr, Astwood Bank, Feckenham yn ardal Alcester, swydd Warwick a Chaerwrangon. Ceir y manylion a ganlyn ar y dystysgrif priodas:

William Rhys aged 25 Bachelor Baptist Minister abode Gwyther Street,
Pembroke Dock, Father David Rhys Copper Smelter

Margaretta Fanny Stephens aged 27 Spinster Governess abode Fir Tree House,
Astwood Bank, Worcester, Father Francis Stephens, Malster

Ganed eu plentyn cyntaf, Myfanwy, yn 1877, yn Noc Penfro yn ôl pob tebyg, ac aeth y Parch. William Casnodyn Rhys, Margaretta Fanny a Myfanwy i Batagonia tua 1879. Bu'n weinidog ar gapel Vron Deg; yn wir, ef oedd ei unig weinidog hyd 1893 a rhoddodd wasanaeth gwerthfawr i'r Wladfa yn gyffredinol. Bu'n Ysgrifennydd a Thrysorydd Cyngor y Gaiman, ac enillodd Gadair yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn y Gaiman yn 1881. Yn Llyfrgell Gymraeg Prifysgol Bangor ceir hysbyseb ar gyfer darlith, 'Yr Elven Gymreig yn y Genedl Brydeinig', a gyflwynodd yn Ysgoldy Trerawson ar 7 Mehefin 1879. Pum doler oedd pris y tocyn mynediad ac roedd yr arian 'i fynd at gosod to haearn i'r Ysgoldy'.

Yn y Wladfa fe aned saith plentyn arall i William Casnodyn Rhys a'i wraig: David Ivor (19 Mai 1876–23 Ebrill 1967), Goronwy (1881–1892), Geraint (ganed yn 1883), Margaretta Mair (ganed ar 10 Medi 1885, priododd Daniel Ostle yn ardal cofrestru Abertawe yn 1921, a bu farw yn Rhydychen yn 1990 yn 105 mlwydd oed), Llywarch (ganed ar 16 Rhagfyr 1887, priododd Caroline Marriner ar 15 Awst 1923 yn Bywell St Peters, Stockfield, Northumberland, a bu farw ar 5 Mai 1976 yn Stockton-

on-Tees), Eurgain (ganed yn 1889) a Leyshon Iwan (ganed ar 16 Chwefror 1892, priododd Lilian M. Quick yn ardal cofrestru Crediton, Dyfnaint, yn 1917 a bu farw ym mis Tachwedd 1956). Dychwelodd y teulu i Brydain yn haf 1893, ond cyn iddynt ymadael â'r Wladfa cynhaliwyd parti ffarwelio iddynt yn y capel ddiwedd Mai. Ar ôl dychwelyd o Batagonia, bu William Casnodyn yn weinidog ar gapel Stroud Green yn Llundain o 1896 hyd 1900. Bu ei ferch Myfanwy farw tua 1895 a'i wraig Margareta yn Llundain ar 29 Ionawr 1896 o'r dwymyn ôl-esgor yn dilyn genedigaeth eu nawfed plentyn, Olwen Elizabeth (1895 – 1969).

Priododd William Casnodyn Rhys â'i ail wraig, Jessie Myvanwy Castell Evans, merch yr Athro John Castell Evans, yn Edmonton, swydd Essex, yn 1898 a ganed pum plentyn arall o'r briodas honno: Nellie Jessie Eurvron (ganed 1 Hydref 1899 yn Llundain, priododd Edmund Ware yn ardal cofrestru Abertawe yn 1952, a bu farw yn 1997), John Roland (ganed 21 Awst 1902 yn Abertawe; boddodd yn 1915), Bronwen (25 Mawrth 1904–1997), Taldir (bu farw ar ei enedigaeth yn 1905) a Dochan (ganed 17 Mawrth 1906, priododd Edna May Bullock yn ardal cofrestru Abertawe yn 1933, a bu farw yn 1985).

Yr oedd William C. Rhys yn weinidog ar gapel York Place, Abertawe o 1900 hyd 1928. Bu farw yn Abertawe yn 1941.

Serch hynny, ni thorrodd y teulu eu cysylltiad â'r Wladfa. Priododd David Ivor Rhys ag Edith Elizabeth Hall (1885–1951) yn ardal cofrestru Edmonton, swydd Middlesex, yn ystod chwarter Medi 1906, a dychwelyd i'r Wladfa. Cawsant 9 o blant:

- (1) Edith Bronwen Rhys a aned ar 21 Tachwedd 1906 yn St Albans, swydd Hertford. Priododd Guillermo Reinaldo Ernst yn Uruguay, ac yn nhalaith Entre Rios ganed Olívia Astra ar 26 Ionawr 1943 a mab ar 30 Awst 1946. Bu Edith Bronwen farw ar 3 Chwefror 1992 yn Washington D.C., Unol Daleithiau America.
- (2) Gladys Ada Rhys a aned ar 31 Mai 1908 yn St Albans, swydd Hertford; priododd George Replogle. Bu Gladys Ada farw ar 20 Medi 1997 yn Nhrelew.
- (3) Ganed Megan Airvron Rhys ar 16 Mawrth 1910 yn Nhrelew a bu farw yno yn 1990.
- (4) John Morgan Rhys a aned ar 11 Mai 1912 yn Nhrelew; priododd Maria Gomez, a bu farw ar 31 Mai 1997 yn Córdoba.

- (5) Leslie Casnodyn Rhys a briododd Marta Carratero a chael Milton Rhys, Rogelio, Lorena, a Tomás. Yr oedd Tomás Rhys yn feddyg mewn Niwroleg yn Córdoba, lle bu farw ar 16 Mehefin 2014 yn 70 mlwydd oed.
- (6) David Hall Rhys a aned yn y Gaiman ar 2 Hydref 1915. Cafodd yrfa hir a disglair ym myd addysg ac ymchwil, a bu'n Athro Mathemateg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Paraná, Entre Rios. Priododd Adela Chaij a chawsant: Nidia Ester (ganed yn 1940 ym Muenos Aires, priododd Edwin Vyhmeister), Myrtha Elva (ganed yn 1943 yn Entre Rios, priododd Alejo Pizarro) a Carlos Ivor (a aned yn Entre Rios yn 1947). Bu Dr David Hall Rhys farw yn Loma Linda, Califfornia ar 5 Medi 2014.
- (7) Ivor Garfield Rhys a fu farw yn 1939 yn 11 mlwydd oed
- (8) Edgar Camwy Rhys a briododd [] Citera
- (9) Lesta Olwen a aned ym mis Awst 1926 yng Nghilawen, Treorki.

NLW MS 19357E, Adroddiad ar gapeli Patagonia, gyda nifer o luniau, a baratowyd ar gyfer dathlu'r canmlwyddiant, 1965

NLW MS 20549E, 'Erthyglau, nodiadau a phapurau W. Casnodyn Rhys parthed Patagonia'
Gwybodaeth a roddwyd ar y we gan Nidia Rhys Vyhmeister, disgynnydd i William Casnodyn Rhys
Teyrnged i Dr David Hall Rhys ar wefan Universidad Adventista del Plata

THOMAS, David Coslett (1836–1923)

Ymfudodd David (neu Dafydd) Coslett Thomas, Eleanor ei wraig a'u chwe phlentyn i Chubut yn 1875 ar y llong *Thames*. Yn ôl cart achau a gyflwynodd disgynnydd i'r teulu i'r Llyfrgell Genedlaethol, cafodd David ei eni ym Mhonterynefe ym mhlwyf Llanddeusant ar 7 Awst 1836, yn fab i John Thomas, gwehydd, a Mary Coslett. Eleanor Thomas oedd enw ei wraig, merch Jacob Thomas ac Eleanor Morgans, a aned ar Ddydd Nadolig 1835 yn Llandysiliogogo. Gweithiodd Dafydd fel glöwr yn y Rhondda cyn ymfudo, a bu'r teulu'n byw yng Nghwm Ogwr, Rhymni, Tredegar, Penrhiwfer, a Thonypanyd cyn adeiladu eu tŷ eu hunain ger tafarn y Miskin yn Nhrealaw. Yn ei hunangofiant mae eu mab Joseph Coslett Thomas yn adrodd yr hanes am y Parch. D. S. Davies yn traddodi darlith ar Batagonia yng Nghapel Ebenezer, Tonypanyd, a David yn ei wahodd i swper yn ei gartref. Roedd David ac Eleanor eisoes yn bleidiol i Batagonia, a'r noson honno penderfynodd y teulu y byddent yn ymfudo i'r Wladfa pe bai modd, ac os byddai chwaer Elinor, Mary a'i gŵr Evan Oliver yn mynd hefyd. Dywed John Coslett Thomas i'w dad a'i ewythr roi'r gorau i'w swyddi, gwerthu'r tai a'r dodrefn, ac ar gyngor ei fam a'i fodryb prynwyd llestri llaeth ar gyfer godro, crymanau, pladur, aradr, og, gêr i wedd, melin llaw i falu yd a chyflenwad o ddillad i'r plant.

Cawsant fferm yn ardal Tair Helygen ger Rawson ac yn ddiweddarach buont yn byw yn Nhrelew ac yn cadw gwesty bach. Cafodd eu merch Mary Ann a'i gŵr Hugh Samuel Pugh 13 o blant ac roeddent yn cadw'r *casa de te* cyntaf yn y Gaiman ac wedyn y gwesty cyntaf. Adroddir hanes i'r Arlywydd Roca gael ei gymryd i'r gwesty hwn am ginio ar ei ymweliad cyntaf â'r diriogaeth yn 1899. Gwahoddodd nifer o westeion a bwytawyd deg plwm pwddin. Ymysg y bobl a arhosodd yn y gwesty yr oedd yr Arglwydd Cavendish, a dau ddyn a gwraig y canfuwyd yn ddiweddarach eu bod yn aelodau o gang yr heriwr Butch Cassidy. Wrth adael, gadawsant ebol dof yn anrheg i'r perchnogion.

O ran plant eraill Dafydd ac Eleanor, aeth William i fyny i'r Andes a bu'n gynhorthwy mawr i ddatblygu'r lle. Priododd Elizabeth Elin Jones ar 20 Mehefin 1891 a buont yn byw yng Nghwm Hyfryd. Priododd John â Caroline M. Jones, bu'n ysgolfeistr, yn ffermwr a bu'n chwilio am aur cyn cymryd ei deulu i Ganada. Ym Mangor, Saskatchewan agorodd sawl stordy. Symudodd i Los Angeles yn 1920 a bu farw yno yn 1936 yn 72 mlwydd oed; cludwyd ei gorff yn ôl i Ganada i'w gladdu ar 5 Tachwedd 1936 ym Mangor, Saskatchewan. Priododd Evan ag Edith Williams a byw

yn Nhrelew tra bu Catherine farw tua 1918 yn Rawson. Priododd Sarah â Gwilym Williams a buont yn byw yn ardal Moriah ac yna yn Sarmiento. Priododd Elizabeth Ellen â George Williams ac aethant i Awstralia; priododd Joseph â Sarah Ann Jones ac aethant hwy hefyd i Awstralia.

Bu David Coslett Thomas farw yn 1923 yn 87 mlwydd oed ac Eleanor ei wraig ym mis Chwefror 1918. Aeth Mary ac Evan Oliver i Awstralia yn 1915 ond aethant yn eu holau i Batagonia yn 1919, er bod rhai o'u teulu wedi aros yn Awstralia.

THOMAS, Evan (1917–52)

Ganed Evan Thomas yn y Gaiman ar 25 Awst 1917. Addysg elfennol yn unig a dderbyniodd ond byddai'r mynd i'r fynwent lle'r oedd ei daid yn ofalwr a diddanu ei hun trwy ddarllen y cerrig beddi. O weld hynny, adroddai ei daid hanesion am yr arloeswyr a gladdwyd yno, ac mae'n bosibl i'r hanesion hyn gael dylanwad ar Evan Thomas gan iddo ymddiddori'n fawr yn hanes y Dyffryn a'i phobl.

Yn llanc, aeth i letya gyda'r bardd Morgan Phillip Jones a'i deulu er mwyn cynorthwyo ar eu fferm ac yno, ymysg teulu a oedd yn enwog am eu diddordebau cerddorol a diwylliannol a'u llyfrgell gynhwysfawr, y magwyd ei gariad at lenyddiaeth ac y meithrinwyd ei gydwbybod gymdeithasol. Yn nes ymlaen daeth i gyfeillachu â phobl ddylanwadol yr ardal megis D. R. Daniel ('Deiniol') a chael gwaith fel prentis argraffwr yn swyddfa'r *Drafod*. Yn ddiweddarach rhoddodd y golygydd, William Williams Prysor, gyfrifoldeb am adran Sbaeneg y papur i Evan Thomas a phan fu farw Prysor, daeth Evan Thomas yn olygydd *Y Drafod* ac, yn ogystal â'i gyfrifoldeb am adran Sbaeneg y papur hwnnw, cychwynnodd bapur newydd yn Sbaeneg, *El Regional*. Ymddangosodd rhifyn cyntaf *El Regional* ar 25 Mai 1945 a chyhoeddwyd mai'r Rheolwr a'r Sefydlydd oedd Evan Thomas.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar 11 Hydref 1946 ymddangosodd hysbyseb am y papur newydd hwn, pryd y'i disgrifiwyd fel 'Papur gwladfaol wedi ei ysgrifennu yn yr iaith genedlaethol'. Gyda'r elw a ddaeth o gyhoeddi'r papur hwn llwyddodd i ddileu'r diffyg yng nghoffrau'r *Drafod*. Cyhoeddodd hefyd gylchgrawn o'r enw *Yr Eisteddfodwr* ac yn y rhifyn cyntaf ohono dywedodd Evan Thomas mai 'Teyrnged o barch i Eisteddfodwyr Ddoe a Heddiw' oedd y cylchgrawn hwn, a bwriadai ei gyhoeddi'n gylchgrawn tri misol o 12 tudalen. Ymdrechodd yn ddewr i gadw'r Eisteddfod a'r *Drafod* rhag diflannu'n llwyr mewn cyfnod anodd. Yn y 1940au gweithiodd yn ddiwyd i ddiweddararu rhaglenni'r Eisteddfod a magu brwdfrydedd ymysg cyfranogwyr.

Gweithiodd yn ddyfal i ffurfio ac atgyfnerthu cysylltiadau rhwng Cymru a'r Wladfa a gollwyd ers cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf a bu'n gohebu â nifer o bobl o bwys yng Nghymru. Teithiodd i Gymru yn 1951 a chael ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd. Roedd ganddo wybodaeth helaeth am lenyddiaeth Cymraeg a Sbaeneg ac enillodd y Gadair yn Eisteddfod y Gaiman yn 1944 am gerdd yn y mesur penrhydd ar y testun 'Yr Aberth', ac eto yn Nhrelew yn 1947 gyda cherdd, eto yn y mesur penrhydd, yn dwyn y teitl 'Tywysog Tangnefedd'. Bu farw'n sydyn ym mis Ebrill

1952 yn 34 mlwydd oed, wedi cyflawni gymaint mewn oes mor fer. Roedd yn wŵr poblogaidd yn y Dyffryn ac fe werthfawrogir ei gyfraniad yn fawr.

Yr oedd Evan yn briod â Mairos Ilma Hughes, merch Morris ap Hughes a Winifred Williams, ac roedd ganddynt dri o fechgyn – Delano, Edmundo a Donald. Ar ôl marwolaeth Evan Thomas priododd Mairos ag Egryn Williams.

‘Cwyn am fy nghyfaill hoff Evan Thomas’ gan Deiniol (Daniel Rhys Deiniol), *Y Drafod*, 15 Hydref 1953

‘Coffau Evan Thomas’, *Y Drafod*, 21 Ebrill 1955

Englynion coffa i Evan Thomas: ‘7 mlynedd ers marw ein cyn-olygydd’, *Y Drafod*, 9 Mai 1959

THOMAS, John Murray (1848–1924)

Ganed John Murray Thomas ym Merthyr Tudful yn y flwyddyn 1848. Yr oedd ei dad, William, yn hanu o Dalyllychau a'i fam, Mary, o blwyf Llanfair-ar-y-bryn, sir Gaerfyrddin. Ar gyfrifiad 1861 gwelir John yn 13 mlwydd oed ac yn glerc mewn siop groser ym Merthyr Tudful, ond rhwng y dyddiad hwnnw ac 1865 pan ymfudodd i'r Wladfa gyda'i chwaer Gwenllian, ei gŵr (y Parch. Abraham Matthews) a'u baban Mary Annie, aeth John i weithio yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Dyna'r rheswm pam y mae Abraham Matthews, yn ei restr o'r teithwyr ar y *Mimosa*, yn nodi bod John o Ben-y-bont ar Ogwr.

Cafodd John Thomas ei feirniadu am adael y Wladfa am Buenos Aires ym mis Tachwedd 1865 er mwyn derbyn hyfforddiant fel cyfrifydd. Tra oedd yn y brifddinas, bu'n gweithio'n bennaf i J. Younger a'i gwmni, a dywedir iddo ddod yn rhanog yn y fasnach maes o law. Derbynnir bellach i'r profiad a'r hyfforddiant a gafodd wrth weithio i gwmnïau Murray a Younger, fod yn gaffaeliad i'r Wladfa yn nes ymlaen. Yn Eglwys Bresbyteraidd San Andreas, Buenos Aires, ar 8 Mawrth 1873, priodwyd John Murray Thomas, 24 mlwydd oed, a Harriet Scott Underwood, 20 mlwydd oed, merch John Daniel Underwood, dyn busnes amlwg. Dychwelodd John, gyda Harriet, i Batagonia yn 1874. Erbyn hyn yr oedd wedi mabwysiadu'r enw 'Murray' yn enw canol o barch i'w gyn-gyflogwr. Ganed iddynt un ar ddeg o blant – Mary Emilia (1874), Harriett Anne (1875), Lucy Emma (1876), John Younger (ganed 3 Tachwedd 1876), Gwenllian Ellen (ganed 16 Gorffennaf 1878), William Thomas (1880), Emilia Elizabeth (ganed 9 Mehefin 1881), Francis Younger (1885), Marion Margaret (1886), Alfred (1888) ac Edward Scott (1890).

Agorodd John Murray Thomas fasnachdy yn Nhrerawson a daeth ei gwch, y *Gwenllian*, yn ddolen gyswllt bwysig rhwng y Wladfa a'r brifddinas, Buenos Aires, ar adeg anodd, ac er iddo gael ei gyhuddo o godi prisiau uchel am ei nwyddau, bu'r goel a estynnodd iddynt yn fodd i gadw'r gwladychwyr yn fyw. Tua'r un adeg dechreuodd chwarae rhan flaenllaw yn y teithiau archwiliadol i chwilio am diroedd newydd i'r Cymry ymsefydlu ynddynt ac, ar yr un pryd, chwilio am aur a mwnau eraill. Yn ogystal ag arwain nifer o'r teithiau cynnar, ef hefyd oedd yn gyfrifol i rannau helaeth am drefnu ac ariannu'r daith fawr gyntaf i'r Andes gyda'r Rhaglaw Fontana, pryd y darganfuwyd Cwm Hyfryd; ef, hefyd, a dalodd hanner costau'r daith. Yr oedd y daith honno yn un o'r rhai pwysicaf oblegid rhoddodd ardal newydd ffrwythlon i'r Cymry ei wladychu ac yn y pen draw bu'n un o'r prif resymau pam y llwyddodd yr Ariannin

i ddal ei gafael ar y tiroedd breision hyn yn yr Andes yn ystod yr anghydfod â Chile ynglŷn â lleoliad y ffin rhwng y ddwy wlad yn 1902.

O dan y pennawd ‘Neuadd Gymreig Rawson’ yn rhifyn 17 Ionawr 1891 o’r *Drafod*, cofnodir fod John Murray Thomas wedi cyflwyno ‘odyn o brics a llannerch o dir ynghanol y drev i godi neuadd gyhoeddus’. Yr oedd Pwyllgor Darllenfa'r dre yn gobeithio y byddai'r neuadd yn barod erbyn yr Eisteddfod ym mis Awst y flwyddyn honno.

Yr oedd John Murray Thomas yn ffotograffydd arloesol hefyd, ac mae ei ffotograffau yn rhoi inni ddarlun clir o gyfnod allweddol yn hanes y Wladfa. Yr oedd yn byw yn ardal Trerawson mewn tŷ o’r enw Castell Iwan, ac ar ôl marw ei wraig symudodd i fyw at ei ferch Harriett oedd yn briod â Michael G. Mulhall. Bu farw ar 23 Tachwedd 1924 yn 77 mlwydd oed.

NLW Facs 184

Gwefan Jeremy Howat: priodasau yn Eglwys Bresbyteraidd San Andreas, Buenos Aires.

‘Neuadd Gymreig Rawson’, *Y Drafod*, 17 Ionawr 1891

WILLIAMS, David Beynon (1852–1935)

Dywedir bod David B. Williams yn hanu o Gilycwm, sir Gaerfyrddin, ac iddo gael ei eni yn 1852. Gadawodd Gymru yn ei arddegau, mae'n debyg, a mynd i Pittsburg, Pensylfania, a gwelir llanc 17 mlwydd oed a aned yng Nghymru gyda theulu David Pritchard ar gyfrifiad Pensylfania yn 1870. Dychwelodd David Beynon Williams i Gymru gyda'i gefnder Thomas Gwilym Pritchard, oedd wedi ymfudo i Bensylfania gyda'i deulu tua 1862. Ar ôl crwydro tipyn o gwmpas Cymru aeth y ddau i Lerpwl i ymuno â charfan Edwin Cynrig Roberts oedd yn gadael am Batagonia. Gadawsant Lerpwl ar 25 Tachwedd 1875 ar y *Vandyke* a chyrraedd Buenos Aires ar ddydd Nadolig a hwylio i'r Wladfa ar y *Santa Rosa* yr un diwrnod. Cyraeddasant y Wladfa ym mis Ionawr 1876.

Treuliodd David Beynon Williams y blynyddoedd cyntaf mewn tŷ ar ochr deheuol yr afon o dre'r Gaiman, lle a alwyd yn 'Batch William Thomas yr hen lanc' lle cai pobl sengl yr ardal groeso cynnes, cwmni diddan a tho i'w cysgodi rhag yr elfennau. Yn 1879 priododd Gwen Jones, aned yn Ystradgynlais ar 20 Mai 1857 yn ferch hynaf Thomas Morgan Jones a Mary ei wraig, a dychwelyd i fyw yn y Gaiman. Roedd David yn of ac ymunodd â Robert E Edwards i agor siop gof. Roedd gan David a Gwen westy bach yn y Gaiman a fferm yn ardal Angustura a enwyd 'Pant y Celyn'. Roedd David yn ddarllenwr mawr gyda diddordeb arbennig yn yr Unol Daleithiau, a Gwen yn wniadwraig fedrus ac yn aelod ffyddlon o'r capel.

Ganed un ar ddeg o blant i David B. a Gwen: William (a aned yn 1880 ond a fu farw toc wedi'r geni), William Alexander (ganed yn 1881 a phriododd Ann Jones), Thomas Beynon (ganed yn 1882, hen lanc), Rachel Mary (ganed yn 1884, priododd Cromwell Griffiths), Emely (ganed yn 1885 ond bu farw'n faban), Emely Adeline (ganed yn 1886, priododd Llewelyn Griffiths), John Llewelyn (ganed yn 1889, priododd Esther Jones), Elizabeth Ann (ganed yn 1891, di-briod), Margaret (ganed yn 1893, priododd Daniel Williams), Morgan (ganed yn 1895, bu farw'n flwydd oed) a Sabatheg (ganed yn 1897, bu farw'n flwydd oed).

Bu David B. Williams farw 22 Gorffennaf 1935 yn 83 mlwydd oed ac ychydig dros fis yn ddiweddarach bu Gwen farw, ar 6 Awst, yn 78 mlwydd oed.

WILLIAMS, Edward Jones (1857–1932)

Ganed E. J. Williams yn ninas Durham ar 19 Gorffennaf 1857, yn fab i William Williams, gynt o Dreuddyn, sir y Fflint, a Mary Jones (Mair Dan y Cae), ei wraig. Yr oedd William yn 21 mlwydd oed a Mary ddwy flynedd yn hŷn adeg eu priodas ym Manceinion yn 1856, ond symudasant i Durham ymhen ychydig. Yno y ganed chwech o blant er mai ond pedwar a orosodd – Edward, Ann, Mary Harriet a Jane Elen.

Yn gynnar yn 1862 penderfynodd William Williams ymuno â chriw o ddynion o Fanceinion, Cymry gan mwyaf, oedd â'u bryd ar fynd i Galiffornia i chwilio am aur. Gadawodd Mary a'r plant ar dyddyn yn Bankhall ger Rhewl, Mostyn, yn agos at nifer o'i theulu. Yno, roeddent yn aelodau yng Nghysur, capel yr Annibynwyr, lle'r oedd Dr E. Pan Jones yn weinidog, ac yn yr ysgol Sul a'r Ysgol Genedlaethol ym Mostyn y dysgodd Edward ddarllen ac ysgrifennu. Yn un ar bymtheg mlwydd oed dechreuodd Edward gymryd dosbarth ysgol Sul dan E. Pan Jones.

Bu William Williams oddi cartref am un mlynedd ar ddeg, a phan ddychwelodd i Fostyn, aeth ati i chwilio am ysgol addas i'w fab. Dewisodd yr Ysgol Ramadeg fach yn Nhreffynnon lle'r oedd William Coles yn athro arni. Yno cafodd Edward addysg dda mewn Saesneg, Mathemateg a'r Gwyddorau, a manteisiodd, hefyd, ar bynciau eraill a gynigid, er enghraifft, Ysgrythur, Gramadeg Saesneg, Hanes, Daearyddiaeth a'r Clasuron.

Ni allai ei dad fforddio rhoi addysg prifysgol i Edward, ac yr oedd yn ddigon hirben i weld y byddai cymwysterau peirianyddol yn rhai gwerthfawr. Felly, ar 24 Mai 1875, ddeuddydd cyn ei ben blwydd yn ddeunaw mlwydd oed, prentisiwyd Edward i Joseph J. Williams, y peiriannydd mwyngloddio lleol, am dair blynedd ac ar gost o ddeng punt ar hugain punt i'w dad, i'w hyfforddi yn beiriannydd mwyngloddio a thirfesurydd. Ar ôl blwyddyn gyntaf ei brentisiaeth, ysgrifennodd Edward draethawd hir yn dwyn y teitl, 'The Mineral Resources of Denbighshire and Flintshire' a gyhoeddwyd yng Nghylchgrawn y Gymdeithas Ddaearegol yn Llundain, ac yn ystod trydedd flwyddyn ei brentisiaeth, enillodd fedal a £20 yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1878, a gynhaliwyd ym Mhenbedw, am lawlyfr yn Gymraeg ar Ddaeareg.

Serch ei gymwysterau, methodd Edward gael swydd addas a throdd ei feddwl at yr ymgyrch i ddenu rhagor o ymfudwyr o Gymru i'r Wladfa ym Mhatagonia ar yr un pryd ag yr oedd natur aflonydd ei dad yn troi yn yr un cyfeiriad. Felly, ar ddiwedd

1880 cychwynnodd William Williams a'i deulu am y Wladfa. Arhosodd Edward ym Muenos Aires er mwyn cyflwyno ei hun i swyddogion sefydliadau peirianyddol yr Ariannin a derbyn cydnabyddiaeth o'i gymwysterau proffesiynol, ac er mwyn meistroli cymhlethdodau terminoleg Sbaeneg a magu cysylltiadau gwerthfawr yng nghylchoedd y Llywodraeth a chylchoedd busnes a masnach. Yn y cyfamser, teithiodd ei deulu i Chubut ac ymunodd Edward â hwy yn y man.

Ar ôl iddo gyrraedd y Wladfa Gymreig yn 1881, rhoddodd Edward Jones Williams yr holl brofiad a gafodd yn brentis, a'i brofiad o weithio fel *lampman* yn hen chwareli Cei Mostyn pan oedd yn ifanc, ar waith yn y Wladfa. Bu'n brysur gydag adeiladu'r camlesi dyfrhau a mesur tiroedd, ac yn 1884 bu'n chwilio am lwybr ymarferol, heb fod yn rhy gostus, ar gyfer y rheilffordd newydd. Cymerodd fesuriadau gofalus a chynhyrchu cynlluniau a brasluniau, a gwelir manylder ei arolwg yn ei lyfrau nodiadau.

Yn 1890 teithiodd Edward Jones Williams i Gymru i briodi ei gyfnither Mary Elizabeth Price ar 9 Rhagfyr 1890 yng nghapel Cysegr, Mostyn. Cawsant chwech o blant – Marian Neved (11 Hydref 1891), Dilys Mostyn (12 Tachwedd 1892), Eurfron Sian (8 Tachwedd 1895), Iorwerth Mostyn (2 Medi 1902) a William Penri (26 Mawrth 1905).

Yn ei deyrnged i Edward Jones Williams, dywed y Parch. R. J. Jones, Prestatyn, a fagwyd yn y Wladfa, ei fod 'yn perthyn i'r to o wladfaoedd a fu'n siapio bywyd y Wladfa, yn fasnachol ac yn grefyddol'. Gydag un neu ddau arall cychwynnodd Arddangosfa Amaethyddol y Wladfa a fu'n fodd i ddatblygu a pherffeithio amaethyddiaeth a garddwriaeth y wlad. Roedd yn noddwr cadarn i'r eisteddfodau a'r cyfarfodydd llenyddol, a gweithiai'n ddygn gydag eraill i fagu chwaeth yn y bobl ifainc at lenyddiaeth Gymraeg ac i feithrin yr iaith. Teithiodd lawer yn y wlad a bu'n aelod o Bwyllgor Unedig y Methodistiaid a'r Annibynwyr, yn gadeirydd Cwmni Machnachol y Camwy, yn ogystal â chynnal dosbarth yn ysgol Sul capel Tabernacl, Trelew. Tystia T. Ogwen Griffiths fod E. J. Williams yn Gymro goleuedig a thwymgalon, yn genedlaetholwr heb rith o ragfarn tuag at genhedloedd eraill.

Gadawodd y teulu Ddyffryn Camwy am Gymru ym mis Gorffennaf 1907, ond ym mis Ebrill 1908 dychwelodd Edward i'r Wladfa er mwyn rhoi ar waith estyniad y rheilffordd i'r Gaiman. Cymerodd Iorwerth a William Penri gydag ef am flwyddyn arall yn y Wladfa. Dywed Kenneth Skinner fod E. J. Williams am hyfforddi Penri

mewn sgiliau marchogaeth, a phynodd geffyl drud a chyfrwy i'w fab ifanc. Mae Cofnodion Cyngor y Gaiman yn nodi fod Edward Jones Williams yn dal i weithio ar gynlluniau i ehangu'r rheilffordd ac i lunio cynllun i adeiladu melin ddŵr, a bu'n gynrychiolydd i'r CMC yn 1914. Wedi iddynt ddychwelyd i Gymru, bu'r teulu'n byw yn 'Grange Mount', Y Rhyl, cyn symud i fyw ym Mhendyffryn, Y Rhyl, ym mis Mawrth 1914, ac yno y bu farw Edward Jones Williams ar 3 Gorffennaf 1932. Bu Mary Elizabeth Williams farw ar 30 Gorffennaf 1951 yng nghartref ei merch, Neved, yn Hen Gonwy.

NLW MS19724E, Torion o *The Rhyl Journal*, 9, 16 a 23 Gorffennaf 1932 yn cynnwys ysgrifau coffa E. J. Williams

WILLIAMS, Josiah (1831–1923)

Ymfudodd Josiah William o Dreherbert yn y Rhondda, ond un o sir Gaerfyrddin oedd e'n wreiddiol. Fe'i ganed yn 1831, yn fab i Benjamin Williams a'i wraig Esther oedd yn byw ym Mlaenrhyd, Abernant, plwyf Cynwyl Elfed ar adeg cyfrifiad 1841. Bu Benjamin farw cyn 1851 a dychwelodd ei weddw Esther i'w phlwyf genedigol, Trelech-a'r-Betws, gyda'i phlant ieuengaf Mary, 13, Esther, 8 a Benjamin, 5.

Yn y flwyddyn 1855 priododd Josiah ag Ann Williams, a aned yn Abergwili, ac roeddent yn byw yn rhif 47 Penheolferthyr, Merthyr Tudful, yn 1861 gyda'u merch fach pedair blwydd oed, Jane, ac erbyn cyfrifiad 1871 roedd y teulu wedi symud i Benyreglyn, Treherbert yng Nghwm Rhondda - Jane (ganed 1857), Benjamin (1862) ac Esther (ganed 18 Mai 1867). Cyn ymadael am Batagonia rhoddwyd Beibl gyda chyflwyniad dyddiedig 5 Medi 1875 i Josiah gan Weinidog ac aelodau Capel Carmel, lle bu Josiah yn athro.

Ymsefydlodd Josiah a'r teulu ardal Glyn Du, rhwng Rawson a Threlew, lle bu'n ffermio am saith mlynedd. Roedd yn cadw da corniog a gwerthai ymenyn a chaws. Josiah oedd y cyntaf i adeiladu ei dyddyn o frics llosg ar y lle cyn a fesurwyd i ffurfio Trelew. Ynghyd â Rhydderch Hughes, Richard Jones 'Glyn Du', Thomas Jones 'Glan Camwy', John Howell Jones ac eraill hyrwyddodd adeiladu Capel Moriah lle bu'n aelod ac yn un o'r diaconiaid cyntaf. Fe'i disgrifiwyd fel athro da ond cynghorwr gwell, yn ŵr cywir ac egwyddorol, gonest a darllenwr cyson. Yn nes ymlaen, wedi iddo symud i ymyl Trelew yn 1882, bu'n ddiakon yng Nghapel Tabernacl, Trelew, yn Athro Ysgol Sul ac yn aelod o'r côr.

Bu farw ei wraig Ann ar 25 Rhagfyr 1908 yn 77 mlwydd oed; roeddent wedi bod yn briod am 53 mlynedd ac wedi dathlu eu Priodas Aur yn 1905. Yn rhifyn 12 Rhagfyr 1915 o'r *Drafod* nodwyd mai Josiah oedd y person hynaf yn y Wladfa, yn 84 mlwydd oed.

Priododd eu merch Jane gyda Peter Jones a'u plant oedd: James (18851–1957) a briododd Mair Evans (1896-1957) Bryn Gwyn, Annie (priododd William A. Williams), Margaret (briododd Robert Jones), Claudia (priododd José Woodley), Esther (priododd John Williams), Samuel (hen lanc), Mary (priododd Gweirydd Hopkins), Benjamin (priododd Lily Hughes ym mis Awst 1924) a Hannah (priododd Robert Owen).

Priododd Benjamin mab Josiah ac Ann ag Enid Hughes a chawsant Sephora (priododd Jarett Pugh), Dyfed (hen lanc), Josiah (priododd Eirlys Pugh), Gryffydd

(hen lanc) a Milkah a fu farw yn ddeuddeng mlwydd oed o ganlyniad i ddamwain. Bu Enid farw ar 4 Tachwedd 1938 a Benjamin ar 21 Mawrth 1939.

Priododd Esther â John Samuel Hughes, mab Elizabeth (Betsi) Hughes (Boncyn) ar 5 Gorffennaf 1893, a chawsant 7 o blant □ Ann (priododd Emlyn Williams), Jane (priododd Lewis Davies), Debora (priododd Fransisco Dobson), Lydia (priododd Donald MacDonald), Mair (priododd Eilyn Diwig Price), Josiah (priododd Mabel Davies) ac Elizabeth, a fu farw ychydig ar ôl ei geni.

Bu Josiah farw yn Nhrelew ar Ddydd Sul, 4 Hydref 1923, yn 92 mlwydd oed.

WILLIAMS, William ('Prysor' 1889–1945)

Ganed William Williams, 'Prysor', yn Nhrawsfynydd yn 1889, yn fab i William ac Ellen Williams, 6 Tynypistyll. Gwelir y teulu ar gofnod cyfrifiad 6 Tynypistyll yn 1901: William Williams 36 mlwydd oed a 'Slate Quarry rocker', Ellen ei wraig (35), Evan R yn 15 ac yn gweithio yn y chwarel, Willie (12), Winifred (10), Owen (7), Ellis (5), John H (3) a Maggie (1). Ar ôl gadael yr ysgol elfennol aeth William, y mab, i weithio i ffermwyr cyfagos ac ar fferm Tŷ Du yn y Parc ger y Bala, ac fe'i gwelir yn 'Llafurwr Amaethyddol' 22 mlwydd oed yn Nhŷ Du ar gyfrifiad 1911. Teithiodd am y Wladfa ar yr *Orita* a adawodd Lerpwl am Borth Madryn ar 2 Tachwedd 1911, ac ymhen pedair blynedd priododd ag Ann Vaughan, merch hynaf Morris Vaughan a'i wraig, ac aeth ati i ffermio.

Daeth yn ffigwr amlwg yng nghylchoedd llên, crefydd a'r gymdeithas. Dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth yn ei oriau hamdden, gan ennill y Goron yn Eisteddfod Trelew yn 1918 gyda'i bryddest i'r 'Gorchfygwr' a llawryf y Prifardd yn Eisteddfodau 1920 a 1921 am ei bryddestau 'Sibrydion y Nos' a'r 'Paith'. Bu ei gyfraniad yn fodd i foderneiddio a chodi lefel cynnyrch barddonol y Dyffryn. Meddai ar ffresni a dychymyg, yn enwedig mewn cerddi hirion; yn ei bryddest 'Y Paith' clywir swyn a dirgelwch distawrwydd y paith yn cael eu disgrifio a'u gweu yn brydferth a chelfydd. Ysgrifennai ar bob math o bynciau, gan gynnwys pynciau crefyddol. Cydnabuwyd ei deilyngdod gan ei gyd-feirdd pan y'i dewiswyd yn unfrydol yn Ddirprwy Archdderwydd Gorsedd y Wladfa. Daeth Prysor i gadair olygyddol *Y Drafod* ym mis Mai 1937 a llenwodd y swydd yn ddiwyd a theilwng hyd wythnosau cyntaf mis Mawrth 1945.

Ym mywyd y Wladfa yr oedd pennaf ddiddordeb Prysor fel newyddiadurwr. Carai gerddoriaeth a bu'n arweinydd Côr Plant y Gaiman. Ei ddymuniad oedd marw yn nhawelwch Patagonia, fel y mynegodd yn un o'i gerddi mwyaf dwys, ond bu farw ym Muenos Aires ar 22 Mehefin 1945 yn 56 mlwydd oed a chladdwyd ei weddillion ym Mynwent Brydeinig Chacarita, ymhell o Ddyffryn Camwy ac o Drawsfynydd ei febyd.

Roedd ganddo ddau frawd yn y Wladfa, Evan Robert Williams wedi ei eni yn 1886 ac yn byw yn y Gaiman, ac Owen Williams a aned yn 1894 ac a fu'n byw yn Nhrevelin. Bu farw unig blentyn William ac Ann, Gwyn Vaughan Williams, yn ddi-blant.

Y Drafod 6 Gorffennaf 1945, 'Marw Bardd Cymraeg' o'r *Buenos Aires Herald*

Y Drafod 5 Medi 1945 'Er Cof am y Cyfaill Prysor' gan Evan Thomas; 'Atgof am Prysor' by Elfed Price and 'Llinellau Coffa' gan Evan Thomas

Y Drafod 21 Medi 1945: 'Am y gân a gollwyd' gan Irma Hughes de Jones a cherddi eraill gan 'Deiniol', Morris ap Hughes a 'Cyfaill'